Y DRYSORFA.

RHIF. 699.] IONAWR, 1889. [LLYFR LIX.

ADGOFION HANNER CAN' MLYNEDD.*

GAN Y PARCH. DAVID PHILLIPS, ABERTAWE.

(MEWN DWY BENNOD.)

PENNOD I.

Y MAE y cyfryw gyfarfod a hwn yn dra dyddorus i mi, fel, hwyrach, y gellwch chwithau dybio. Y mae yn rhyfedd genyf feddwl fy mod yn ddigon hen, fel ag i fod, yn hyny, yn meddu y cymhwysder i fod yn eich plith ar y fath achlysur, a chymeryd rhan yn ngwasanaeth y fath gyfarfod. Dichon na feddaf nemawr gymhwysder heblaw hyny.

Pa fodd bynag am hyny, y mae bod yma yn eich mysg ar y fath achlysur, ac i'r fath amcan, yn rhoddi mantais i mi edrych yn ol dros rhyw driugain mlynedd ac uchod, gan beri i adgofion lawer adgyfodi o'u beddau ac ymrithio yn ddelweddau byw o flaen fy meddwl, gan gymhell eu hunain i sylw. Y mae llawer o hyny y byddai yn dda genyf beidio eu cofio na'u gweled byth, ond eu claddu yn dragywyddol yn nyfnderoedd môr o anghof; ond y mae llawer eraill y mae yn felus eu cofio, ac yn ddymunol i edrych arnynt, fel y dymunem allu rhoddi iddynt "adgyfodiad gwell." Gyda y rhai hyny yn unig y dymunwn aros heno, ac ymdroi o'u cwmpas am ychydig.

Y mae yn agos driugain a deg o flynyddoedd wedi myned heibio oddiar y pryd yr wyf yn cofio gyntaf am Bancyfelin a'r ardaloedd cylchynol. Erbyn heddyw y mae y cyfnewidiadau yma yn fawrion ac yn amryw. Nid yw nemawr ddim yr un fath a chynt, ond arwynebedd y wlad: y mae y ffaith mai gwlad cwbl amaethyddol ydyw yn abl rhoddi cyfrif am hyny. Y mae y dyffrynoedd a'r bryniau, yr afonydd a'r nentydd, y caeau a'r perthi, yn aros fel cynt. Y mae y ffermdai hefyd yn weddol ddigyfnewid, ond eu bod yn heneiddio, ac ambell un wedi newid er gwell; ond y preswylwyr —y maent agos oll wedi cael newid eu gwyneb a'u danfon i'w ffordd, fel nad oes yn aros heddyw ond yr adgof am danynt. "Y tadau, pa le y maent hwy?" Wedi myned i ffordd yr holl ddaear, a dygwydd meibion dynion wedi eu symud hwythau i'r "tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw." Braidd na allwn ddywedyd yma heddyw fel un o weision cyflog y Patriarch gynt, "Myfi fy hunan yn unig a adawyd i fynegi hyny i chwi." Pan droaf am ychydig i edrych yn ol, gan ymofyn am fy nghyfoedion, y mae dwfn brudd-der yn fy meddiannu. Ni welaf nemawr un o'r rhai gynt oeddent gyfoedion a chymdeithion i mi, "yn cydchware a chyd-ddysgu a chydymgomio yn gu." "Y rhai oedd yn felus genym

* Traddodwyd yr *Adgofion* hyn ar y cyntaf yn y ffurf o ANERCHIAD yn Nghyfarfod Canmlwyddiant yr Achos Methodistaidd yn Bancyfelin, Sir Gaerfyrddin, Hydref 22ain, 1888.

gydgyfrinachu, ac a rodiasom i dŷ Dduw ynghyd." Gobeithio yr wyf eu bod oll yn well arnynt nag y gallasai fod yma. Ni feddwn heno ond yr adgof am danynt.

Ond amcan y cyfarfod hwn yw dwyn i sylw yr oes bresennol o bobl y wlad yma, ryw adgofion am yr achos crefyddol Methodistaidd y dyddiau gynt yn yr ardaloedd hyn. Y mae yr achos yn fyw yma heddyw, ac mewn rhai pethau â golwg amgenach arno na'r pryd hwnw. Y mae yma heddyw well capel—harddach adeilad; ond nid un mwy, oddieithr fod y *gallery* yn ei wneyd yn fwy o hyny. Ond yr oedd rhywbeth gyda y tadau ag oedd yn eu gwneyd hwy yn ddynion amlwg iawn yn y wlad yma fel dynion Duw, yr hyn bethau, hwyrach, yr ydym wedi eu colli i gryn fesur. Yr oedd yr hen flaenoriaid, yr adeg hono, mor fedrus i gadw a dwyn ymlaen y cyfarfod eglwysig, ac yn ymddarpar ar gyfer hyny. Mor gyfarwydd oeddent yn y Bibl a *Thaith y Pererin*, a *Gurnal*, a *Drws y Seiat Profiad*, a'r cyffelyb lyfrau! y rhai hwyrach nad yw pawb o honom ni yn gwybod gymaint ag am eu henwau; ac ynghyd a hyny eu profiad dwfn, llydan o wirionedd yr efengyl ynddynt hwy eu hunain. Yr oeddent yn ddigon diaddurn oddiallan, ac yn lled anghoeth yn eu gwedd a'u hiaith, ond yr oedd prydferthwch yr Arglwydd eu Duw, yr addurn a gynnyrchid yn naturiol gan y bywyd ysbrydol, yn eu gwneyd "yn degwch bro." O! yr hen dadau anwyl, y mae yr adgof am danynt yn felus i ni yma heddyw!

Y blaenoriaid cyntaf wyf yn gofio yn eglwys Bancyfelin, y rhai a elwid y pryd hyny Stiwardiaid y Seiat, oeddent fy nhaid, tad y diweddar Barch. David Howells, Abertawe, a Dafydd Howell oedd ei enw yntau, ac yn byw mewn ffermdŷ bychan o'r enw Waenbricks, lle hefyd y bu efe farw. Yn y ffermdŷ bychan hwn y ganwyd ac y magwyd y Parch. D. Howells, yn yr un gymydogaeth a'r Pantdwfn, lle y ganwyd ac y magwyd y Charlesiaid o ddymunol goffadwriaeth. Un arall o flaenoriaid Bancyfelin oedd Mr. William Charles, brawd i Charles o'r Bala—un o'r Charlesiaid uchod. Yr oedd efe yn byw ar y pryd yn y Derigleision, ffermdŷ yn yr ardal ac yn ffinio ar Waenbricks. Yr oedd fy nhaid ac yntau felly yn gymydogion agos, ac yn gydswyddogion yn eglwys Bancyfelin. Un arall oedd un o'r enw Abel Thomas, yn byw yn Llwyndyrus, fel y galwem y lle, ar ochr *Cwmins* Llangynog, ar gyfer Bancyfelin. Dyma y tri chedyrn cyntaf wyf fi yn gofio yn flaenoriaid yn yr eglwys Fethodistaidd yn Bancyfelin: dynion grymus yn eu gwybodaeth Feiblaidd, a dwfn yn eu profiad o wirioneddau achubol yr efengyl. Yr oedd gan eu bywyd ddylanwad yn yr holl wlad, a theimlid eu presennoldeb lle bynag y byddent. Yr oedd i'r William Charles hwn ddau o feibion ac un ferch—nid wyf yn cofio am ychwaneg. Enw y meibion oedd John a Billy, ac enw y ferch oedd Lucy. Bu Billy am ryw hyd yn cadw ysgol ddyddiol am fisoedd yr haf yn *Carthouse* y Deri, a chyrchai plant yr ardal hono i'r ysgol, ac yn eu plith yr oeddwn innau. Nid oedd fawr llun ar yr ysgol, ac nid oedd yr athraw yn amcanu at fwy na'n gosod ar ben y ffordd i ddysgu darllen Saesoneg, a pharai i ni ddeall yr hyn a sillebem trwy ddyweyd wrthym beth oedd y gair hwnw yn Gymraeg. Yr wyf yn cofio yn awr fy mod I yn hogyn bychan rhwng ei liniau yn ceisio sillebu y gair "*wicked*," ac yntau yn dyweyd mai "drwg" oedd hyny yn Gymraeg, ac mai "*wicked boy*" oedd "bachgen drwg," a minnau ar ol hyny yn pallu sillebu y gair "*wicked*" ar un cyfrif. Yr oedd y ferch Lucy yn gyfoed i fy mam—coffa da am dani!—a thra yr oeddent yn ieuainc ac yn

gyfagos, yr oeddent yn gymdeithion yn cydfyned a dychwelyd i'r cyrddau a'r Ysgol Sul, ac yn cyd-ddysgu a chydadrodd pennodau a phynciau, ac felly wedi ymglymu yn fawr wrth eu gilydd. Ond priododd Miss Charles, cyn cof genyf, â Mr. Martell, Tanerdŷ, Mydrim, a symudodd felly o'r ardal i fyw. Y mae mab iddi hi yn byw yn awr yn y Skettŷ, yn ymyl Abertawe, ac yn foneddwr cyfrifol a da, yn ddiacon gyda y Bedyddwyr yn y *Memorial Chapel* yn Walter's Road, Abertawe. Priododd fy mam hefyd tua'r un amser, ac felly gwahanwyd y cymdeithion. Nid hir ar ol hyn daifu i Mr. W. Charles roddi heibio y fferm, ac felly ymadael â'r Derigleision, a symud i Gaerfyrddin i fyw at ei frawd, y Parch. D. Charles, am weddill ei ddyddiau yn y byd, ac yno y bu farw. Felly torwyd ei gysylltiad â'r eglwys yn Bancyfelin. Dafydd Howell ac Abel Thomas bellach oeddent y prif golofnau dan yr achos yno, yn cael eu cynnorthwyo o bob tu gan amryw frodyr eraill yn gydweithwyr ffyddlawn â hwy, ac yn amlwg ymhlith y brodyr da. Dafydd Lewis y gwehydd, a Chaleb Lewis, Jacky y Ddwyryd, a Lefi Bontgoch, a llawer o rai cyffelyb, a fu o gryn wasanaeth i'r achos. Symudodd Dafydd Lewis y gwehydd o Bancyfelin i Abertawe tua'r amser hyny, ac yno y bu farw. Yr oedd mab iddo yn byw ar gongl Bethesda Street, ac yn bregethwr lleol gyda y Bedyddwyr, ynghylch yr amser yr wyf fi yn adnabod Abertawe. Merch i'r Dafydd Lewis uchod oedd Margaret Lewis, yr hon oedd yn byw ac yn cadw tŷ y Capel yn Casllychwr y rhan olaf o'i hoes, ac yno y bu hi farw. Mab iddi hi yw y Dafydd Lewis sydd yn awr yn Casllychwr, ac yn ddiacon ffyddlawn yn yr eglwys Fethodistaidd yno. Miriam oedd enw merch arall i'r hen Dafydd Lewis, ac yn byw yn Glandwr, ac yn aelod yn y Crug-glas y rhan olaf o'i hoes. Y mae hithau yn ddiweddar wedi myned trosodd at y mwyafrif. Yr oedd hi a'i chwaer Margaret yn gymeriadau lled hynod, ac yn rhai amlwg ymhlith y brodyr yn ardal Abertawe. Ond i ddychwelyd i Bancyfelin. Tua'r adeg yma, cafwyd gŵr o Ddyffryn Tywy, o'r enw Dafydd Lewis eto, i fyw i ardal y Banc, trwy iddo ymbriodi â gwraig weddw barchus, yr hon a alwem yn Dinah Drenewydd, ffermdy cyfrifol, ac mewn cysylltiad er ys oesoedd â'r achos yn Bancyfelin, a mam i'r Jeremiah Lewis presennol sydd yn byw yn yr un lle—y Drenewydd. Cyfrifid dyfodiad y gŵr hwn i'r ardal, trwy ei gyfathrach â gweddw y Drenewydd, yn gryn gaffaeliad i'r achos yn y Banc; ac ychwanegwyd ef at y ddiaconiaeth ynghyd ag eraill o'r rhai amlwg ymhlith y brodyr yno ar y pryd—William Jones, y saer, yr hwn oedd yn byw yn y pentref mewn tŷ a elwid Danyffordd, lle hefyd y llettŷai y pregethwyr yr amser hwnw. Ei wraig ef oedd ferch i'r Abel Thomas ymhlith y tri chedyrn cyntaf.

Un arall a gafodd le ar fainc y ddiaconiaeth y pryd hwn oedd un a elwid genym William Howell y Waenfach, gweithiwr cyffredin yn ffermydd yr ardaloedd, ond gŵr da ac yn dra defosiynol a thoddedig ei dymher. Byddai yn aml yn wylo tra y siaradai yn y seiat, ac yn arbenig pan yn gweddïo, ac felly yn aml yn agor ffynnonau y dagrau yn eraill hefyd. Yr oedd ei lais yn soniarus iawn, a chyflawnder o hono. Yr oedd iddo frawd o'r enw Ben yn aelod yn yr eglwys, nid anenwog, ac yn wrandawr craffus iawn. Y mae yn gof genyf am un oedfa prydnawn Sabboth, pryd y darfu i'r pregethwr ar y pryd gau y Bibl ar unwaith wedi darllen y testun; ac meddai Ben wrth fyned o'r oedfa, "Fe fuasai gystal genyf fi iddo gauad ei enau hefyd; unrhyw ddyn a gymero arno bregethu yr efengyl a'r

Bibl yn nghau o'i flaen, yr un peth genyf fi fyddai iddo dewi a son." Hogyn oeddwn ar y pryd, ond yr ydwyf yn cofio sylw Ben fyth. Mor fychan o beth mewn pregethwr all attal y fendith ar ei bregethu! Cymerwn addysg.

Yr oedd yn byw yn y Wern y pryd hwnw hen foneddiges ddibriod a elwid Miss Morgans, yr hon hefyd oedd yn aelod yn yr eglwys yn Bancyfelin, ac a ystyrid yn un o urddasolion y wlad. Yr oedd amryw o'r pregethwyr—etholedigion ganddi hi—yn arfer aros yn y Wern pan yn ymweled â Bancyfelin. Yr oedd hi felly o gryn wasanaeth i'r achos, ac a berchid yn gyfatebol.

Mr. Watters o'r Sarnau oedd hefyd yn ŵr anwyl ac amlwg ymhlith y brodyr yn y Banc yr amser hyny. Yr oedd efe yn foneddwr, yn ŵr o gynghor, yn Ustus Heddwch a *Banker* yn Nghaerfyrddin. Nid yn aml iawn y gwelid neb o'r fath yr adeg hono ymhlith y Methodistiaid tlodion. Yr oedd efe hefyd yn flaenor anwyl yn yr eglwys yn y Banc. Byddai efe yn myned â llawer o'r pregethwyr i'r Sarnau gydag ef pan yn ymweled â'r ardal ar eu teithiau yn ol arfer dda y dyddiau hyny. Y Parch. D. Griffiths, Llantwn, fel y gelwid ef, oedd hoffddyn Mr. Watters—y blaenaf ymhlith ei etholedigion, yn bregethwr o'r dosbarth blaenaf, ac yn meddu y llais mwyaf perseiniol a glywid gan neb mewn unrhyw oes neu wlad. Trwy hoffder Mr. Watters o hono, hwyrach, byddai ei ymweliadau â Bancyfelin yn weddol fynych, a'i bregethu nerthol yn gymeradwy iawn yn y wlad. Yr oedd y brawd anwyl, Mr. Watters, yn haelionus iawn at yr achos ac i dlodion yr eglwys yn y Banc. Llawer gwaith y gwthiodd efe hanner *sovereign* i law rhyw hen chwaer neu hen frawd tlawd yn y seiat, tra y rhodiai efe yn ol a blaen yn y capel syml ymhlith ei frodyr. Cafodd Nani fach, Llanon, fel y galwem hi, lawer darn o aur yn ei llaw felly gan Mr. Watters. Profodd hi ac eraill fod y seiat yn foddion gras iddynt hwy mewn mwy nag un ystyr. Yr oedd efe yn ŵr anwyl iawn yn yr holl wlad, ac yn ddwfn felly ymhlith y frawdoliaeth grefyddol, ac yn ddiammheuol dduwiol. Yr oedd iddo ddau o frodyr yn byw yn yr ardal, ond yn annhebyg iawn iddo ef. Un o honynt, a elwid Joseph Watters, oedd yn byw yn Rushmoor, a'r llall oedd John Watters yn byw yn Trefenty. Ni wn a oes hiliogaeth iddynt; hwyrach iddynt ymadael â'r byd yma yn ddieppil.

Yr adeg yma y daeth i fryd Mr. Watters o'r Sarnau, i sefydlu Ysgol ddyddiol yn Bancyfelin, a gwnaeth ei fwriad yn hysbys i'r frawdoliaeth grefyddol, a chafodd eu help a'u cydweithrediad calonog. Addawodd Mr. Watters *ugain punt* yn y *flwyddyn* i ddwyn ymlaen yr amcan daionus. Cafwyd o hyd i ŵr tra chymhwys fel meistr yn Mr. Thomas Nathan, gŵr ieuanc o ardal Llansadwrn a Llangadog, yn ysgolhaig da, yn arbenig felly mewn llawysgrif dlos a rhifyddiaeth; yn llawn bywyd a hoewder, ac yn aelod crefyddol, ymroddgar, a brwdfrydig gyda'r Methodistiaid. Bu ei ddyfodiad ef i'r Banc yn gaffaeliad ac yn fendith i'r ardal. Dan yr amgylchiadau hyn cychwynwyd yr ysgol ddyddiol ar y dechreu yn y capel, ond yn fuan adeiladwyd yr ysgoldŷ a stabl i ymgeleddu ceffylau y pregethwyr teithiol oddi tanodd, yr hyn sydd yn aros hyd heddyw, gydag ychydig iawn o gyfnewidiad. Yno, o hyny ymlaen, y cynnelid yr ysgol ddyddiol ynghyd a chyfarfodydd crefyddol ddyddiau yr wythnos, gyda mesur dymunol o lewyrch a boddhad—y naill a'r llall Yn gyfamserol â'r mudiad hwn yr adnewyddwyd yr Ysgol Sabbothol yn fawr, ac ychwanegwyd llawer at ei rhifedi o bobl yr ardaloedd o gylch a chwmpas, fel yr aeth yr Ysgol Sul yn

y Banc yn allu mawr yn yr holl wlad. Yr oedd ein llafur i ddysgu ar gof ac adrodd allan yn gyhoeddus bennodau o'r Bibl a phynciau, mewn bri mawr yn ein plith, ac ystyrid Ysgol Sabbothol Bancyfelin y fwyaf gwybodus a galluog yn yr holl ddosbarth. Tua'r pryd hwnw hefyd y sefydlwyd Cymanfa y Sulgwyn, yr hon a ddaeth yn fuan yn sefydliad blynyddol pwysig yn yr holl ardaloedd. Edrychid yn y blaen am wythnosau, os nad misoedd, am Gymanfa y Sulgwyn fel un o ddygwyddiadau pwysicaf y flwyddyn, a theimlid dylanwad da hyny ar feddwl ac arferion y wlad. Byddai y bechgyn ar hyd y meusydd gyda eu gorchwylion, a'r genethod yn y tai gyda yr eiddynt hwythau, yn ymbyncio allan yr hyn a ddysgid mewn pynciau ac anthemau, ar gyfer eu hadrodd a'u canu yn gyhoeddus ar ddydd y Gymanfa fawr ar Llun y Sulgwyn; a gwneid hyny gydag egni ac ymroad yn gyffredinol trwy yr holl wlad.

Byddem yn gyffredin yn cael goreugwyr ein Pregethwyr i Gymanfa y Sulgwyn. Bum I ymhlith y llïaws yn adrodd pynciau, fel y gelwid hyny, o flaen Eben. Richard, Daniel Evans, William Morris, Thos. Richards, William Llewelyn, David Griffiths, &c. John Jones, Llangedeyrn — y pryd hwnw—oedd hoffddyn Ysgol y Banc fel holwyddorwr, a dyogelid ef genym yn aml ar gyfer dydd y Gymanfa. Gwnelem gasgliad yn ein plith ein hunain i'w gydnabod am ei wasanaeth; ond gofalem na chaffai y blaenoriaid wybod, rhag y byddai iddynt roddi llai iddo ar y cyfrif hyny. O yr hen dadau anwyl a'r hen amser gynt! Y mae y mwynhâd a gawsom, a'r addysg dda a dderbyniasom y dyddiau hyny, yn fyw yn ein bryd ar hyd ein hoes, ac yn parhau hyd heddyw; ac y mae yr adgofion am hyny, i gryn raddau, yn felusion yn awr.

Ond tua'r amser hwnw y dygwyddodd drygfyd bydol pwysig yn yr holl wlad, trwy ymosodiad sydyn a dybryd ar y banciau yn gyffredinol, fel yr oedd yr holl wlad mewn *panic*. Yr oedd pryder mawr a dwfn ar feddwl yr holl eglwys yn Bancyfelin rhag ofn i Mr. Watters fethu dal yr ymosodiad cyffredinol. Ond dal a wnaeth efe heb siglo na chrynu. Ar ol i'r aflwydd hwn fyned heibio, fe wnaeth rhyw Fardd gân yn desgrifio y drygfyd dan y ffugyr farddonol o ystorm ddychrynllyd o fellt a tharanau. Y mae dau bennill o honi fel a ganlyn:—

"T'rawodd mellten draw o'r dwyrain,
Tŵr yn Llundain aeth i'r llawr,
Yn Abertawe craciodd clochdŷ,
Llanelli a Llandeilo fawr;
Rhai yn Nghymru oedd yn crynu,
Ac yn gyru i bob tre',
Chwilio am eu papyrau 'n fuan
I gael arian yn eu lle.

"T'rawodd y fellten big y 'Ceiliog,'
A blaen cyrnau yr 'Eidion du,'
Aeth heibio 'r 'W.' yn sathrog,
Er gwaetha 'r tân yn fyw mae 'r tri;
Y 'Ceiliog' ganodd yn Sir Benfro,
A'r 'Ych' a frefodd fwy yn Nghent,
Tra 'r 'W.' yn fyw 'n Nghaerfyrddin
Bydd modd i bob dyn dalu y rhent."

Y "Ceiliog" oedd Bank Morris yn Nghaerfyrddin. Yr oedd llun ceiliog ar ei filiau. Yr "Eidion du" oedd Bank Jones yn Llanymddyfri, a llun eidion du ar ei filiau. Yr "W." oedd Bank Watters yn Nghaerfyrddin. Felly, er llawenydd mawr trwy yr holl wlad, ac yn arbenig felly i'r eglwys yn Bancyfelin, diangodd Mr. Watters yn holliach yn yr ymosodiad hwn, a daeth allan o'r drygfyd yn loewach ac yn ddysgleiriach ei gymeriad nag erioed. Heb fod yn hir iawn ar ol hyn bu Mr. Watters farw yn weddol sydyn—er galar dwfn a llydan—pan yn ieuanc gymharol, yn anterth ei nerth a'i ddefnyddioldeb—yn anwyl-ddyn gan bawb, a chyda phwyslais felly i'r frawdoliaeth Fethodistaidd yn Bancyfelin. Yr wyf yn cofio yn dda am ddydd ei angladd. Yr oedd cannoedd lawer o bobl y wlad o gwmpas wedi

ymgyrchu i'r Banc, ar ochr y ffordd fawr ymhob man, i weled yr elorger-byd, yr hwn a gynnwysai gorff marw anwyl-ddyn y wlad, ynghyd a'r cerbyd-au eraill a ganlynent, yn myned heibio yn araf, a finnau yn eu plith, a phrudd-der dwfn ar wedd pawb. Hawdd oedd deall "fod tywysog a gŵr mawr wedi syrthio," ar wedd y lliaws. Yr oedd ei hoff bregethwr, y Parch. Dayid Griffiths, Llantwn, un o'r Sabbothau nesaf, yn traddodi y bregeth angladdol iddo, neu am dano yn hytrach, yn Bancyfelin. Ei destyn oedd, "Pan elo dyn i dŷ ei hir gartref, a'r galarwyr yn myned o bob tu yn yr heol;" ac ni fu hyny erioed yn fwy amlwg yn angladd neb nag yn angladd Mr. Robert Watters.

"Felly claddwyd gŵr a garwyd,
Ac a barchwyd gan y byd,
Am ei ddoniau a'i rinweddau
Ei goffhau a gaiff o hyd."

Ond ni fu marwolaeth y gŵr anwyl yn attalfa ar yr ysgol ddyddiol yn y Banc, er i hyny fod yn golled fawr ac yn ddyrnod drom iddi. Yr oedd pobl y wlad wedi profi gormod o'i lles, fel na fynent fod hebddi mwy; ymestynodd pawb i'w chadw ymlaen, ac ymrodd-odd Nathan gydag egni adnewyddol i ddal ei afael ynddi, a bu yn llwydd-iannus iawn. Yr oedd yn ŵr anwyl ac a gerid gan y wlad yn gyffredinol; yr oedd yntau wedi ymserchu yn y wlad ac yn y bobl; ac felly y parhaodd yr ysgol dan arolygiaeth Nathan i fod yn fendith i'r ardaloedd.

PENNOD II.

Tua'r amser hwn y bu tymmor o adfywiad mawr ar grefydd, yr hyn a ddechreuodd yn y parth dwyreiniol o'r Sir ac yn Nyffryn Tywy, yr ardaloedd lle y magesid Nathan. Darfu iddo yntau, gyda fy nhad, ymweled am rai dyddiau â'r parthau hyny yn ngwres y diwygiad; a phoethwyd hwythau hefyd. Wedi gweled y cyfnewidiad a wnaed trwy y diwygiad ar foesau ac arferion y bobl, cyfansoddodd Nathan gân ddorus yn desgrifio y cyf-ryw, canys yr oedd efe yn fardd. Nid wyf yn cofio ond un pennill o honi—

"'R oedd y pladuriau newydd
Y llynedd yn y berth,
A'r bechgyn yn eu rhegu
Nad oeddent ddim o werth;
Ond eleni yn eu hwylio
A'u rhipio gyda blas;
Ti weli yn eglur felly
Fod hyn yn effaith gras."

Ymledodd y diwygiad a chyrhaeddodd ardal Bancyfelin; teimlwyd dylan-wadau achubol gyda chryn nerth ar hyd a lled yr ardaloedd o amgylch. Ychwanegwyd llawer at yr eglwys—"gwŷr a gwragedd parchedig nid ychydig," a phobl ieuainc lawer. Elid â chyfarfodydd gweddi ar draws ac o amgylch y wlad, ac felly gwasgarwyd y gwreichion o bob tu a theimlid y dylanwad. Yn yr adeg hon y dechreu-odd Nathan bregethu yn rheolaidd, ynghyd a dau ŵr ieuanc eraill—plant y diwygiad—o'r enw John a William Lewis o'r Drenewydd, dau frawd naturiol; ond byr iawn fu oed y ddau; buont feirw ar gychwyn cyhoeddus eu gwasanaeth. Dywedai Nathan yn ei Farwnad iddynt:—

"Dwywaith oll pregethodd William,
Ni bu Ioan ddim yn hir,
Gadael wnaethant gario 'r cleddyf,
Aent i wisgo 'r palmwydd pur."

Bu y galar ar ol y ddau frawd gobeith-iol ac anwyl yn ddwfn ac yn hir trwy yr ardaloedd,

'Mewn dirgel ffyrdd mae 'r uchel Ior
Yn dwyn ei waith i ben."

Y mae yn fyw ar fy nghof heddyw am "*Sasiwn*" hynod iawn yn Nghaer-fyrddin tua'r amser yma. Miloedd lawer o bobl ar y maes agored, a'r gweision wedi eu "gwisgo â nerth o'r uchelder,"

"Nerthoedd y tragwyddol Ysbryd
Yn haeddiannau 'r dwyfol iawn,"

yn concro caledwch y miloedd; a'r holl dyrfa yn tori allan mewn mawl a gorfoledd, gan aros ar y maes trwy y dydd, heb gymeryd hamdden i orphwys na chael lluniaeth, a ninnau pobl y Banc yn eu plith, ac yn "gyfranogion o'r llesâd." Arosem felly ynghyd hyd ddiwedd oedfa'r hwyr, ar dywydd braf hirddydd haf, ac yna myned adref yn dorf ynghyd, dan ganu yr holl ffordd yn agos, a'r holl wlad yn adseinio cân a moliant yn nystawrwydd tawel y nos ganol haf. "Blynyddoedd deheulaw y Goruchaf" oedd y dyddiau hyny.

Nid yw yn hawdd peidio crybwyll enwau llawer o'r hen bregethwyr a arferent ymweled â Bancyfelin y dyddiau hyny. Llenwai pregethwyr y Sir y daith Sabbothol yn gyffredin, ac y mae eu henwau yn gerfiedig ar fy nghof, a'u coffadwriaeth yn anwyl genyf. Thomas Jones yr esboniwr, a Mr. Charles y dwfn feddyliwr, a Thomas Evans y tyner ddestlus—y tri yn Nghaerfyrddin. Arthur Evans, Cynwil, yn hynafgwr urddasol a'i "arafwch yn hysbys i bob dyn;" a Dafydd Evans o'r un lle a'i "Och! hynod iawn" yn disgyn oddiar ei wefus yn aml yn hyd ei bregeth; Richard Davies, Caio, a'i weinidogaeth yn disgyn fel "gwlithwlaw ar irwellt;" Thomas Jones, Llanddarog, pwyllog ei symudiadau; Timothy Davies, byr a phert; John Evans, Cilcwm, a'i eiriau sychion a chras yn disgyn fel *marbles;* Dafydd Morris o'r Hendre, a'i leddfol doddedig lef; a Thomas Jones o'r un lle; John Bowen, Llanelli, cryno a choeth; Dafydd Bowen, Llansaint, soniarus ei lais; a John Evans, Llwynffortun, o fendigedig goffadwriaeth, a'r efengyl fel pe wedi ymgorffori ynddo; William Morris, Llanstephan—Llanelli wedi hyny, a'i fys ar ochr ei drwyn; ynghyd ag amryw o bobl ieuainc a ymwthient i'r golwg yn eu plith, gan ymdyfu megys wrth eu traed. Nid oes o honynt hwy yn aros ond yr hybarch William Prytherch: y mae yntau yn agos ar ben ei daith—"yn tynu at ochr y dwr."* Y cof cyntaf sydd genyf am dano mewn Cyfarfod Misol yn Bancyfelin, yn ddyn ieuanc prydweddol, llyfn ei wyneb, mewn cadwraeth dda, a destlus ei wisg y pryd hwnw, yn ogystal a'i ymddangosiad. Yr wyf yn cofio ei destyn yn dda heddyw, a llawer o'i ffraethineb. Ei destyn oedd, "Dangosodd Efe i ti, ddyn, beth sydd dda, a pha beth a gais yr Arglwydd genyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda'th Dduw?" Da iawn yw cofio fod pobl ei Sir, lle y treuliodd ei holl oes lafurus, yn meddwl am dano gyda'r amcan o'i gofio yn sylweddol—nid mewn geiriau yn unig, ond mewn gweithred a gwirionedd, yn ei henaint a'i fethiant. Ond braidd na ellid dyweyd, "Erbyn dydd ei gladdedigaeth y cadwasoch chwi hyn." Yr oedd fy nhad hefyd y pryd hyny yn anterth ei nerth o ran oed a gallu, yn nghanolddydd ei boblogrwydd a'i ddefnyddioldeb ymhlith y brodyr. Y maent hwy oll erbyn hyn wedi myned trosodd at y mwyafrif, ac nid oes genym ond yr adgofion am danynt. Tua'r adeg yma symudodd Nathan o'r ardaloedd hyn trwy ymbriodi gyda gwraig weddw, yr hon oedd yn byw mewn ffermdŷ o'r enw Penfedw, yn agos i'r Capel newydd yn ardal Bwlchygroes, yn mhen uchaf Sir Benfro. Felly collwyd o'r ardal hon ddyn defnyddiol, ymroddgar, bywiog a diflino iawn gyda phob peth da. Bu yn ffyddlawn iawn fel pregethwr am y gweddill o'i oes, ac yn gyfaill i'r Parch. Thomas Richards ar amryw o'i deithiau ar hyd y Siroedd, yn ol arferiad dda y dyddiau hyny o gynniweirio, gan bregethu gair y deyrnas ar hyd a lled y gwledydd. Llawer a gynniweirient y pryd hwnw,

* Erbyn hyn, y mae Mr. Prytherch hefyd wedi croesi yr afon,

a gwybodaeth o'r efengyl felly ymhlith y bobl a amlheid.

Yr oedd yn y pentref a'r gymydogaeth yr amser hyny amryw o gymeriadau lled hynod a gwreiddiol, y rhai y mae yn ddorus genyf eu cofio, ac yn haeddu gair am danynt dan yr amgylchiadau presennol, ac mewn cyfarfod fel hwn. Yr oeddent yn dal cysylltiad â'r achos yn y Banc, er nad oeddent oll yn aelodau yn yr eglwys. Rhai o honynt a berthynent i enwadau eraill, ond o herwydd eu pellder oddiwrth yr eglwysi yr oeddent yn aelodau o honynt, oeddent yn arfer mwynhau pob moddion, oddieithr y seiat, gyda ni yn y Banc. Evan y gôf, neu Evan y "Fox," fel y galwem ef; gôf wrth ei gelfyddyd, ac yn byw mewn tafarndŷ a elwid y "Fox and Hounds," yn y pentref. Bedyddiwr oedd efe, ac yn aelod yn Salem, gryn bellder o'r Banc; ac ar ol bod yn Salem yn y boreu, yn enwedig y Sul pen y mis, fel y dywedent, byddai efe gyda ni am y gweddill o'r dydd. Yr oedd efe yn ŵr da a duwiol diammheuol. Cymerai ran yn ein cyfarfod gweddi fel pe buasai yn un o honom. Byddai weithiau rai o weinidogion y Bedyddwyr yn pregethu yn y "Fox," er mai tafarndŷ ydoedd. Yno y clywais I y diweddar Barch. Daniel Davies, y pregethwr dall, y tro cyntaf. Yr oedd dynion duwiol yn cadw tafarn yr amser hyny, ac yr oedd Evan y gôf yn un o honynt. Nid oedd weledigaeth mor eglur am y fasnach feddwol y dyddiau hyny ag a gafwyd yn lled fuan ar ol hyny. Shôn y Banc oedd un arall yn perthyn i'r Bedyddwyr, ac yn aelod yn Ebenezer, ac yno yr elai at oedfa'r boreu, ac yn arbenig Sul pen y mis, ond gyda ni yn yr hwyr. Un o hen weithwyr cyflog Penylan oedd efe, ac mewn parch mawr gan a chyda y teulu. Deio Danyfforest, eilwaith, oedd ŵr anwyl arall, yn perthyn i'r Annibynwyr, ac yn aelod yn Bethlehem. Yno yr elai yntau yn fynych at oedfa'r boreu, ond gyda ni am y gweddill. Dafydd Owen, y Ffactory, a'i deulu; Annibynwyr oeddent hwythau, a chyffelyb yw eu hanes. Teulu o'r Drefnewydd, yn Sir Drefaldwyn, oeddent hwy yn wreiddiol, ac yn deulu lliosog, ac yn ymgymdeithasu gyda ni yn y moddion crefyddol gyda siriol-deb mawr.

Yr oedd y gynnulleidfa yn Bancyfelin felly, yr amser hwnw, yn fath o "*Evangelical Alliance*," ac yr oeddem yn ddedwydd iawn yn trigo ynghyd, gan brofi fod hyny yn hyfryd i ni. Richard, Blaenywaun, hefyd, oedd yn gymeriad hynod, ae yn aelod ffyddlawn iawn gyda yr holl achos—bob amser yn yr Ysgol Sul, ond heb fedru darllen gair. Cerddai fel arolygwr ar hyd yr Ysgol, gan ymweled â'r dosbarthiadau i wrando y darllen, a chymerai ran yn yr ymddyddan fyddai yn myned ymlaen, ac felly efe a ddaeth i wybod llawer o'r Bibl er na fedrai ei ddarllen ei hun.

Hen gymeriad cadarn oedd yn byw ar y Banc oedd William Jenkins, y saer, heb fod yn aelod, ond yn hynod ffyddlawn ac ymlynol wrth y capel a'r achos ynddo. Felly hefyd hen gymeriad arall o'r enw Dafydd Morris y Ddwyryd, tad gwraig Jacky y Ddwyryd, y soniasom am dano o'r blaen. Nid oedd yntau yn aelod, ond yn ymlyngar iawn wrth y capel a'r bobl. Y mae eu coffa yn ddorus genyf.

Yn y flwyddyn 1836, yr wyf yn meddwl, y daeth gyntaf son am ddirwest i'r wlad yma. Yn mis Mawrth y flwyddyn hono yr oeddwn yn ymweled â Nathan yn ei gartref yn ardal y Capel newydd, y parthau uchaf o Sir Benfro. Rhyw noson, tra yr oeddwn yno, yr oedd Mr. Charles o'r Bala y pryd hwnw, Trefecca ar ol hyny, a Mr. Humphreys o'r Dyffryn, ar daith ddirwestol yn y Dehau, ac yn Llechryd y nos hono. Nid oedd hyny ymhell o gartref Nathan, a ni a aethom yno ein dau. Yr oedd y capel yn llawn iawn,

a'r ddau ŵr o'r Gogledd yn llawn arabedd a hwyl, a'r hyn y llefarent am dano yn ddysg newydd iawn i mi ac i'r holl gynnulleidfa. Dyna y tro cyntaf i mi glywed neb yn siarad ar ddirwest. Darfu i'r ddysg newydd hon a draethid ganddynt fy ennill yn llwyr, ac yr ydwyf yn ddirwestwr byth er y pryd hwnw yn Llechryd. Ymhen ychydig ar ol hyny yr oedd y ddau ŵr yn Bancyfelin, ar yr un daith ac i'r un amcan. Dyna y cyfarfod dirwestol cyntaf yn Bancyfelin, y pryd hefyd y cadarnhäwyd finnau yn y ffydd ddirwestol. Cymerodd rhai yr ardystiad a minnau yn eu plith, ond y mwyafrif mawr yn petruso; canys nid oedd neb o'r bobl o'r blaen wedi meddwl am foment fod dim drwg yn y ddiod, na dim drwg mewn yfed ychydig, na dim llawer o ddrwg mewn yfed mwy nag ychydig. Yr oedd pawb yr amser hyny yn unfryd unfarn ar y mater, a neb erioed wedi meddwl yn amgen. Y mae goleuni mwy wedi ei gael erbyn hyn, ac y mae hyny wedi newid barn a thyb y bobl. Beth yw eich hanes chwi fel eglwys a gwlad a phobl am y mater hwn, yn yr oes oleu hon, nid wyf yn gwybod; ond yr wyf yn ymhyfhau i ddadgan fy mod yn ddirwestwr pur fyth dan bob amgylchiad, ac ymhob man, o'r pryd hwnw hyd yr awr hon. Dydd Mawrth y Sulgwyn y flwyddyn hono ymadewais â'r ardal. Yr oedd y Gymanfa Ysgolion yma y Llun, a finnau ymhlith fy nghyfoedion ar y *stage* yn ffrynt yr hen gapel, yn adrodd y pwnc ac yn canu yr anthemau. Drannoeth troes fy ngwyneb tua'r dwyrain, gan gefnu ar yr ardal, ac ni bu fy ymweliadau â gwlad fy mebyd o hyny ymlaen ond ychydig a phellder rhyngddynt. Ond y mae y fangre yn gysegredig yn fy mryd. Y mae fy llygad yn awr ar y llecyn yn yr hen gapel lle y dynesais ymlaen yn grynedig, ymhlith rhai o'm cyfoedion ac amryw o'r tadau, am y tro cyntaf, i gofio "Angau y Groes;" ond pa le y maent hwy? Derbyniais yr elfenau o law y Parch. Thomas Richards, gyda llawer eraill nad ydynt i'w gweled yma mwy. Nid wyf yn gallu gweled un yma heno a gydgyfranogent â mi y pryd hwnw. Ond mae yr adgof yn peri i mi edrych ar y fan gyda chryn deimlad. Peth arall sydd yn gwneyd y lle hwn yn gysegredig i mi yw, fod ar fy nghyfer y tu allan i'r mur yma fy anwyl dad a thri brawd a chwaer yn huno yn yr Iesu, ac yn dysgwyl adgyfodiad gwell, a minnau yn ol yr argoelion sydd yn awr heb obaith, yn yr ystyr hyny, y cesglir fi at fy nhadau. Heddwch i'w llwch, a thangnefedd arnoch chwithau oll ac ar Israel Duw yma ac ymhob man ar hyd wyneb yr holl ddaear, hyd y diwedd a byth. Bydded i ni oll fyw fel y byddo genym obaith ymgyfarfod oll mewn undeb ffydd a gwlad sydd well, heb ofni ymadael mwy

"Pa le, pa fodd mae heddyw,
Y llïaws gynt a fu
Yn cydchwareu a chyd-ddysgu,
A chydymgomio 'n gu?
Mae rhai mewn bedd yn huno,
A'r lleill ar led y byd,
Nid oes un gloch a ddichon
Eu galw heddyw ynghŷd.

"Wyliedydd doeth a diwyd,
Os cwrddi ar dy hynt,
A rhai o'm cydysgolheigion
A'm chwareuyddion gynt
D'od fy ngwasanaeth atynt,
A d'wed er amled tòu
Aeth droswyf, na ddilëwyd
Eu cof oddiar fy mron."

ATHRAWIAETH Y DRINDOD.

Sylwedd Ymddyddan mewn Cyfarfod Pedwar-Misol a gynnaliwyd yn Nghapel Crosshall Street, Liverpool, Tachwedd 7, 1888.

Agorwyd y mater, "Athrawiaeth y Drindod," fel y canlyn, gan

Y PARCH. JOHN WILLIAMS, BURLEIGH ROAD SOUTH.

Cydnebydd pawb o honom fod yr athrawiaeth am y Drindod yn athrawiaeth sylfaenol ein crefydd—yn un ag sydd yn cyfranu nerth ac unoliaeth i holl wirioneddau eraill Cristionogaeth. Nid yw y Testament Newydd byth yn son am *athrawiaethau* ond *athrawiaeth*—un athrawiaeth—am fod Undod Duw yn rhoddi unoliaeth i holl wirioneddau Cristionogaeth. Y mae pob athrawiaeth yn ddibynol ar eu gilydd, fel nas gallwn edrych ar un heb edrych ar y cwbl, a'r oll yn derbyn eu cydgordiad—eu *harmony*, yn y Duw mawr ei Hun.

Y drychfeddwl am Dduw sydd wrth wraidd y syniad am grefydd, nid yn unig y wir grefydd, ond hefyd holl au-grefyddau y byd.

Y mae y drychfeddwl am y Duw hwnw yn Drindod o Bersonau yn briodol i Gristionogaeth, ac i Gristionogaeth *yn unig*. Ceir, mae'n wir, ymhlith gau-grefyddau grediniaeth mewn lïosogrwydd o dduwiau, ag sydd ar ryw olwg yn tebygu i'r wir athrawiaeth; ond wrth edrych yn fanylach, gwelir fod pellder anfesurol rhwng hyd yn nod syniadau goreu y byd Paganaidd â dysgeidiaeth y Bibl am natur Duw. Cyfeirir ein sylw yn fynych y dyddiau hyn am gyfatebiaeth at yr athrawiaeth Bersiaidd neu athrawiaeth Zoroaster, yr hwn a ddysgai fod dau allu yn llywodraethu y byd, sef yr ysbryd da a'r ysbryd drwg, a bod y naill a'r llall yn ddeilliedig oddiwrth un duw. A'r un modd at y trioedd Indiaidd, &c. Ond nid oes ond cyffelybrwydd egwan rhwng deuoliaeth (*dualism*) Zoroaster a'r trioedd hyn âg athrawiaeth y Bibl am y Drindod, o herwydd *galluoedd* ydynt ac nid *personau—abstractions* ac nid *realities*; a'r unig gasgliad y gallwn ei dynu oddiwrth ddamcaniaethau goreugwyr y byd Paganaidd ydyw, fod y wir athrawiaeth mor anfeidrol bell uwchlaw iddynt, fel y'n gorfodir ni i gredu na fuasai dyn yn ddigynnorthwy byth yn ei dyfeisio, ond ei bod wedi dyfod i grediniaeth yr Eglwys fel ffrwyth dadguddiad goruwchnaturiol.

Ceisiai Baur, Strauss, a'u canlynwyr, yn unol â'u syniadau am darddiad Cristionogaeth fel canlyniad deddf fawr dadblygiad trwy wrthwynebiad (*development by antagonism*), roddi cyfrif am athrawiaeth y Drindod fel uniad y ddau syniad Iuddewig a Phaganaidd am Dduw—rhwng undduwiaeth yr Iuddew ar un llaw, ac amldduwiaeth y Pagan ar y llaw arall. Ond mewn atebiad i hyn gellir dyweyd fod cartrefle Cristionogaeth mor bell oddiwrth Baganiaeth, fel na ddaeth i gyffyrddiad â hi o gwbl; ac yn hytrach na bod yr athrawiaeth Drindodaidd yn gynnyrch syniadau Paganaidd, fod pellder anfeidrol rhyngddynt, ac *yn wirioneddol* nad oes dim ganddynt yn gyffredin. Ar yr un pryd, nis gallwn ammheu fod eu syniadau am lïosogrwydd duwiau, tra yn ceisio dal gafael yn y drychfeddwl o "un Duw, yn fflachiadau oddiwrth y Gwir Oleuni, yr Hwn sydd yn goleuo pob dyn a'r sydd yn dyfod i'r byd;" a bod Duw, nid yn unig yn *parotoi ei ddadguddiad i'r byd mewn Iuddewaeth*, ond hefyd *yn parotoi y byd i dderbyn ei ddadguddiad mewn Paganiaeth*.

Dysgeidiaeth y Bibl ar hyn ydyw fod holl gyflawnder *un hanfod syml, ac anwahanol Duw*, gyda'i holl briodoliaethau, ymhob un o'r Personau Dwyfol; yn y Tad fel ffynnonell y Duwdod, yn y Mab trwy dragywyddol genedliad, ac yn yr Ysbryd Glan trwy dragywyddol ddeilliad. Ar y llaw arall, fod yn yr Un Hanfod anrhanadwy, *Dri Pherson*, neu Dri moddau o hanfodaeth sydd yn gwahaniaethu y naill Berson oddiwrth bob Person arall.

"Y mae y Tad yn meddu yr holl hanfod syml a chyflawn, yr un modd y mae y Mab a'r Ysbryd yn ei feddu; nid ydynt mewn unrhyw ystyr yn ei rhanu cydrhynggdynt; o herwydd y mae pob un yn yn wir Dduw. Nid Tri-dduwiaeth yw hyn, canys *Un* Duw ydynt; ac nid Sabeliaeth ydyw ychwaith, o herwydd y maent yn Bersonau gwahaniaethol; ond y mae uwchlaw dirnadaeth y meddwl dynol pa fodd y gall yr hyn sydd *Dri* fod mewn ystyr mor wirioneddol yn *Un*, neu pa fodd nad yw y Sylwedd Dwyfol yn dyfod o dan nifer." —*J. H. Newman yn ei "Nodiadau ar Athanasius."*

Y mae yr Hanfod sydd yn sail yr holl berffeithiau Dwyfol a elwir priod-

oliaethau Duw yn perthyn i bob un o'r Personau. Ar yr un pryd, y mae y Sylwedd Dwyfol yn tragywyddol hanfodi fel Tri Pherson yn meddu ar eu cynneddfau personol. Pan y dywedwn fod cynneddfau (*properties*) yn perthyn i bob un o'r Personau Dwyfol, nid ydym yn golygu wrth hyny y priodoliaethau Dwyfol. Nid yr un peth ydyw *properties* neu gynneddfau â phriodoliaethau neu berffeithiau yr Hanfod, o herwydd y mae y rhai hyn yn perthyn i bob un o'r Tri fel eu gilydd, am mai yr un hanfod sydd i bob un o'r Tri. Ond wrth gynneddfau y golygir perthynas y Personau Dwyfol â'u gilydd, o ran moddau neillduol eu bodolaeth personol (*peculiar modes of personal subsistence*) a'u trefn o weithredu, ag sydd yn gwahaniaethu y naill Berson oddiwrth bob Person arall. Cynneddf neu *property* y Tad ydyw, tadolaeth, neu bod yn anghenedledig; y Mab, mabolaeth neu bod yn genedledig; a'r Ysbryd Glân ei fod yn deilliaw o'r Tad ac o'r Mab. Nid yw y gwahaniaethau hyn yn dwyn unrhyw gysylltiad â'r Hanfod ond â'r moddau neillduol o fodolaeth personol. Nid Hanfod y Mab a genedlwyd, ond Person y Mab, a hyny nid o ddewisiad ewyllys y Tad, ond o anghenrheidrwydd natur. Nis gallwn egluro hyn, yn unig mynegu y ffaith. Y mae Esgob Pearson* yn ceisio egluro y tragywyddol genedliad a'r tragywyddol ddeilliad, a'r gwahaniaeth rhyngddynt, trwy gyfeirio at Seth ac Efa. Yr oedd y naill a'r llall o Adda mor wirioneddol a'u gilydd; ond yr oedd Seth yn dyfod o Adda trwy genedliad, ac Efa trwy ddeilliad. Effeithiai cenedliad Seth nid yn unig ar ei bersonoliaeth ond hefyd ar ei debygrwydd i Adda, ac o herwydd hyn yr oedd yn fab iddo. Yr oedd y natur yr un yn Seth ac Efa; y gwahaniaeth oedd yn y dull o gynnyrchu. Ond y mae cymaint o ddirgelwch yn perthyn i hyn, fel nad ydyw yn briodol cynnyg eglurhad arno; ac y mae dull y gweithrediad nid yn unig heb ei ddadguddio yn y Bibl, ond nid ydyw yn *ddadguddiadwy*. Y cwbl a ddywedir ydyw, mai nid cenedliad na deilliad dechreuedig na therfynedig ydyw, ond arosol a thragywyddol yn null anghenrheidiol y Duwdod o hanfodi,

* *Pearson on the Creed*, tu dal. 220.

Dyma mewn gwirionedd a achosodd y dadleuon hyny yn yr Eglwys gyntefig, ag a ysgydwodd ymherodraeth Rhufain yn y bedwaredd ganrif. Wedi i'r Eglwys benderfynu y cwestiwn am Drindod o Bersonau, yn y drydedd ganrif, yn erbyn y Sabeliaid, daeth cyfeiliornadau newydd i'r golwg wrth geisio Egluro perthynas y Tri Pherson â'u gilydd a'u dull o fodoli; ac o herwydd bod rhai yn colli golwg ar Undod niferol yr Hanfod (*numerical unity of essence*), aethant i feddwl fod y tragywyddol genedliad yr un peth a chreadigaeth, ac mewn canlyniad bod Sylwedd yr Ail a'r Trydydd Person yn is na sylwedd y Person cyntaf. Mewn gwirionedd, troai holl ddadleuon y cyfnod Niceaidd ar *un lythyren*. Tra mai arwyddair y blaid uniongred, yn cael eu harwain gan Athanasius yn y cynghor hwnw ydoedd *homo-ousios*, sef bod y Mab o'r un a'r unrhyw Sylwedd a'r Tad; arwyddair y blaid a arweinid gan y ddau Eusebius oedd *homoi-ousios*, sef bod y Mab o gyffelyb Sylwedd, ond nid o'r un a'r unrhyw Sylwedd â'r Tad. Ac er nad oedd yr athrawiaeth am yr Ysbryd Glân yn meddu lle mawr yn y dadleuon hyn, yr oedd yr athrawiaeth am gydsylweddiad yr Ysbryd yn gynnwysedig yn yr athrawiaeth am gydsylweddiad y Mab; ac wedi cadarnhau yr olaf, penderfynodd yr Eglwys yn Nghymanfa fawr Caercystenyn a Toledo yn yr Yspaen, fod yr Ysbryd yn deilliaw o'r Tad *ac o'r Mab* (*filioque*), fel y mae dadganiadau eglur a phendant yr Eglwys yn y Cynghorau hyn yn aros yn ei chyffes hyd y dydd hwn.

Y mae yn deilwng o sylw, wrth fyned heibio, fod Undodiaeth ymhob oes yn methu cyfarfod â dymuniadau dyfnaf yr enaid dynol. Fel y sylwodd Mr. Gladstone yn ei adolygiad ar y llyfr, "Robert Elsmere," bod Undodiaeth yn cael ei nodweddu gan eiddilwch a diffrwythdra, a bod y meddwl dynol yn ymwrthod â hi yn mhob oes fel cyfundrefn anmherffaith ac annigonol.

Yn fyr, fel adgrynhoad, y mae dau osodiad ynglŷn â'r wir athrawiaeth, sef

(1.) Undod Duw.

(2.) Gwahaniaethau personol *(hypostatical distinctions)*.

(1.) Undod Duw. Gwirionedd mawr

Cristionogaeth ydyw mai *un Duw sydd.* "Clyw, O Israel, yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd." Nis gellir ddirnad am y Personau Dwyfol ar wahan, ond y naill yn y llall. Pe fel arall, arweinid ni ar unwaith at Dridduwiaeth (*Tritheism*), yr hyn sydd ffurf arall ar Bantheistiaeth. Y mae tri pherson dynol yn golygu tri pherson gwahanol — ar wahan i'w gilydd; ond er fod Tri Pherson yn yr Hanfod, nid yn unig y maent yn Un mewn Sylwedd ond yn Un mewn nifer. Nis gall Sylwedd Dwyfol lïosogi na chyfranu i arall o herwydd ei symledd. "Buasai tri Sylwedd Dwyfol," ebai Dr. Schaff, "yn cyfyngu ar eu gilydd, ac yn cau allan y naill a'r llall, ac felly yn peidio bod yn annherfynol. Athrawiaeth yr Eglwys ydyw, nid bod un Sylwedd Dwyfol *a* Thri Pherson, ond un Sylwedd Dwyfol *mewn* Tri Pherson."

(2.) Gwahaniaethau personol (*hypostatical distinctions*). Er fod undod y mae gwahaniaethau. Fel y dywedai Dr. Hughes mewn cyfarfod o'r blaen ar fater cyffelyb, "nas gall y deall dynol feddwl am undod syml— undod perffaith, ond undod mewn amrywiaeth — undod mewn lïosogrwydd." Hyn oedd cyfeiliornad Arius, dal at yr undod, a cholli golwg ar berffeithrwydd yr undod fel yn cynnwys lïosogrwydd. Wrth ysgrifenu at Alexander o Alexandria, dywed mai ei amcan wrth ymosod ar Dduwdod Crist ydoedd amddiffyn yr athrawiaeth o "*unfodaeth* Duw." "Rhaid i ni dybied," ebe ef, "naill ai fod dwy fodolaeth Ddwyfol gyntefig ac anymddibynol; ac felly sefydlu *dwy*-fodaeth yn lle *un*-fodaeth; neu ynte rhaid i ni gredu yn ddios fod dechreuad i'r *Logos*, ac y bu adeg pryd nad oedd Efe." Yr oedd y duwinyddion Niceaidd, o'r ochr arall, er yn dal undod y sylwedd, yn dal yr un mor gadarn at y gwahaniaethau yn yr undod hwnw. "*I cannot think of the Unity,*" ebe Gregory Nazianzen, arweinydd y blaid uniongred yn Nghynghor Caercystenyn, "*without being irradiated by the Trinity. I cannot distinguish between the Trinity without being carried up to the Unity.*" Wrth ddal at yr undod, dyogelid y gwirionedd rhag Pantheistiaeth, ac wrth ddal at y gwahaniaethau personol, dyogelid yr athrawiaeth rhag Sabeliaeth.

Ceisiai y Tadau egluro yr athrawiaeth trwy gyfatebiaethau oddiwrth natur, megys haul, pelydryn, goleuni; ffynnon, ffrwd, llifiad, &c. "Fel nad y ffynnon ydyw y ffrwd," ebe Athanasius, "na'r ffrwd y ffynnon, ond y naill a'r llall yr un a'r unrhyw ddwfr sydd yn arllwys o'r ffynnon i'r ffrwd; felly y mae y Duwdod yn tywallt ei hun heb wahaniad o'r Tad i'r Mab." Gwelai Awstyn (yr hwn a ddaeth â'i holl alluoedd ysblenydd uwch ben y gwirionedd hwn) fod Trindodaeth yn ddeddf yn rhedeg trwy yr holl greadigaeth yn naturiol a moesol, megys gwreiddyn, canghen, ffrwyth; corff, enaid, ysbryd; gwybodaeth, teimlad, ac ewyllys; y drychfeddwl o gariad, &c. Ond er ei fod yn dangos llawer o gywreinrwydd yn hyn, eto y mae perygl wrth gymhwyso cymhariaethau at y Bod Mawr. Nid oes genym ond pwyso ar dystiolaethau eglur a phendant yr Ysgrythyr am brawfion o hono.

Yn y bedyddiad wrth yr Iorddonen, cawn y Trydydd Person yn disgyn ar y Mab ar ffurf colomen, a'r Tad yn cyhoeddi "Hwn yw fy anwyl Fab yn yr hwn y'm boddlonwyd." *Charge* yr Iesu wrth ei ddysgyblion pan yn ymadael oddiwrthynt oedd, "Ewch a dysgwch yr holl genedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân." Rhaid i "bawb anrhydeddu y Mab," fel y maent "yn anrhydeddu y Tad," a phwy bynag a becho yn erbyn yr Ysbryd Glan, dywedir "nad oes maddeuant iddo yn y byd hwn, na'r hwn a ddaw." Yn y mawl-wersi Trindodaidd, fel diweddglo cymhwys i'w Epistolau, y mae yr Apostol yn dymuno ar i "ras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân" aros gyda hwy oll.

Dywedir fod yr Almaenwr enwog Goethe, yn dyweyd wrth farw, "*O! for a sublime thought.*" Os ydym am feddwl arddunol, dyma fo yn y Drindod fendigaid—yr Un yn Dri, a'r Tri yn Un! Gwir yw ei fod yn ddirgelwch, ond yn ei ddirgelwch y mae ei resymoldeb; o herwydd er ei fod uwchlaw rheswm, nid ydyw yn groes i reswm. Eto gwyliwn, ar yr un

pryd, rhag ceisio edrych arno o safle tragywyddoldeb, ond esgyn ar hyd ysgol Jacob sydd yn codi o Fethlehem Ephratah—ar hyd grisiau ysgol dadguddiad mewn amser; edrych, nid ar Drindod yr hanfod cuddiedig (*Essential Trinity*), ond ar Drindod mewn dadguddiad (*Economic Trinity*), ac esgyn mor uchel ag y medrwn i diriogaeth y goleuni. Os edrychwn ar y gwirionedd hwn o safle tragywyddoldeb, a cheisio amgyffred yr hanfod cuddiedig, yr ydym yn anturio i sanctceiddiolaf teml y gwirionedd, lle nad oes neb a all edrych ar danbeidrwydd y goleuni, o herwydd y mae llais yr Anfeidrol yn dyfod oddiyno, "Ni'm gwêl dyn a byw." Ei gartref Ef ydyw y goleuni. Yn iaith arddunol Plato am y Bôd Anfeidrol: "Gwirionedd yw ei gorff, a *goleuni yw ei gysgod*." Y mae goleuni yn gysgod iddo Ef! Neu yn iaith mwy arddunol yr ysgrifenwyr ysbrydoledig, "Y mae yn gwisgo goleuni fel dilledyn;" "Yr hwn sydd yn trigo yn y goleuni ni ellir dyfod ato, yr hwn nis gwelodd un dyn, ac nis dichon ei weled." Ac os ceisiwn edrych arno tu allan i Grist, tarewir ni â dallineb gan danbeidrwydd ac *ysblander* ei oleuni. Ni a awn yn ddall, ys dywed Milton:

"Blind with excessive light."

Ond mewn *dadguddiad*, yn ngoleuni tynerach Bethlehem a Golgotha, gallwn edrych ar yr Hwn sydd, tu allan i Grist, yn dân ysol, heb ein dyfetha—edrych ar yr Hwn sydd "yn ddelw y Duw anweledig" yn hysbysu y Tad; a chlywed tragywyddol Air Duw, llais yr Hwn, ar y dechreu, a dorodd ar y dystawrwydd tragywyddol wrth alw y greadigaeth i fod â'r gair "Bydded," yn dywedyd ar Galfaria y gair "Gorphenwyd," wrth orphen iachawdwriaeth dyn; a gweled y dwylaw hyny, yn y dechreu, "a daenodd y gogledd ar y gwagle, ac a grogodd y ddaear ar ddiddym," yn hoeliedig ar y pren, ac felly edrych ar fryn y dyoddefaint fel canolbwynt pob dadguddiad o eiddo Duw i ddyn, fel y man y cyflawnwyd bwriadau tragywyddol y Tri yn Un Jehofah, ac yr amlygwyd i fyd colledig mai HANFOD Y DRINDOD FENDIGAID YW CARIAD!

Yr ydwyf yn hyderu mai ffrwyth yr ymddyddan heno fydd ein dwyn i well adnabyddiaeth o Dduw, o herwydd er nas gallwn ei *amgyffred*, gallwn ei *adnabod*. Canys "hyn yw y bywyd tragywyddol, iddynt dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist."

Dylynwyd Mr. Williams gan

Y PARCH. O. THOMAS, D.D.

Yr wyf fi (meddai) yn cyfodi dan anfantais fawr i ddywedyd dim ar y testyn hwn, gan nad wyf ond newydd glywed pa beth oedd i fod genym yma dan sylw. Pa fodd bynag nid yw o lawer o wahaniaeth, pan y byddo un heb ddim i'w ddywedyd, pa un ai yn fuan neu yn ddiweddarach y gelwir arno i siarad. Yr oeddwn I yn teimlo, morbell ag yr oeddwn yn gallu clywed, boddhâd mawr wrth wrando ar Mr. Williams, ac yn barnu fod yr hyn a ddywedwyd ganddo yn ffrwyth meddwl ac ymchwiliad, ac yn arwyddo medrusrwydd mawr i osod allan y meddwl hwnw, ar gwestiwn mor ddyrys, ac anhawdd siarad arno heb "dywyllu cynghor âg ymadroddion heb wybodaeth." Mae yn sicr fod y mater, er nad yw yn cael ei ddeffinio yn fanwl yn yr Ysgrythyrau sanctaidd, eto yn cael ei ddysgu yn bendant ynddynt. A rhaid i ni gofio mai athrawiaeth dadguddiad yn hollol ydyw. Y mae yn amlwg, yn y Bibl, trâ mai Un Duw sydd, eto fod y Duw hwnw, mewn rhyw ystyr, yn bod yn Dri. Y mae awgrymiadau o hynyna yn yr Hen Destament, yn enwedig erbyn edrych arnynt yn ngoleuni y Testament Newydd; ond y mae y gwirionedd yn cael ei ddysgu yn eglur yn y Newydd; ac y mae yr Un Duw, anfeidrol a thragywyddol, yn cael ei osod allan yno yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân. Nid yw y Bibl yn dysgu, ac nid ydym ninnau yn myned i geisio esbonio, natur y lliosogrwydd hwn yn yr Hanfod Dwyfol; ond y mae yn rhaid ei fod yn rhywbeth perffaith gyddweddol â'r gwirionedd mawr sylfaenol mai "Un Duw sydd." Nid yn yr un ystyr, yr ydym i gofio yn wastadol, y maent yn Un ac yn Dri. Y mae y rhai sydd yn gwrthwynebu yr athrawiaeth hon, megys Priestley ac eraill, yn haeru ei fod yn hollol groes i bob rheswm fod tri yn un ac un yn dri, ac felly nas gall fod yn wirionedd. Ond

nid yn yr un ystyr y maent felly. Un o ran *Hanfod*, er eu bod ryw fodd yn Dri gwahaniaethol. Pe byddem yn dysgu eu bod yn Un ac yn Dri yn yr un ystyr, fe fyddai hyny ar unwaith ac yn amlwg yn wrthddywediad. Ond wrth ddywedyd fod y Bôd Mawr mewn un ystyr yn Un, ac mewn ystyr arall yn Dri, nid oes dim yn hyny yn *groes* i reswm; er y cydnabyddwn ei fod yn ddirgelwch *uwchlaw* rheswm, ac nas gallwn ni mo'i esbonio. Ond a ydyw y Duw sydd yn ei adnabod ei Hunan wedi rhoddi dadguddiad o hono ei Hunan i ni? Yr ydym ni yn hòni ei fod yn yr Ysgrythyrau sanctaidd. Ac felly y pwnc i ni ydyw, Beth a ddywed yr Ysgrythyr? Pa fodd y mae yn ysgrifenedig? Pa fodd y darlleni? Yn awr un o'r gwirioneddau amlycaf yn nysgeidiaeth yr Ysgrythyrau ydyw, mai Un Duw sydd. Dyma y gwirioneedd mawr a ddysgid gan Iuddewiaeth, a roddai ragoriaeth iddi ar bob crefydd arall oedd yn y byd ar y pryd. Y mae yr hanesydd Rhufeinig Tacitus yn rhywle yn sylwi gyda syndod pa fodd yr oedd cenedl mor isel ac anwybodus a'r Iuddewon wedi cadw at y syniad mai un Duw sydd, pryd yr oedd yr holl fyd oddieithr hwynt wedi myned ar ol llawer o dduwiau. Ond dyna sydd yn esbonio y dirgelwch: yr oedd y Duw mawr wedi rhoddi dadguddiad neillduol o hóno ei Hunan iddynt hwy. Dyna oedd un o ddybenion mawrion eu neillduad fel cenedl o blith holl genedloedd y ddaear—er mwyn cadw y gwirionedd hwn yn y byd a'i ddysgu ganddynt i'r byd o'u hamgylch. "Clyw, O Israel, yr Arglwydd ein Duw ni sydd *un* Arglwydd;" "Nid oes Duw ond myfi;" "Duwiau y cenedloedd ydynt oferedd, ond yr Arglwydd a wnaeth y nefoedd;" "duwiau newydd diweddar." Fel yna yn ddïeithriad y mae y Bibl yn llefaru am dduwiau y cenedloedd; ond am y gwir Dduw—y mae "o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb," a phob perffeithrwydd yn hanfodol ynddo, ac yn eiddo hollol iddo, ac nid oes neb i'w gystadlu âg ef. "O'm blaen nid oedd Duw wedi ei ffurfio, ac ni bydd ar fy ol." Y mae yr Hen Destament yn dysgu yn bendant fod iddo Berffeithiau nas gallant fod ond mewn *un* Duw—un Hanfod. Eto yn yr Hen Destament, erbyn i ni edrych arno yn ngoleuni y Newydd, yr ydym yn cael rhai awgrymiadau fod lliosogrwydd, mewn rhyw ystyr, yn perthyn iddo. Yr wyf yn cofio fy mod yn gwrando Dr. McNeile, yn pregethu yn Eglwys St. Jude's, ryw Sul y Drindod, er ys dros hanner can' mlynedd bellach. Ei destyn oedd Psalm lxviii. 20: "Ein Duw ni sydd Dduw iachawdwriaeth; ac i'r Arglwydd Dduw y perthyn diangfäau rhag marwolaeth." Yr wyf yn cofio ei fod yn gwneyd y sylw fod yn y testyn *undod* a *lliosogrwydd*, gyda golwg ar yr Anfeidrol; fod y gair am Dduw yn nechre y testun yn yr unigol, ac yn y diwedd yn y lliosog; a dyna oedd y bregeth, *undod* a *lliosogrwydd* (*unity and plurality*) yn y Duw mawr. Y mae y Testament Newydd mor bendant a'r Hen yn dysgu Undod y Duwdod. "Un Duw sydd." "I ni nid oes ond un Duw, y Tad." Ac nid oes neb sydd yn addef bodolaeth Duw yn gwadu Duwdod y Tad. Ond y mae y Bibl yn dysgu mor bendant, os nad mor eglur, fod y Mab hefyd yn Dduw. Y mae Enwau Dwyfol yn cael eu rhoddi arno; Perffeithiau Dwyfol yn cael eu priodoli iddo; Gweithredoedd Dwyfol yn cael eu cyflawni ganddo; ac Addoliad Dwyfol yn cael ei dalu iddo, ac yntau yn ei dderbyn: y mae genym bob prawf fel yna fod y Mab yn Dduw.

Yr un modd am yr Ysbryd Glân. Y mae dywedyd celwydd wrtho yn ddywedyd celwydd "nid wrth ddynion, ond wrth Dduw;" y mae Beddydd i'w weinyddu yn ei enw, fel yn enw y Tad a'r Mab; ac y mae pechu yn ei erbyn yn bechod anfaddeuol, yn y byd hwn a'r hwn a ddaw.

Fel hyn o hyd y mae y Bibl yn ein dysgu fod Duw yn Un, ac eto yn Dri. Ac y mae o bwys i ni sylwi mai nid gwahanol enwau sydd yma, ond y mae yma ryw wahaniaeth yn y dull neu y modd y maent yn bod yn yr Hanfod Dwyfol. Y mae y naill yn anfon y llall; y naill yn gogoneddu y llall; y naill yn ymhyfrydu yn y llall; teimladau a gweithrediadau nad ydym ni yn gwybod am danynt ond mewn cysylltiad â phersonau. Nid wyf fi yn gwybod pa fodd i gysoni; ond er nad wyf yn dirnad y dirgelwch, yr

wyf yn derbyn y ffaith, yn gymaint a'i bod yn cael ei dysgu i mi gan dystiolaeth Ddwyfol. Ac os gwrthodwch Athrawiaeth y Drindod, yr ydych ar ben y ffordd i wrthod pob peth sydd yn hanfodol i'r efengyl. Dyna oedd dechreuad ymadawiad mawr Undodiaeth ein dyddiau ni oddiwrth y ffydd: dechreu trwy wadu Duwdod Crist, a gwadu Personoliaeth a Duwdod yr Ysbryd Glân; ac yn raddol syrthio i wadu yr Iawn, Cyfiawnhad trwy Ffydd, a cholli mewn gwirionedd yr holl wirioneddau ag sydd yn cyfansoddi hanfod yr efengyl. Fel y mae o bwys, os na allwn amgyffred y dirgelwch, ein bod yn derbyn y dystiolaeth Ddwyfol. Os edrychwn ar y Bibl fel dadguddiad Dwyfol, fel peth wedi ei roddi i ni gan y Duw mawr, ein rheswm uchaf ni ydyw ymostwng i'r dadguddiad hyd yn nod pan yn methu ei ddeall. Felly gydag athrawiaeth y Drindod. A ydyw hi yn ffaith yn y Bibl? Nid deall y *modd*. Nid wyf yn deall cysylltiad fy meddwl a'm corff. Sut yr wyf yn codi fy llaw pan y mynaf? Nid wyf yn deall y *modd*, ond yr wyf yn gwybod y *fact*. Ac nid yw fy mod heb wybod y modd yn attal i mi gredu y ffaith. Ein dyledswydd ni fel gwir athronwyr, gyda golwg ar Athrawiaeth y Drindod, ydyw derbyn y ffaith, er na fedrwn ni mo'i hesbonio—ei derbyn ar dystiolaeth y Duw mawr ei Hun, gan gofio ei fod Ef yn ei adnabod ei Hunan yn berffaith. Mi a glywais Mr. William Morris, Cilgeran, yn adrodd am Sasiwn—a Sasiwn ryfedd—yn Sir Fynwy, Casnewydd, os wyf yn cofio yn iawn. Yr oedd Mr. Elias yno. Mr. Charles, Caerfyrddin, oedd yn y gadair. Y pwnc oedd "Hollwybodaeth Duw." Yr oedd Mr. Elias yn y cyfarfod, ac fe alwyd arno i siarad yn un o'r rhai cyntaf. Ymddyddanol yn gyffredin fyddai yr ymdriniaeth y pryd hwnw, ond fe ofynwyd i Mr. Elias gymeryd ei amser, am mai wrtho ef y dysgwylid yn benaf. Ac fe wnaeth yntau yn alluog, fel pe buasai wedi rhagddarpar. Fe ddechreuodd y cyfarfod yn hynod, ac fe alwyd ar eraill ar ol Mr. Elias, ond nid oedd neb yn gallu dyweyd odid ddim ond cyfeirio yn unig at y pethau oeddent wedi eu dywedyd eisoes; ac yr oedd y cyfarfod a ddechreuasai mor anghyffredin yn debyg o ddybenu yn hytrach yn drymaidd. O'r diwedd fe gododd Mr. Charles ei hun—yr oedd Mr. Ebenezer Richard, yr Ysgrifenydd, wrth y bwrdd—ac fel y byddai Mr. Charles yn arfer nofio mewn dwfr dwfn, wedi cyfeirio at y pethau a ddywedasid, fe ddywedodd, "Ond hwyrach y gallem gyfeirio at un gwrthddrych arall i'r wybodaeth Ddwyfol, na wnaed un crybwylliad eto am dano, a'n galluoga i ffurfio rhyw ddirnadaeth ychwanegol am Hollwybodaeth ein Creawdwr." "Ac yna," meddai Mr. Morris, "fe aeth rhagddo i draethu am wybodaeth yr Anfeidrol am dano ei Hunan, yn nirgelwch ei hanfod, yn ysbrydolrwydd ei natur, yn ngogoniant ei briodoliaethau, yn eangder a manylrwydd a doethineb ei fwriadau, &c., nes yr oedd pawb wedi eu meddiannu â syndod rhyfedd; Mr. Richard wedi rhoddi heibio ysgrifenu, ac â'r dagrau mawrion dros ei ruddiau yn edrych ar Mr Charles; Mr. Elias wedi codi ar ei draed, ac yn edrych yn ddwys ddifrifol. Pan y gwelodd Mr. Charles Mr. Elias ar ei draed, fe dybiodd fod ganddo rywbeth i'w ddywedyd, ac fe'i cymhellodd i ddyweyd gair ymhellach cyn terfynu. "Dyweyd gair, Mr. Charles," meddai yntau, "fe fyddai yn bechod ynof fi ryfygu dywedyd yr un hanner gair ar ol y pethau rhyfedd a glywais i yrwan. Os caf fi, mi geisiaf fyned am fynyd i weddi." Ac felly y bu.

Y mae Neander yn dyweyd yn rhywle fod dedwyddwch y Duwdod yn codi o'r Drindod—*natur gymdeithasol* y Duw mawr, a'r cymundeb sanctaidd rhyngddynt â'u gilydd. "Y gogoniant oedd i mi gyda thi cyn bod y byd." "Yna yr oeddwn i gydag ef, megys un wedi ei feithrin gydag ef; yr oeddwn yn hyfrydwch iddo beunydd; yn ymlawenhau ger ei fron ef bob amser." Ac fe fydd dedwyddwch y nefoedd i'r saint mewn rhyw gymundeb rhyfedd â Dirgelwch Un yn Dri. Ond "dwfr i'w nofio heb fyn'd trwyddo" ydyw. Eithr fe fydd yn y nefoedd ddigon o amser—mil o flynyddoedd a miliynau mwy, at fater fel hyn, i dreiddio i ryfeddodau Hanfod yr Anfeidrol, a chyda chalon yn ymddifyru byth yn yr amlygiadau o hono.

Yna galwyd ar

Y PARCH. J. HUGHES, D.D.

Yr oedd yn dda genyf finnau (meddai) glywed yr agoriad, a chanfod fod Mr. Williams wedi darllen mor helaeth, a meddwl mor ddwys ar fater mor fawr a hwn—ar Athrawiaeth, fel yr awgrymwyd eisoes, sydd yn siampl o'r cynnydd sydd wedi bod yn nadblygiad y Dadguddiad yn yr Ysgrythyrau, a'r ychwanegiad goleuni sydd yn y Testament Newydd arni ragor yr hyn a geir yn yr Hen. Mae yn amlwg nad yw yn anhawdd deall paham nad yw Athrawiaeth y Drindod wedi ei dadguddio mor oleu yn yr Hen Destament ag y mae yn y Newydd. Fel y dywedwyd, y dadguddiad mawr i Israel—y gwirionedd oedd yn rhoi bôd i'r genedl fel cenedl sanctaidd, oedd yr Athrawiaeth am Undod Duw: "Clyw, O Israel, yr Arglwydd ein Duw ni sydd *un* Arglwydd." A gwaith mawr yr oesoedd, yn ngwyneb eilunaddoliaeth y cenedloedd, ydoedd gwreiddio cenedl Israel yn yr Athrawiaeth mai *Un* yw Duw. Wel, gan mai dyna oedd yn fwyaf anghenrheidiol—gwreiddio y genedl yn yr Athrawiaeth am Undod Duw, mae yn amlwg na fuasai yn un fantais i wneyd Athrawiaeth y Drindod yn eglur, ond yn anfantais. Mantais tuag at sefydlu Israel yn yr Athrawiaeth am Undod Duw oedd cadw y gwirionedd arall i fesur o'r golwg dan yr Hen Destament; ac eto nid oedd yn gwbl guddiedig. Fe *awgrymir* hyn yn hanes y crëad, ac mewn lliaws o ymadroddion eraill. Ac eto nid ydyw mor eglur fel y gellir dyweyd mai *Person* a olygir wrth "Ddoethineb" a "Gair Duw." Pan sonir yn y Diarebion am "Ddoethineb," canfyddwn o safle y Testament Newydd fod y cyfeiriad at y Person sydd yn "Allu Duw a Doethineb Duw." Ond a oedd yr Eglwys y pryd hwnw yn ei ddeall felly? Mae yn ymddangos yn fwy tebyg i *bersonification* o egwyddor neu briodoledd nag yn ddadguddiad o Berson. Dyna y gair arall am Ysbryd Duw, "Na chymer dy Ysbryd Sanctaidd oddiwrthyf;" yr ydym yn ngoleuni y Testament Newydd yn deall mai Person yr Ysbryd Glân ydyw yr Ysbryd y lleferir am dano: ond y mae yn ammheus a oedd Eglwys yr Hen Destament yn deall felly. Yr oedd yr Athrawiaeth yn anadnabyddus iddynt hwy: fe allai eu bod yn meddwl am ryw rinwedd neu ddylanwad oddiwrth Dduw—rhyw allu ag oedd wedi effeithio yn dda ar eu hysbrydoedd, yn debyg i fel y sonir am "law yr Arglwydd" yn gorphwys ar y prophwydi. Pa fodd bynag, yn y Testament Newydd fe welir fod "Doethineb Duw," a "Gair Duw," nid yn rhinwedd neu briodoledd, ond yr hyn yr ydym yn ei alw yn *Berson*. Ioan, mae yn debyg, ddygodd hyn gyntaf i'r amlwg. "Gair Duw" gan Philo,—"Gair Duw" yn y ddysgeidiaeth olaf anysbrydoledig—nid oedd yn Berson ond yn egwyddor neu allu Dwyfol. Ond yn Ioan y mae Gair Duw yn cael ei ddwyn ger bron fel Person: "*Hwn*." "Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair. *Hwn* oedd yn y dechreuad gyda Duw." Ac wrth fyned at ddysgeidiaeth yr Apostol Paul cawn ymadroddion sydd yn awgrymu lle y Personau Dwyfol, "Un Duw y Tad, *o'r* Hwn y mae pob peth, a ninnau ynddo Ef; ac Un Arglwydd Iesu Grist, *trwy* yr Hwn y mae pob peth, a ninnau trwyddo Ef." Y mae y gwirionedd, fel hyn, yn nadblygiad y Dadguddiad, yn dyfod o oes i oes yn fwy i'r golwg.

Mae yn debyg mai dyna sydd yn anhawdd ei argraffu ar feddwl Cristion, fod yr Athrawiaeth yma yn meddu ar nodwedd ymarferol. 'Pa ddaioni,' —er esiampl, gall llawer ofyn,—'gyfyd oddiar gredu y golygiad uniongred ar y Drindod?' Tybiwch fod un yn pregethu y Sabboth nesaf ar yr un llinell â'r ymddyddan yma heno, fe fyddai yn orchest fawr rhoi cyfeiriad ymarferol i'r bregeth, a chredaf y byddai lliaws yn ymadael o'r addoliad gan ofyn, 'I ba beth yr oedd y bregeth yna da?' a'r canlyniad ydyw mai anfynych y bydd neb o honom yn ymyryd â'r mater. Pregethu ar yr Ysgol Sul, a phethau cyffelyb; dyna ystyrir yn ymarferol: ond *dogma* ydyw y Drindod. 'Yr ydych am ein harwain i'r hen ddadl am yr *homoousion* a'r *homoiousion*. Pa werth sydd mewn peth fel yna mewn oes mor *practical?*' Nid oes neb yma yn meddwl fel yna: yr ydych chwi yn llawer rhy ddoeth i goleddu y fath syniad. Ond byddai yn hawdd dangos am Athrawiaeth y

Drindod, mai hi ydyw yr Athrawiaeth fwyaf ymarferol yn ein holl grefydd. Dyma y bwysicaf. Hi ydyw sylfaen yr holl wirionedd; ac nid oes dim mwy pwysig ac ymarferol mewn adeiladu na'r sylfaen. Yr un modd nid all dim fod yn fwy gwerthfawr a phwysig mewn *system* na'r gwirionedd a gyfrifir yn sylfaen iddi. Yn awr, hon yw sylfaen Cristionogaeth. Sylfaen Crefydd Natur ydyw y Bôd o Dduw. Sylfaen Crefydd yr Efengyl ydyw Athrawiaeth y Drindod. Ac fel yr oedd Dr. Thomas yn sylwi, hyn a ddengys a oes yn nghredo dyn fwy na *Theism*—fwy na Chrefydd Naturiol;—a ydyw y dyn yn dal y Drindod ai peidio? Dyna yr Undodiaid: nid yw eu crefydd hwy yn ddim mwy na Chrefydd Naturiol. Y mae Athrawiaeth arbenig yr Efengyl yn cael ei hesbonio i ffwrdd ganddynt. Paham? Y maent wedi colli y sylfaen. Athrawiaeth y Drindod ydyw sylfaen Cristionogaeth. Chwi a welwch hyny yn nrych dau sylw. Meddyliwch am ymddyddan y Gwaredwr â'r dysgyblion yn yr oruwch-ystafell fel y mae yn cael ei gofnodi yn y pennodau olaf yn Efengyl Ioan. Yn y pennodau hyny y mae y Drindod yn cael ei gydwau â'r holl iachawdwriaeth: yr holl iachawdwriaeth megys yn deillio o'r berthynas—os goddefwch i mi ddyweyd gair Saesoneg—o'r *interaction*—sydd rhwng y Personau Dwyfol â'u gilydd: y Tad yn caru y Mab, y Mab yn caru y Tad; y Tad yn anfon y Mab, y Tad a'r Mab yn anfon yr Ysbryd; y Mab yn gweddïo ar y Tad, y Tad yn rhoddi yr Ysbryd mewn atebiad i weddi y Mab; y Tad yn gogoneddu y Mab, y Mab yn gogoneddu y Tad; a'r Ysbryd yn gogoneddu y Tad yn y Mab. *Result*—ffrwyth y pethau hyn oll, "anfoniad" un Person gan Berson arall, "gogoneddiad" un Person gan Berson arall—ffrwyth y pethau hyn oll ydyw achub pechaduriaid, ac o honynt hwy y cyfyd trefn ein hiachawdwriaeth. Ac nid all y rhai sydd yn gwadu Athrawiaeth y Drindod roddi esboniad teg a gonest ar eiriau mawrion y Bibl. Pa fodd, er engraifft, yr esbonir geiriau fel hyn, "Megys yr etholodd Efe ni ynddo Ef cyn seiliad y byd?" Pa esboniad fedr Undodiad roi ar y geiriau "Yn yr Hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed Ef, sef maddeuant pechodau, yn ol cyfoeth ei ras Ef?" Pa oleuni deifl Undodiaeth ar y Pryniad yn a thrwy waed Crist? Drachefn, "Pwy yw yr hwn sydd yn damnio? . . . . Duw yw yr Hwn sydd yn cyfiawnhâu." A all yr Athrawiaeth am Gyfammod y Prynedigaeth, Cyfiawnhâd trwy fydd, yr Iawn a'r Eiriolaeth, ymddangos gyda rhyw fesur o gysondeb â rhediad dadgudd iad y Bibl, pan yn cael eu hesbonio yn ngoleuni Undodiaeth? Yr wyf yn gwadu hyny: *nis gall.* Felly, mae athrawiaethau mawrion yr Efengyl yn cael eu colli trwy golli Athrawiaeth y Drindod, o herwydd Athrawiaeth y Drindod ydyw sylfaen Crefydd yr Efengyl. A phrawf o hyn ydyw hanes Undodiaeth: credo ydyw sydd yn cyflym deithio ar y goriwaered.

Heblaw hyny, y mae athrawiaeth y Drindod yn cael y lle mwyaf yn mhrofiad y Cristion, Meddyliwch am ddyn yn cael ei wysio gan argyhoeddiad i wydd Duw, y Barnwr Cyfiawn; y mae arno eisieu Cyfryngwr. Ond nid yw y cyfryngwr hwnw yn werth ei gael os nad yw yn abl i "osod ei law" ar y ddwyblaid—os nad yw yn ogyfuwch â Duw, ac yn frawd i ddyn. Fel hyn y mae anghen ysbryd y Cristion yn gofyn am Athrawiaeth y Drindod. Y mae yn gweddïo ar y Tad, trwy Iesu Grist, am gynnorthwy yr Ysbryd Glân. Nid all neb fod yn wrthddrych ei weddi ond Duw; neb yn gyfrwng i fyned at Dduw trwyddo ond Person Dwyfol; nis gall neb ei arwain a'i sancteiddio ond Person Dwyfol. Felly y mae Athrawiaeth y Drindod yn gyson, ac yn cydweddu, â theimladau dyfnaf plant Duw. Ond, fel y dywedwyd, nid allwn mo'i hesbonio. Mae rhai o'r Undodiaid yn dwyn yn wrthddadl yn ei herbyn, 'Yr ydych chwi yr *Orthodox*,—y Cristionogion Efengylaidd, yn gwneyd y Drindod yn Athrawiaeth sylfaenol; ond pa reswm ydyw i chwi wneyd *dirgelwch* yn athrawiaeth sylfaenol? Fe ddylai yr Athrawiaeth sylfaenol fod yn eglur, ac anmhosibl i'w gwrthddywedyd. Dyna yr Athrawiaeth am Dduw, mae hono yn Athrawiaeth eglur: ond nid felly y Drindod, eto yr ydych chwi yn ei gwneyd yn Athrawiaeth sylfaenol.' Y mae hyna yn gamymresymiad. Nid oes dim dirgelwch yn y *ffaith* fod y Duwdod yn Drin-

dod: yn y *modd* y mae y dirgelwch. Nid yw yr Ysgrythyrau—ffynnonell a sail ein ffydd—yn dysgu un gwirionedd yn fwy eglur na'r gwirionedd fod y Duw sydd Un mewn un ystyr, yn Dri mewn ystyr arall. Y mae y dadguddiad o'r Drindod fel ffaith mor eglur a phendant a dim yn y Bibl. Y mae y Bibl, fel y dywedwyd, yn dysgu yn eglur fod y Duw oedd yn danfon yn Dduw, fod y Crist a ddanfonwyd yn Berson Dwyfol, fod yr Ysbryd a anfonir gan y ddau Berson arall yn Ddwyfol. Fel yna y mae yr Athrawiaeth yn eglur fel *fact*, ond am athroniaeth yr Athrawiaeth—am y *modd* y mae y Tri Tragywyddol yn hanfodi yn eu perthynas â'u gilydd, hyny sydd ddirgelwch; nid yr Athrawiaeth ei hun.

Yr wyf yn cofio i mi weled sylw yn rhywle—yr wyf yn meddwl mai yn Dorner—oedd yn rhoi tawelwch i'm meddwl I. Fe all y gair Person gamarwain llawer. Mae y gair Person unwaith yn y Testament newydd, "gwir lun ei Berson Ef." Yr un pryd, y mae y duwinyddion goreu yn ysgoi y gair hyd y gallont. Y mae rhai o honoch wedi sylwi eu bod yn arfer yr ymadroddion '*The Divine Hypostases, the Divine Subsistences*,' yn hytrach na'r gair Person; a hyny o herwydd y peth a grybwyllwyd gan Mr. Williams. Mae y gair 'person' yr un peth ag *individual*, megys "Pedr ac Iago ac Ioan:" pob un ar wahan i'r ddau eraill. Wel, o ddeall y gair 'person' yn gwbl fel yr ydych chwi yn ei ddefnyddio tuag at y naill a'r llall, yr wyf yn meddwl y gallai arwain i Dridduwiaeth. Hyd yn nod y gair gwreiddiol, *hypostasis*,—nis gall un o honom ddyweyd yn fanwl beth ydyw ei wir feddwl—hyder, sail neu sylwedd, dyna y geiriau a roddir yn y Testament Newydd fel cyfieithiad o hono. A phrawf i chwi fel yr oedd y gair yn gamarweiniol ydyw y ffaith y bu *hypostasis* am dymmor yn yr Eglwys foreuol yn arwyddo *hanfod*. Wrth ddarllen hanes yr Athrawiaeth, chwi a gewch mai un *hypostasis* oedd Duw—gan olygu Un Sylwedd—Un Hanfod. Yn fuan, yn amser y ddadl ar y mater hwn, fe sefydlwyd dau air. Fe ddaeth y gair *hypostases* i arwyddo y gwahaniaethau, tra y cadwyd y gair arall, cyfystyr âg undod bôd, neu sylwedd. Amcan y sylwadau hyn yw hyn, y gall defnyddio y gair 'Person'—nad oes genym ddim sail uniongyrchol yn y Bibl i'w ddefnyddio—arwain i beth dyryswch, o herwydd fod tri *pherson*, yn ol ein dull ni o feddwl, yn arwyddo tri *individual*. Nid, fel y sylwodd Mr. Williams—nid tri *individual* ydyw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, ond Tri o *wahaniaethau* Hanfodol a Thragywyddol yn y Drindod. Mae yn wir nad oes genym yn ein hiaith yr un gair gwell i osod allan y gwahaniaeth na'r gair 'Person:' eto dylem o hyd gofio fod geiriau y ddaear yn syrthio yn annhraethol fyr o uchder y gwirionedd Dwyfol. Ar un llaw, y mae y geiriau a nodasom yn profi yn eglur fod yr enwau Tad, Mab, ac Ysbryd yn dynodi gwahaniaethau hanfodol a thragywyddol yn y Duwdod—gwahaniaethau anghymharol ddyfnach na gwahaniaeth mewn cymeriad neu amlygiad; ac eto, os arferwn y gair 'Person' i ddynodi y gwahaniaeth hwn, dylem gofio nad yw ei ystyr yn cyfateb ymhob peth i'r ystyr sydd iddo yn ei berthynas â dyn. Heb ystyried hyn byddwn mewn perygl o golli Undod y Sylwedd yn ngwahaniaeth y Personau. Dirgelwch mawr yw hyn; ac y mae dull cydhanfodiad y Tri i aros yn ddirgelwch byth bythoedd. Ein lle ni ydyw credu, rhyfeddu, ac addoli.

J. G., *Ysg.*

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

NODIAD.—Ar gais taer lliaws o ddarllenwyr a charedigion y DRYSORFA, yr ydys wedi penderfynu ysgrifenu o hyn allan *Nodiadau Esboniadol* ar faes llafur y

DOSBARTH CANOL

yn gystal a'r DOSBARTH HYNAF. Felly dechreuwn yn y Rhifyn cyntaf hwn o'r flwyddyn gyda

Y GWYRTHIAU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill laf*, 1888, *i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

Agor llygaid y dall.

SABBOTH—IONAWR 13EG—*(Y Rhan gyntaf o'r Wers am* AWST 26AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 10).

ADN. 24: *Dyro y gogoniant i Dduw.* Nid y meddwl yw 'Dyro y diolch i Dduw am dy iachâd;' nid oeddynt hwy yn addef fod y wyrth wedi ei chyflawni. Ffurf ddifrifol o dynghedu un i ddyweyd y gwir oedd y geiriau hyn, gan fod dyweyd y gwir yn anrhydeddu Duw. Neu—'Na cheisia gelu yr hyn a wyddom ni, gan ei fod wedi ei hysbysu i ni gan Dduw.' Ceisient trwy hyn wasgu allan o hono ryw addefiad niweidiol i'r Iesu, y cyfryw ag yr oedd efe hyd yma wedi gwrthod ei wneyd. *Nyni a wyddom mai pechadur yw y dyn hwn.* Cyferbyniad tarawiadol i viii. 46. Ystyr y gair "pechadur" yma yw—un anghymeradwy gan Dduw, ac felly un na fuasai Duw yn ei gynnysgaethu â galluoedd goruwchnaturiol. *Nyni* yn bwysleisiol. Ceisient ddychrynu y dyn a gwyro ei farn, trwy hòniad o'u hawdurdod swyddol.

ADN. 25: *Ai pechadur yw, nis gwn i.* Yn ofer y ceisient ei droi. Nid yw hyn yn cynnwys nad oedd gan y dyn ei farn am yr hwn a'i hiachaodd. Tyr allan mewn cyffes wresog ychydig ymlaen, adn. 31—33. Ond saif ar dir cyfreithlawn un yn rhoddi tystiolaeth. Y mae yn gall a gochelgar, yn ymattal hyd yma rhag dyweyd ond yr hyn oedd eisieu. Golyga ei eiriau—'Nid oes genych hawl i ofyn fy marn I ar y cwestiwn yna. Dyfod yma yr ydwyf fi i roddi fy nhystiolaeth i ffaith.' *Un peth a wn i, lle yr oeddwn i yn ddall, yr wyf fi yn awr yn gweled.* Deil hwynt yn dyn at y *ffaith*—yr hyn oedd wedi cymeryd lle. 'Yr wyf yn sicr o'r hyn a wnaed arnaf fi; tynwch chwi eich casgliad eich hunain.'

ADN. 26: *Beth a wnaeth efe i ti? pa fodd yr agorodd efe dy lygaid di?* Wrth fethu yn eu hamcan, troant yn ol at y *pa fodd?*—y cwestiwn a ofynasant o'r blaen, i'r hwn y rhoddasai yntau atebiad mor glir a phendant: adn. 15. Yn yr ail holiad hwn, amcanent fe allai ysgwyd ei dystiolaeth, fel y gwneir trwy groesholiad mewn llys barn; neu dynu allan rywbeth newydd i gondemnio Crist am halogiad o'r Sabboth.

ADN. 27: *Mi a ddywedais i chwi eisoes, ac ni wrandawsoch: paham yr ydych yn ewyllysio clywed drachefn?* Darllena rhai, "ac oni wrandawsoch?" 'Paham, rhaid eich bod wedi clywed.' Golyga—'talu sylw.' Y mae gweled eu hystrywiau twyllodrus, a'u gwaith yn gwingo yn erbyn y gwirionedd, o'r diwedd yn cyn hyrfu ei feddwl gonest, unplyg ef. Wedi cyd-ddwyn mor hir ac mor amyneddgar â'u holiadau, y maent o'r diwedd wedi cyffroi ei ysbryd i ddigofaint cyfiawn. Gonestrwydd gwirionedd yn methu goddef ystrywiau twyll. *A ydych chwithau yn ewyllysio bod yn ddysgyblion iddo ef?* Gwawdiaeth yw y cwestiwn. 'Yr ydych am gael pob manylion am dano, a hyny drosodd a throsodd drachefn—rhaid eich bod chwithau am ddyfod yn ddysgyblion iddo!' Neu, yn ol rhai—'A ydych chwi mewn gwirionedd y fath elynion a hyn iddo?' Gwêl rhai yn y gair *chwithau* led-addefiad ei fod *ef* yn ddysgybl. Gwada eraill hyn ar sail adn. 36, 37.

ADN. 28: *Hwythau a'i difenwasant ef.* Y mae ei bwyll, ei ymlyniad gonest, di-ildio wrth y gwirionedd, eu hanallu i siglo ei dystiolaeth, ac hefyd ei gwestiwn digywilydd iddynt hwy yr awdurdodau, o'r diwedd yn eu cynhyrfu hwythau i nwyd. Digofaint sydd yma mewn achos annghyfiawn. Rhagymadrodd yw y "difenwi" i'r hyn sydd yn canlyn. *Tydi sydd ddysgybl iddo ef; eithr dysgyblion Moses ydym ni.* Yr oeddynt wedi methu tynu unrhyw dystiolaeth o hono *yn erbyn* yr Iesu; felly golygent ei fod trwy ei ymddygiad yn rhestru ei hunan o'i blaid. *Iddo ef*—pwyslais ar *ef*, gair yn cynnwys gradd o anmharch *(ekeînou)* '*hwnw*, y dyn *hwnw*.' Ceisient trwy y gair hwn, medd Bengel, symud yr Iesu (gyda dirmyg) oddiwrthynt hwy eu hunain. *Ni*—gyda phwyslais balch. Ffoant am noddfa at Moses—i'r gorphenol pell yn ol, oddiwrth y presennol annyoddefol. Ymddiriedant yn Moses tra yn dyfod o dan ei gondemniad.

ADN. 29: *Nyni a wyddom lefaru o Dduw wrth Moses.* Pwyslais balch eto ar y *nyni;* ac ar *Moses* mewn cyferbyniad i *hwn. Eithr hwn, nis gwyddom ni o ba le y mae efe. Hwn* eto. Nid ydynt unwaith yn enwi yr Iesu. Y mae rhywbeth cysegredig mewn *enw*, am fod personoliaeth yn gysegredig. Yr enw yw yr arwydd o bersonoliaeth gwahaniaethol y dyn. Felly teimlir yn reddfol fod peidio rhoddi ei enw ar ddyn, pa mor isel bynag y byddo, yn anmharch arno, pan yn siarad wrtho neu am dano. Y mae fel pe byddai yn ei wneuthur yn *beth* ac nid yn berson. *O ba le y mae efe.* Pwy a'i hanfonodd—pa un a ydyw o Dduw. Cymh. viii. 14. Mewn lle arall, rhoddent hyn yn nôd ar y gwir Fessïah: "Pan ddêl Crist, nis gwyr neb o ba le y mae," vii. 27.

ADN. 30. Y mae eu cynddaredd yn erbyn Crist yn awr yn peri i'r dyn ym-

hyfhâu, i wneuthur cyffes bellach o hono. Yr hyn a wnai eu hanwybodaeth yn rhyfedd oedd, ei bod heb reswm drosti. Gan iddo gyflawni gwyrth mor ryfeddol, *dylasent* wybod.

Adn. 31—33: *Nad yw Duw yn gwrandaw pechaduriaid.* Ymresymiad â'i sail ar wirionedd addefedig. Cymerir yn ganiatäol y syniad fod gwyrthiau yn atebiad i weddi. Dengys adn. 32 fod hon yn wyrth ddiammheuol. Felly y casgliad sicr yw (adn. 33) "fod *hwn*" (yn eu hiaith hwy) "o Dduw." Heb hyny, "ni allai efe wneuthur dim;" y mae *dim* yma, fel arferol, yn cael ei derfynu gan y pwnc dan sylw—dim o natur wyrthiol. Golyga "o Dduw" Brophwyd, wedi ei anfon oddiwrth Dduw, fel y cyffesai Nicodemus, iii. 2. Dyma radd bresennol ffydd y dyn; ond yr oedd ffydd ynddo Ef fel "Mab Duw" i darddu yn fuan o'r gwreiddyn hwn, adn. 35, 38. Sylwa un fod nid yn unig ei olwg naturiol wedi ei roddi iddo, ond fod goleuni wedi tywynu yr un pryd i ddyfnder ei enaid. Heb fod yma waith gras, nis gallasai ffydd mor ieuanc ac anaddfed roddi y fath wrthwynebiad penderfynol i ddichellion y Phariseaid.

Sabboth, Ionawr 20fed—(*Y rhan olaf o'r Wers am* Awst 26ain *yn y* Gwersylyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 10).

Agor llygaid y dall.

Adn. 34: *Mewn pechodau y ganwyd ti oll.* Yr oll o'r dyn. Synient am bechadurusrwydd cyn geni, fel y dysgyblion, adn. 2, a gwnaent yma gymhwysiad gwawdus o'r gred. Cyferbyniol i xiii. 10, "yn lân *oll.*" 'Yr wyt ti drwodd draw wedi dy eni yn adyn gwrthodedig.' "Gradd eithafol o'r pechod gwreiddiol," medd un. Y meddwl yw, dybygem—'Y mae yr oll o'th natur wedi ei geni dan farn; yr wyt yn ddall yn dy *enaid* yn gystal a'th gorff.' Fel y sylwa Trench, yr oeddynt yn anghyson â hwy eu hunain. Felly y mae rhagfarn a gelyniaeth. Un cyhuddiad oedd—nad oedd y dyn wedi ei eni yn ddall, ac felly ei fod yn dwyllwr; a'r llall—ei fod o dan nôd digofaint Duw mewn dallineb oedd yn cyrhaedd yn ol i'w enedigaeth. *Ac a wyt ti yn ein dysgu ni?* Gofyniad wedi ei lwytho â phwyslais gwawdlyd. Y cyferbyniad rhwng *ti* a *ni;* ac fe allai rhwng y *dall* a'r *dysgu:* "A wyt *ti*, y *dall* o enaid a chorff, yn ein dysgu *ni?*" *A hwy a'i bwriasant ef allan.* Esgymundod, medd rhai esbonwyr. Hyn yn unig, meddant, sydd yn gyson â'r pwysigrwydd a roddir ar yr amgylchiad yn yr adnod nesaf, adn. 35. Yn erbyn hyn, dadleua eraill nad oedd eisteddiad o'r Sanhedrim wedi cymeryd lle, nac un awgrym am ddedfryd o esgymundod; ac felly na olygir ond ei fwrw allan o ystafell y cynghor, neu y deml yn ol rhai, neu o'r lle yr oeddynt ynddo yn dwyn ymlaen yr ymchwiliad, pa le bynag ydoedd. Deuai hyn yn naturiol fel diweddiad y ddadl boethlyd a'r nwydau cynhyrfus—ei droi allan o'r cyfarfod. Eto, y mae adn. 22 a 35 yn awgrymu mwy na hyn. Credwn gydag Ewald mai esgymundod oedd *ystyr* y weithred, er fe allai na chyhoeddwyd y ddedfryd yn ffurfiol hyd ar ol ychydig ddyddiau yn y synagog.

Adn. 35: Aeth y gair ar led. Ymhen rhai dyddiau, neu drannoeth fe allai, cyfarfu yr Iesu âg ef, nid yn ddamweiniol, ond fel Bugail da aeth i'w geisio: "a phan ei *cafodd*," gofynodd iddo, *A wyt ti yn credu yn Mab Duw?* Sylwir fod ffurf y cwestiwn (yn y gwreiddiol) yn tybied ateb cadarnhaol: "Yr wyt yn credu yn Mab Duw" (onid ydwyt?) Gan ei fod wedi ei fwrw allan o'r synagog, y tebyg oedd ei fod wedi cyffesu yr Iesu yn Grist, adn. 22. Gwelir yma, fel bob amser, fel y mae ein Harglwydd yn prisio gonestrwydd amcan. Yr oedd y dyn hwn wedi gweithredu yn onest, i fyny â'r goleuni oedd ganddo. Gwobrwya yr Iesu hyny â goleuni mwy. Y mae ei gwestiwn am arwain ffydd y dyn i raddau uwch o *benderfyniad* ac *addfedrwydd.*

Adn. 36: *Pwy yw efe, O Arglwydd, fel y credwyf ynddo?* Prawf eto o galon onest a da. Nid oedd am i'w eiriau na'i broffes fyned ddim o flaen ei wir gredo. Eto—yr oedd yma barodrwydd i gredu. Troai at y goleuni.

Adn. 37: *Ti a'i gwelaist ef.* Sef y pryd hwn. Nid oedd wedi ei weled o'r blaen. Aethai oddiwrth yr Iesu, cyn dyfod i weled, i lyn Siloam. Sylwa un yn brydferth, ei fod yn dyweyd fel hyn mewn cydymdeimlad tyner â'i allu newydd i *weled.* Y mae yma megys awgrym fod ei Iachäwr yn ei lon-gyfarch, ac yn cyd-lawenhau âg ef. 'Yr wyt yn ei glywed hefyd: y mae yn sefyll ger dy fron, yn dy olwg, ac yn dy glyw.' Defnyddia y trydydd person i roddi pwyslais neillduol ar y ffaith, fel y gwneir weithiau mewn ymddyddan cyffredin.

Adn. 38: *Yr wyf fi yn credu, O Arglwydd.* Sylwa Bengel ei fod yn awr yn ei alw yn "Arglwydd" mewn ystyr fwy oruchel na'r fynyd o'r blaen—adn. 36. Cafodd ei olwg ysbrydol a naturiol. Gwelodd "ogoniant yr unig-anedig Fab." Anmhosibl yw dyweyd pa faint o ystyr a gyflëid i'w feddwl ef yn y teitl "Mab Duw." Syniai am dano yn y dechreu fel un wedi dyfod oddiwrth Dduw, ac fel

un "o Dduw." Syniai am dano yn awr fel y gwir Fessïah, y mae'n debyg, gwrthddrych ffydd ac addoliad. Fel y sylwa un yn rhagorol, mai nid o syniadau clir a phendant y mae ffydd yn benaf yn cael ei gwneyd i fyny, ond o barodrwydd calon i deimlo dylanwad nerthoedd nefol. Cynnydda y wybodaeth gyda dadblygiad ffydd. *Ac efe a'i haddolodd ef.* Effaith ffydd a chariad, gostyngeiddrwydd a diolchgarwch. Sylwir nad yw y ferf hon *(proskunein)* byth yn cael ei harfer gan Ioan, ond am addoliad *dwyfol.*

Adn. 39: *I farn y daethum i'r byd hwn.* Y mae yn debyg nad oedd neb ond yr Iesu a'r dyn a iachesid yn yr ymddyddan o'r blaen. Gallai fod Phariseaid a dysgyblion yn awr wedi dyfod atynt wrth weled Crist yn ymddyddan â'r dyn hwn. "I farn"—dyben yn gystal a chanlyniad. Dyma un dyben, ond nid y dyben eithaf—dwyn penderfyniad barnol; a dyma y ffaith—bernid calonau ar bob ochr yn ol eu hagwedd tuag at Grist. Yr oedd y presennoldeb ei hunan mor fawr nes yr oedd yn rhwym o farnu y byd. *Fel y gwelai y rhai nid ydynt yn gweled.* Y rhai "tlodion yn yr ysbryd," yn teimlo eu hanghen am wirionedd dwyfol ac yn awyddus am dano, yn caru y goleuni. *Ac yr elai y rhai sydd yn gweled yn ddeillion.* Y Phariseaid hunanddoeth, hunan-gyfiawn—"y rhai iach." Gwnai goleuni dwyfol Crist i'r rhai hyn, nid yn unig barhau yn eu dallineb, ond myned yn fwy dall. Yr oeddynt yn cau eu llygaid yn dynach, a'u calonau yn caledu yn fwy yn erbyn y gwirionedd. Ni fynent ddyfod i'r goleuni, am eu bod yn caru y tywyllwch. Yr oedd hyn yn effaith eu cyndynrwydd, ac yn farn arno yr un pryd.

Adn. 40: *Ydym ninnau hefyd yn ddeillion?* Y mae yn amlwg na ddeallasent eiriau yr Iesu. Ymhlith "y rhai oedd yn gweled" yr oedd efe wedi eu gosod (mewn enw). Ond yr oedd ganddynt ryw syniad cymysglyd ei fod Ef yn siarad yn eu herbyn hwy, ac yn gwybod beth oedd ei farn am danynt, ac wedi dal ar y gair *deillion,* y maent yn gofyn mewn cyffro—'A ydwyt ti yn ein galw *ni,* athrawon, arweinwyr y bobl, yn ddeillion?'

Adn. 41: *Pe deillion fyddech, ni byddai arnoch bechod.* 'Nac ydych, ysywaeth! ddim yn ddeillion. Da fuasai, pe buasech yn ddeillion (yn ystyr "y rhai nid ydynt yn gweled," adn. 39); buasech yn ddibechod mewn cymhariaeth i'r hyn ydych. Buasech felly yn unig heb y goleuni, ond yn awr yr ydych yn casâu ac yn gwrthwynebu y goleuni.' *Eithr yn awr meddwch chwi, Yr ydym ni yn gweled; am hyny y mae eich pechod yn aros.* Gan eich bod chwi yn hòni fod y gwirionedd dwyfol yn eich meddiant, y mae eich pechod yn parhau, yn aros heb ei symud; am fod eich hunan-dyb yn eich attal i ddyfod ataf fi, nis gallwch gyrhaedd i ffydd a maddeuant.

Sabboth, Ionawr 27ain—*(Y Rhan gyntaf o'r Wers am* Medi 2il *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 10).

Iachâu y dyn â'r llaw wedi gwywo.

Mat. xii. 1—9. Yn y rhan gyntaf hon o'r bennod, ceir hanes y dysgyblion yn tynu y tywys ar y Sabboth. Caniateid hyn yn nghyfraith Moses, i'r dyben o ddiwallu "chwant bwyd," Deut. xxiii. 25. Felly y mae eto yn ngwlad Canaan. Ond yr oedd y Phariseaid wedi troi y gosodiad Dwyfol am gadwraeth y Sabboth yn iau orthrymus. Gwaharddent hwy yr hyn a ganiateid yn y gyfraith. Argyhoedda ein Hiachawdwr hwynt o'r ysbryd cul, llythyrenol a didrugaredd oedd yn eu llywodraethu. Ceisia eu codi i safle uwch, ysbrydol; o gaethiwed deddfol i ryddid sanctaidd yr efengyl; o'r llythyren i'r ysbryd. Gwna hyn trwy ddau fath o ymresymiad: yn gyntaf, o'r mwy i'r llai; o'r ffaith fod Dafydd wedi bwyta hyd yn nod y bara gosod, pan oedd chwant bwyd arno ef a'r rhai oedd gydag ef, at waith y dysgyblion newynog yn tynu ychydig dywys. Yna, o'r llai i'r mwy: Os oedd y Sabboth yn ailraddol, adn. 3, 4, i'r trefniadau aberthol yn y deml, yr oedd ei awdurdod Ef yn uwch na chysegredigaeth y deml, adn. 5, 6. Yna, yn adn. 7, dengys yr egwyddor ddidosturi oedd yn eu cymhell. Wrth gondemnio y dysgyblion, condemnient eu hunain. Yn eu gorfanylrwydd traddodiadol gyda'r llythyren, yr oeddynt yn amddifaid o egwyddor fawr crefydd a'r efengyl—cariad. Try yma o'r amddiffynol i'r ymosodol.

Adn. 9, 10. Yr oedd hyn ar yr un Sabboth. *Dyn â chanddo law wedi gwywo.* Cylchrediad diffygiol yn y gwaed, y mae'n debyg, oedd yr achos (1 Bren. xiii. 4; Zech. xi. 17; Ioan v. 3). Neu parlys lleol, ar un ran yn unig. Gellid meddwl eu bod am ddefnyddio y dyn hwn fel offeryn anymwybodol i'w hamcan maleisus, "fel y gallent achwyn arno." *Ai rhydd iachâu ar y Sabboth?* Neu—'*Os* rhydd iachâu ar y Sabboth—dyma gyfle ar y dyn hwn?' Heblaw dysgu halogiad o'r Sabboth, dysgwylient iddo gyflawni gweithred gyhoeddus, er mwyn ei gyhuddo o dori yn weithredol y pedwerydd gorchymyn. Gwaherddid

iachâu ar y Sabboth gan y traddodiadau Iuddewig, ond pan fyddai bywyd mewn perygl. Yn adn. 11 a 12 try yr Iesu y cwestiwn yn ol atynt hwy, trwy ofyn pwy o honynt a beidiai a gwaredu *dafad* wedi syrthio i bwll ar y dydd Sabboth? Pa faint gwell yw dyn na dafad? *Felly rhydd yw gwneuthur yn dda ar y Sabbathau.* "Gwneuthur yn dda"—nid cymwynas yn unig, at ewyllys dyn i'w gwneyd neu beidio; dygir y weithred o dan y pen o ddyledswydd. Dengys hyn wrthuni moesol y cwestiwn yn adn. 10. Fel pe dywedasai, "Yr ydych chwi yn gofyn ai *rhydd* yw gwneuthur *dyledswydd* ar y Sabboth?"

Adn. 13. Yna daw yr iachâd gwyrthiol. Wrth geisio ufuddhau, cafodd nerth i wneyd. Wrth estyn y llaw, iachäwyd hi. Yr oedd gwaith y dyn yn estyn y llaw wywedig yn amlygiad o ffydd; ac yn dangos ei fod megys yn rhoddi hèr i awdurdod y Phariseaid, ac yn cydnabod awdurdod Crist.

Sabboth, Chwefror 3ydd—(*Y rhan olaf o'r Wers am* Medi 2il *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal* 10).

Adn. 14, 15. Aethant allan yn ddioed i gymeryd gweithrediadau ffurfiol yn erbyn Crist. Yn ol Marc iii. 6, ymunasant â'r Herodianiaid, plaid llys Herod, y rhai, o bosibl, a dramgwyddwyd gan wrthodiad yr Iesu, ychydig o'r blaen, i gyfarfod Herod, Luc ix. 9. Nid oedd rhesymau eglur yr Iesu wedi eu hargyhoeddi o'u cyfeiliornad, na'r amlygiad o'i dosturi wedi cynhyrfu dim ynddynt ond gelyniaeth chwerw. Cynhyrfid hwy yn fwy gan edmygedd y bobl, y rhai a ganlynent y Gwaredwr yn lluoedd, ac yntau yn iachâu eu holl gleifion, adn. 15.

Adn. 16. Ni fynai, trwy ormod cyhoeddusrwydd, gyffroi ei elynion i fesurau eithafol cyn yr amser.

Adn. 17—21. Cyflawnai ei waith digyffelyb, yn unol â'r brophwydoliaeth, heb rwysg nac arddangosiad trystfawr. Yr oedd hyn yn unol â threfn y gweithrediadau Dwyfol. Gwna Duw ei bethau mwyaf mewn dystawrwydd. Ac yr oedd yn arbenig yn unol â nodwedd ac amcan ei genadaeth rasol Ef yn y byd.

DOSBARTH HYNAF.

Sabboth, Ionawr 13eg—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Awst 19eg *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyhol: Llyfr II., *tu dal.* 27).

Adn. 14: *Yn nghylch canol yr wyl.* Yr oedd yr Iesu yn y ddinas o'r blaen, ond yn ddirgel, adn. 10. Yn awr, daeth allan i'r amlwg. Gallai mai y dydd hwn oedd Sabboth yr ŵyl, ond nid oes sicrwydd. *A aeth i fyny i'r deml, ac a athrawiaethodd.* Tybia rhai, oddiwrth sylwadau yr Iuddewon yn yr adnodau dylynol, ei fod yn awr nid yn unig wedi llefaru yn yr awyr agored yn y cyntedd allanol, ond wedi traddodi pregeth reolaidd, fe allai yn y synagog, yr hon oedd yn nghyntedd y gwragedd. Ymddengys mai dyma y tro cyntaf i'r Iesu ddysgu yn gyhoeddus yn Jerusalem. Oblegid hyn y synai yr Iuddewon gymaint.

Adn. 15: *Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth, ac yntau heb ddysgu?* Yn gyffredinol, 'llythyrenau, llenyddiaeth;' yn neilldiol, dysgeidiaeth ysgrythyrol, oblegid dyma ydoedd holl lenyddiaeth yr Iuddewon. Y mae yn debyg fod ei addysg y tro hwn mewn esbonio yr Ysgrythyrau. Synai yr Iuddewon pa fodd y cyrhaeddodd y fath ddysgeidiaeth yn yr Ysgrythyrau, ac yntau heb fod yn ysgol unrhyw Rabbi. Nid oedd ond Rabbi rheolaidd i draethu ei syniadau ei hun; nid oedd eu hysgolheigion yn rhydd ond i adrodd yn unig yr hyn a ddysgasent. Tarddai y cwestiwn o wir ysbryd rhagfarn a chulni yr hyn a elwid "dysgeidiaeth."

Adn. 16: Yr oedd ganddo Ef gomisiwn dwyfol i ddysgu, yr hyn nid oedd gan y Rabbiniaid. Ac yr oedd wedi ei ddysgu gan Dduw. Llefarai nid o hono ei hun, ond yn enw a thrwy awdurdod Duw, gogoniant yr hwn yn unig a geisiai. Yma yn unig y geilw Crist ei athrawiaeth yn "ddysgeidiaeth," am ei fod yn awr yn mysg y dysgedigion, y Rabbiniaid, yn y deml.

Adn. 17: *Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef.* Nid os "gwna," fel y Cyf. Seisonig (ond y mae yn gywir yn y Cyf. Diwyg.—"*willeth to do his will*"). Nid y cyflawniad allanol yw y pwnc yma, ond gogwydd sylfaenol yr ewyllys tuag at Dduw, "os ewyllysia." Cynnwysa yr adnod bwysig hon un o wirioneddau mewnol Cristionogaeth—math o *axiom*, gwirionedd cyntaf. Y mae yr agoriad i adnabyddiaeth o wirioneddau dwyfol yn nhueddfryd yr ewyllys i ufuddhau i Dduw. Diau fod hyn yn gyferbyniol i agwedd meddwl y Phariseaid. "Ei ewyllys ef" iddynt hwy oedd dadguddiad yr Hen Destament. Dysgent hwy y gwirionedd er mwyn eu gogoniant eu hunain. Yr oedd yr anmhurdeb mewnol hwn yn peri nas gallent weled dysgleirdeb y gogoniant dwyfol yn Nghrist. Y "*pur* o galon" sydd yn "*gweled* Duw." Golyga "ei ewyllys ef" ddysgeidiaeth Crist a'r Hen Destament, ac hyd yn nod y gydwybod ei hunan, Rhuf.

ii. 14. Ewyllys Duw mewn gwahanol ffurfiau o ddadguddiad yw y cwbl. Gofynir bob amser gywirdeb gyda golwg ar yr hyn a wyddom o gyfraith Duw; hyn sydd yn penderfynu gwir sefyllfa y meddwl tuag at Dduw, ac yn ei barotoi i dreiddio yn ddyfnach o hyd i'r wybodaeth. Ar y llaw arall, y mae yr hwn sydd yn annghywir, ac heb wneyd yr hyn y mae yn ei wybod, yn ei ddallu ei hun, fel o'r diwedd nas gwel y goleuni dysgleiriaf. Gweithredu yn onest i fyny â'r goleuni sydd genym yw yr ammod i dderbyn goleuni mwy. *Cariad* sydd yn *amgyffred* yr Efengyl: Ephes. iii. 18. Fel y sylwodd Pascal yn brydferth: "Rhaid adnabod pethau dynol mewn trefn i'w caru; rhaid caru pethau dwyfol mewn trefn i'w hadnabod."

Adn. 18: *Y mae yr hwn sydd yn llefaru o hono ei hun yn ceisio ei ogoniant ei hun.* Fel yr awgrymwyd, dyma yn hollol oedd ystâd meddwl y Phariseaid. A dyma yr anmhurdeb calon a rwystrai iddynt "weled" *Duw* yn yr hen ddadguddiad (er eu bod yn mawrhau y llythyren), ac hefyd yn Nghrist. Yr oedd Efe ei hun yn hollol i'r gwrthwyneb, yn ceisio gogoniant yr Hwn a'i hanfonodd. Am hyny nid oedd ynddo unrhyw wyrni nac "annghyfiawnder."

Adn. 19: *Oni roddes Moses i chwi y gyfraith, ac nid oes neb o honoch yn gwneuthur y gyfraith.* Tybia rhai, o herwydd anhawsder y cysylltiad, fod rhyw eiriau neu weithred o eiddo yr Iuddewon, rhwng adn. 18 a 19, wedi eu gadael heb eu rhoddi i lawr. Dyma y cysylltiad fe allai: yr oedd yr Iesu wedi ateb cwestiwn yr Iuddewon (adn. 15), yn gyflawn yn adn. 16—18. Yn awr, cymer agwedd ymosodol. Dengys iddynt wir *sail* eu gwrthddadleuon a'u hymosodiadau—amcan maleisus i ddwyn oddiamgylch ei farwolaeth. Nid oedd ganddynt hwy ddim o'r hyn sydd yn adn. 17, onidê buasent yn ceisio cadw y ddeddf eu hunain, yn lle ceisio ei wneyd ef yn droseddwr. Yn eu gwaith yn lladd Tywysog y bywyd yr oedd eu holl drosseddau o ddeddf Duw yn cyrhaedd eu heithaf.

Sabboth, Ionawr 20fed—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Awst 26ain *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 27).

Adn. 20: *Y mae genyt ti gythraul: pwy sydd yn ceisio dy ladd di?* Nid cabledd a olygid; nid ei fod yn llefaru trwy y diafol. Ond ei fod ef ar y pen hwn yn wallgof. Synient fod gwallgofrwydd yn waith ysbrydion drwg. Felly syndod oedd yma—fod un oedd yn dysgu y bobl mor ragorol yn dychymygu peth mor wyllt a disail a hyn. Rhaid, meddynt, mai rhyw ysbryd drwg sydd wedi rhoddi y fath syniad twyllodrus ynddo.

Adn. 21: Dwg ateb yr Iesu hwynt i gyd i mewn yn yr amcan llofruddiog. Yr oedd yr "un weithred" yn cael ei chondemnio ganddynt oll. *Un weithred a wnaethum.* Pa un oedd hon? Iachâu y dyn ar làn llyn Bethesda ar y Sabboth, y mae'n debyg, pen. v. 2, er mai ar ymweliad blaenorol o eiddo Crist â Jerusalem y bu hyny. Tybia rhai fod iachâd arall cyffelyb wedi ei gyflawni eilwaith, ac mai at hwnw y cyfeirir. Ond heb dybied hyny, fel y sylwa Meyer, gan mai yr iachâd wrth lyn Bethesda oedd yr unig wyrth a gyflawnodd Efe yn Jerusalem ar yr ymweliad hwnw, buasai yn debyg o gael ei chofio am ei bod yn engraifft mor darawiadol o dori y Sabboth.

Adn. 22—24: Dengys ein Hiachawdwr yn yr ymresymiad hwn eu hannghysondeb â hwy eu hunain yn eu gwaith yn ei erlid ef am dori y Sabboth. Cyferbyna ei "un weithred" ef â'r hyn a wnaent hwy yn barhaus: 'Un weithred o iachâu ar y Sabboth sydd yn peri i chwi fy erlid I; ond yr ydych chwi yn enwaedu yn barhaus ar y Sabboth.' (Pan enid un ar y Sabboth, enwaedid ef ar yr wythfed dydd, sef y Sabboth canlynol.) *Am hyny* y rhoddes Moses i chwi yr enwaediad. Am ba beth? Am yr hyn a ddywedir yn y geiriau nesaf—"nid o herwydd ei fod o Moses, eithr o'r tadau." Er fod enwaediad wedi ei roddi trwy Moses yn y gyfraith, nid yn Moses yr oedd ei wreiddyn: yr oedd yn hen sefydliad patriarchaidd can hyned ag Abraham. Felly yr oedd deddf yr enwaediad *o flaen* deddf y Sabboth, ac y mae yr olaf oblegid hyny yn plygu i'r flaenaf. Yr oedd hefyd yn uwch deddf, am ei bod yn cynnrychioli yr oll o ddeddf Moses. Os ydych chwi yn enwaedu ar y Sabboth mewn ufudd-dod i ddeddf uwch na chadwraeth llythyrenol y seithfed dydd, felly yr wyf finnau yn gwneyd—iachâu dyn ar y Sabboth yn unol â'r ddeddf uchaf o *gariad*.' Dengys fod eu digofaint yn afresymol, ac yn tarddu o gamsyniad am natur y Sabboth. Ceisia eu harwain o'r llythyren at yr egwyddor.

Yna yn adn. 24, tyna gasgliad oddiwrth y cwbl. "Wrth y golwg" yr oeddynt hwy yn barnu yn yr achos hwn—wrth yr ystyr lythyrenol, allanol. Dysgai efe hwynt i farnu yn *gyfiawn.*

Sabboth, Ionawr 27ain—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Awst 26ain *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 27).

Adn. 25—27. Synai y rhai hyn o

Jerusalem (nid y *bobl* anwybodus, adn. 20) fod yr awdurdodau Iuddewig yn goddef iddo siarad mor hyf. *A wybu y penaethiaid mewn gwirionedd mai hwn yw Crist yn wir?* Ai dyma yr achos o'u dystawrwydd, eu bod yn gwybod mewn gwirionedd mai hwn yw y Crist? Tueddant hwy eu hunain i gredu hyn am y fynyd; teimlant nerth y gwirionedd yn ei eiriau a'i ymddygiad. Ond delid hwynt yn gaeth gan ddefodaeth—yr oeddynt yn gaethion i'r allanol. Ni agorent eu meddyliau a'u hanhawsderau i'r Iesu. Fel pe dywedasent: 'Ai tybed fod y penaethiaid yn credu yn eu calonau mai hwn yw y Crist? Ond na, nis gall hyny fod. Ni a wyddom o ba le y mae hwn; ond pan ddêl y Messïah, "nis gŵyr neb o ba le y mae." Nid oedd sail i'r dŷb hon yn yr Hen Destament. Prophwydwyd am le genedigaeth y Messïah, a gwyddent ymha le y ganed yr Iesu. Prophwydwyd hefyd y deuai o linach Dafydd. "O ba le y mae" a olyga, yn ol rhai, nid ei le genedigol, na'i linach (bell yn ol) yr hon a wyddid oedd hâd Dafydd, ond y perthynasau agos tad, mam, teulu, Mat. xiii. 55. Tarddodd y dŷb fe allai o'u cred am haniad dwyfol y Messïah, ac hefyd o'r dinodedd i'r hwn yr oedd teulu Dafydd wedi syrthio. Gallai yr un pryd fod rhai ymadroddion yn yr Hen Destament wedi eu harwain i feddwl nas gwyddid o ba le y deuai y Crist; megys Esa. liii. 2, 8; Micah v. 2; ac ymddangosiad sydyn Mab y dyn yn Dan. vii.

Adn. 28, 29: *A lefodd.* Cynhyrfwyd ef gan fel yr oeddynt mor gaeth i'r allanol—yn "barnu wrth y golwg," fel y profai eu geiriau, adn. 27. Nid fel gofyniad, na gwawdiaeth, y mae adn. 28, fel y tybia rhai. Nac ychwaith—'Yr ydych chwi yn *meddwl* yr adwaenoch fi;' nac fel cerydd—y gwyddent, a'u bod yn celu. Na: addefa yr Iesu fod ganddynt wybodaeth allanol o hono; ond nis adwaenent Ef yn ei berthynas â'r Tad, fel Mab Duw a'r Gwir Fessïah. *Yn gywir.* 'Y mae ei hanfod a'i weithrediad yn wirionedd pur.' *Gwir* nid yn gyferbyniol i'r gau, ond i'r cysgod, i'r rhanol a'r anmherffaith *(alêthinos)*. Yr hyn a argreffir arnynt yw, mai nid dyfod o hono ei hun a wnaeth; ond ei fod yn wirioneddol wedi ei anfon gan Dduw. Cyferbynir gwybodaeth bynciol am Dduw, ac adnabyddiaeth o hono. Y rhai sydd "o hono ef" yn unig sydd yn adnabod y dwyfol ymhob man. Yr oedd Efe felly mewn ystyr uwch na neb—"yr uniganedig Fab."

Adn. 30, 31: Parai geiriau yr Iesu i ansoddau drwg a da y gwrandawyr ddyfod allan. Teimlai lïaws nerth ei eiriau a'i weithredoedd, a chredasant. Ond ni wnai hyny ond cyffroi zel elyniaethol y Phariseaid yn ei erbyn.

Sabboth. Chwefror 3ydd—(*Y rhan gyntaf o'r Wers am* Medi 2il *yn y* Gwersylyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 27).

Adn. 32: Aeth ysbïwyr y Phariseaid, y blaid lywodraethol yn y Cynghor, yn awr i hysbysu iddynt fel yr oedd pethau yn myned ymlaen yn y deml; a pha fath deimlad oedd geiriau yr Iesu wedi ei gynnyrchu yn y bobl. Ymddengys eu bod yn y fan wedi galw cyfarfod neillduol o'r Cynghor. Ac yn awr y mae y wŷs swyddogol i'w ddal ef, a'r swyddogion yn cael eu hanfon, am y waith gyntaf.

Adn. 33, 34: Dengys Ioan xiii. 33—"megys y dywedais wrth yr Iuddewon," mai i'r Iuddewon yr oedd y geiriau hyn, ac nid i'r dysgyblion. Gwyddai Efe ei amser—"ychydig amser." *At yr hwn a'm hanfonodd.* Nis gallent beidio deall mai at Dduw y dywedai ei fod yn myned. *Chwi a'm ceisiwch.* Am gymhorth ac ymwared. Cyfeiria at y drygfyd yn ninystr Jerusalem, canlyniad eu gwrthodiad o Grist, Luc xx. 16, &c., xix. 43, &c. Tröid y byrddau. Wedi iddynt ei erlid a'i ladd, ceisient Ef yn eu cyfyngder i'w gwaredu. Ond yn ofer—"ac ni'm cewch."

Adn. 35, 36: Nis gallent ddeall ei eiriau. Fel arferol, rhoddent esboniad allanol iddynt, a hyny mewn gwawd. Yr oedd y fath eofndra yn ei eiriau a'i weithredoedd fel y teimlent nad oedd neb yn sicr pa bethau rhyfedd a wnai nesaf. 'Gallai mai myned i ddysgu y Groegiaid a wnai!' Yr oedd yma dôn o ddirmyg tuag ato Ef a thuag at y Groegiaid. Yr oedd llawer o ddyddordeb yn cael ei deimlo y pryd hwn ymhlith y cenedloedd paganaidd yn y crefyddau dwyreiniol, yn enwedig Iuddewiaeth. Ond nid yw eu tybiaeth watwarus yn eu boddhau hwy eu hunain. Nis gallent feddwl pa fodd y byddai iddynt hwy ei geisio Ef a methu ei gael.

Hanesion a Darnau Detholedig.

YR ANALLU SYDD YN WIR NERTH.

"Eraill a waredodd, ei hun nis gall ei wared." Oni wyddoch fod gwendid yn bod sydd yn berffaith gryfder, anallu nerthol, anallu hollalluog? Nid yw dyndod byth wedi dyfod yn wirioneddol

gryf, nes y daw yr awr hono pan y gall cydwybod ddyweyd, "Nis gallaf." Yr awr pan y dywed cydwybod "Nis gallaf," yw awr gogoniant dynoliaeth. Pan y galloch chwi ddyweyd, "Nis gallaf niweidio fy mrawd, nis gallaf lychwino anrhydedd fy chwaer, nis gallaf roddi malldod ar enw da diniweidrwydd ieuanc, nis gallaf estyn fy llaw a gwneyd yr hyn a ysbeilia fy nghyd-ddyn,"—yr ydych y diwrnod hwnw wedi cyrhaedd nerth annhraethol. Y mae pob gwaharddiad o eiddo eich cydwybod yn ddrws agored, pob attalfa i'ch rhyddid moesol yn aden o ryddid perffaith, ar yr hon yr ehedwch heb flino: gogoniant eich dynoliaeth yw ei gallu i ddyweyd "Nis gallaf."

O Fab Duw! O Fab Dyn! Perffeithia dy nerth yn fy ngwendid! Gwna fi yn gyfranog o'th wendid, o'th anallu nerthol, o'th anallu hollalluog! Llanw fi fwy fwy â'th anallu dwyfol i'th gynnorthwyo dy hunan yn erbyn llesâd eraill! Ysbrydola fi fwy fwy â'th anghenrhaid dwyfol i roddi i fyny dy fywyd dy hun i frawdoliaeth dynolryw! Yr wyf fi wedi bod o hyd yn myned ar gyfeiliorn yn fy nghyfrif am yr hyn sydd yn ogoniant dynoliaeth; tydi a ddadguddiaist i mi beth yw bod yn ddyn. Ynot ti yr wyf yn gweled gwroniaeth ufudd-dod, ïe, ufudd-dod hyd angeu. Y mae y syniad paganaidd am berffeithrwydd yn suddo o dan y dòn, ac ar dalcen y boreu yr wyt ti yn cyfodi hyd byth. Tywyna i fy nghalon, tydi Haul gwell, fel y byddwyf yn dy adlewyrchu o ddydd i ddydd! Tyred i mewn i fy mywyd, tydi Ewyllys hunanymwadol, fel y byddo i mi dy adgynnyrchu o awr i awr! Tyred i gymundeb â'm hysbryd, tydi Aberth dirfawr, fel y gallwyf finnau hefyd fod yn wan yn mhresennoldeb fy Nhad; na âd i mi groeshoelio yn fy enaid ddelw berffaith Arglwydd y Gogoniant.—GEORGE MATHESON, D.D.

PARC Y PENDEFIG.

[DALEN O NOD-LYFR.]

Gan y Parch. R. D. ROWLANDS *(Anthropos), Caernarfon.*

AR un o wresog ddyddiau yr haf diweddaf, cefais I a nifer o gyfeillion eraill y ffafr o dalu ymweliad â pharc un o bendefigion Gwynedd. Amgylchir ef â muriau uchel am filldiroedd, ac ni cha y teithwyr ar hyd y brif-ffordd gymaint ag un olwg ar ei swynion. Pa hyd y pery hyn? Un gŵr yn cael yr hawl i gau y golygfeydd prydferthaf oddiwrth ei gyd-ddynion. Ond ar y dydd a nodwyd cawsom y pleser o weled ardderchogrwydd y parc ei hun.

Y peth cyntaf i dynu ein sylw oedd y coed henafol, preiffion, tewfrig, ar bob llaw. Wedi cerdded drwy y gwres, mor ddymunol oedd cael ymgolli yn nghanol cysgodion dwfn y goedwig! Dysgleiriai yr haul drwy frig ambell frenhin-bren, ond yn y gwaelodion yr oeddym yn eithaf diogel rhag ei belydrau tanbaid. Byth nid anghofiwn y mwynhad a gawsom mewn un llecyn neillduol. Ymagorai *avenue* fawreddog o'n blaen; yn nghanol y rhedyn a'r gwyrddlesni fe lifai "afonig fywiog, fad," ac yr oedd adsain ei disgyniadau dros y meini yn fiwsig byw. Nid oeddym ymhell o'r ffordd lychlyd, boeth, lle yr hanner-losgid ni gan wres yr haul; ond O! y fath gyfnewidiad. Yma, dan gysgod "brenhinoedd y fforest," ac yn swn y ffrwd, yr ydym fel pe buasem wedi myned i fyd newydd—bro ddeddwydd dydd-freuddwydion. Braidd na ofynem, A fu Paradwys yn rhagori ar hyn? Gresyn fod cynifer yn gorfod myned drwy y byd heb wybod fod llanerchau mor fendigedig ar ei wyneb.

Ni chawn fanylu ar y pethau a welsom yn mharc y pendefig. Ond gallwn nodi dau beth o fysg llawer: yn gyntaf, yr olygfa yn ac o'r Tŵr—tŵr yr arfau yn nghanol y parc. Oddifewn iddo ceir casgliad helaeth o gâd-offer gwahanol wledydd, a chywreinion wedi eu dwyn yno o feusydd rhyfel, megys Waterloo a'r Crimea. Yma gellir gweled aml i

hen gleddyf glas,
Luniodd lawer galanas,

yn cysgu yn ei wain. Yma hefyd ceir hen fwsgedi *(muskets)* trymion yn gorphwys ar y mur, ond y mae yn bosibl fod y milwyr fu yn eu *handlo* wedi troi yn llwch ar ryw gadfaes pell. Huned y dryll a'r cledd hyd yr adeg y bydd eu heisieu yn sychau ac yn bladuriau!

Ar ben y Tŵr, drachefn, ceir ffrwyth dyfais wyddonol, sef offer i fesur grym y gwynt, ac un arall i fesur y gwlaw. Gyda y rhai'n gellir dyweyd unrhyw adeg pa faint yn yr awr y mae y gwynt yn ei deithio, a pha faint o wlaw fyddo wedi disgyn yn y gymydogaeth mewn diwrnod. Cedwir cyfrif manwl o'r pethau hyn mewn llyfr, ac y mae ynddo lawer o ddyddordeb.

Y mae yr olwg oddiar nen y Tŵr yn "berffeithrwydd pob tegwch." Gwelir oddiyma fynyddoedd, dyffrynoedd, afonydd, tref a gwlad, a rhan helaeth o Fôr y Werydd. Gallesid meddwl nad oes ragorach golygfeydd yn y Deyrnas Gyfunol, ac eto y mae yr arweinydd yn ein

hysbysu mai ychydig o amser y mae y "byddigions" yn ei dreulio gartref. Beth y mae hyn yn ei brofi? Y mae y lle eang hwn wedi ei gau i mewn er mwyn y teulu sydd yn ddigon ffodus i feddiannu yr etifeddiaeth; ac, yn rhyfedd iawn, nid ydynt hwythau yn aros yma ond am dymmor byr mewn blwyddyn. Y canlyniad yw, fod manau o'r fath heb ateb un pwrpas ymarferol. Ni wna y sawl sydd yn eu meddiannu drwy ddeddf eu defnyddio, ac ni chaiff y cyhoedd eu sangu dan boen dirwy a chosb. Y mae y cwestiwn yn codi drachefn, Pa hyd y pery hyn?

Ond y peth arall a dynodd ein sylw oedd tai a chladdfa y cŵn. Oes, y mae gan "gŵn" y pendefig dai gwych—digon o le, a digon o awyr. Porthir hwy yn dda ac yn gyson. Ni wyddant beth ydyw prinder. Pan änt yn wael, y mae yma feddyg o bwrpas i ofalu am danynt. Ac wedi iddynt dynu yr anadl olaf, y mae yma gladdfa bwrpasol i gadw eu gweddillion. Ië, dodir meini ar eu beddau, ac ystyrir y llanerch yn un tra chysegredig. Pe cawsai aml i ddyn tlawd sydd yn gorfod byw mewn tŷ gwael, oer, a llaith,—boddloni lawer diwrnod ar grystyn sych, heb odid lygad i dosturio wrtho, —pe cawsai weled y pethau hyn, yr wyf yn credu mai y deisyfiad hwn a ddeuai dros ei wefus,—"O na fuaswn yn gi i bendefig yn lle bod yn ddyn!" Y mae genym bob cydymdeimlad â chreaduriaid diresym; ni ddylid arfer creulondeb at gŵn, ond y mae i bobpeth ei derfynau priodol. Gresyn na fuasai cyfran o'r arian, y gofal, y caredigrwydd a'r parch a wastreffir yma yn cael ei ddangos at greaduriaid rhesymol ond anffodus; plant amddifaid, gwŷr a gwragedd anghenus, y rhai sydd i'w cael mewn cyflawnder oddiallan i furiau parc y pendefig.

Ysywaeth, y mae *drama* Deifas a Lazarus yn cael ei chwarau ymhob oes. Y mae y cŵn yn well allan, am ysbaid, na'r cardotyn. Ond y mae yr olygfa i newid yn y man: y pryd hyny, "oddiallan y bydd y cŵn." Beth am eu meistriaid?

Nid ydym, ddarllenydd, yn coledd unrhyw eiddigedd at bendefigion. Y mae yn wir eu bod yn meddu miloedd o aceri o'r tir brasaf yn Nghymru, ac nid oes genym ninnau gymaint a "thair acer a buwch" i ymffrostio ynddynt! Ond beth am hyny? Yr ydym yn gadael y Parc eang ac ardderchog hwn gyda'r ymsyniad ein bod wedi ei wir "etifeddu" am dymmor byr. Llonwyd ein hysbryd gan ei geinion. Erys yr adgof am dano yn ddarlun teg ar leni ein cof ar ol i'r *grand entrance* gau arnom, ac wedi i ni gael ein hunain, megys cynt, yn cerdded y ffordd lychlyd sydd wedi ei hordeinio i'r dosbarth cyffredin drwy y byd anwastad hwn i gyfandir llydan Cydraddoldeb!

Barddoniaeth.

EFE A WYR.

(*Cyfieithiad o "He knows."*)

Cafwyd y Penuillion Seisonig yn llogell y Parch. D. Jones Hamer, gan ei briod ar ol ei farwolaeth.

MYFYRDOD AR DDECHREU BLWYDDYN.

Nis gwn beth a ddygwydd i mi,
Fy Arglwydd yn dyner a'i cûdd,
Ac felly pob cam o fy nhaith
Yn newydd olygfa y sydd;
Pob cysur a enfyn Efe—
Rhyw lawen ryfeddod a fydd.

Nis gwelaf un cam o fy mlaen,
Ac eto 'r wy 'n teithio heb fraw;
A fu sy 'n nghadwraeth fy Nuw,
Ei gariad oleua *'r hyn ddaw;*
A r drwg sydd mor dywyll o bell
All glirio pan ddelo gerllaw.

Gall na bydd y drygfyd sy 'n mlaen
Mor chwerw pan ddelwyf i'r fan—
Pereiddio y dyfroedd all Ef
Cyn gorfydd im' yfed fy rhan;
Neu, os Marah yn Farah *raid* fod,
Fe saif Ef ei Hun ar y làn.

Gall fod ganddo y'nghadw i mi
Yn barod, pan ddelo yr awr—
Ryw rodd mor fendigaid ei bri,
Llawenydd mor felus, mor fawr—
Nas gallaf roi 'r diolch mewn trefn,
Na 'i draethu yn iaith daear lawr.

O! ddedwydd ddirgelwch yw bod
Heb wybod y pethau a ddaw!
Gwna im' orwedd mor dawel o fewn
Y breichiau cryf, tyner, heb fraw;
A süa fy ensaid yn nghôl
Y Cyfaill na 'm gollwng o'i law.

'R wy 'n ymdaith heb weled o'm blaen;
Ni fynwn, pe gallwn—gwell fydd:
Gwell bod ganol nos gyda Duw
Na cherdded fy hun ganol dydd;
Gwell rhodio wrth ffydd gydag Ef
Nag hebddo wrth olwg, yn rhydd.

Wrth feddwl am ddrygau all dd'od
Fy nghalon sy 'n crynu mewn braw;
Ac eto—pa drallod ddaeth im'
Na threfnodd ei ddoeth rasol law?
Hyn yra fy nagrau yn ol—
Efe wyr a fu, y sydd, ac a ddaw!

G. P.

Y DYFNDER.

Môr y *Glôb;* ymwriawg lef!—"diwaelod;"
Delw anwn-haddef:
Ddyfnder dwys!—cynnwys gwiwnef—
Nâf,—a'i ddi-làn Feddwl Ef!

JOHN THOMAS JOB

Ammanford.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Morganwg, a gynnaliwyd yn Brychtwn, Tachwedd 14eg a'r 15fed, galwyd sylw y gweinidogion at y priodoldeb o draddodi pregeth yn awr ac eilwaith ar nos Sabboth yn neillduol ar gyfer y bobl ieuainc. Gosodwyd ar yr Ysgrifenydd i anfon llythyr at y Parch. William Williams, Abertawe, i ddatgan llawenydd y frawdoliaeth yn ngwyneb fod ei iechyd wedi ei adfer fel ag i fod yn alluog i ymaflyd eto yn ngwaith y weinidogaeth.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Frycheiniog, a gynnaliwyd yn Capel Isaf, Tachwedd 20fed a'r 21ain, gwnaed sylwadau coffadwriaethol parchus am y diweddar Brifathraw Howells o Drefecca. Ynglŷn â hyn datganwyd llawenydd y frawdoliaeth, ac yn ddiau y Cyfundeb yn y Deheudir, am ddewisiad y Parch. D. C. Davies, M.A., yn olynydd i Mr. Howells. Pasiwyd eu bod "yn llongyfarch Mr. Davies ar ei ddyfodiad i'r Sir, ac yn dymuno iddo hir oes ac iechyd i wasanaethu ei Arglwydd a'r Cyfundeb yn y cylch newydd y mae wedi ei osod ynddo gan Dduw."

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Conwy, a gynnaliwyd yn Nghonwy, Tachwedd 21ain, darllenwyd llythyr o Gyfarfod Misol Manchester, yn cyflwyno yn serchog i'r Cyfarfod Misol hwn y Parch. Owen Evans, yn awr o Colwyn Bay. Rhoddwyd derbyniad cynhes i Mr. Evans, a datganwyd dymuniadau am ei lwyddiant a'i gysur. Cafwyd trafodaeth werthfawr ar y mater penodedig—Gwasanaeth Dirwest i Grefydd. Sylwyd fod lliaws nad oes obaith am eu hadferiad ond trwy ddirwest; fod proffeswyr crefydd sydd yn arfer diodydd meddwol yn rhwystr ar ffordd ennill y cyfryw rai; fod dirwest yn diogelu cymeriad llawer o'n haelodau, y rhai nas gallant fyw crefydd heb lwyrymwrthod; fod dirwest yn faes o ddefnyddioldeb i liaws o'n haelodau, ac o weithgarwch i'n pobl ieuainc. Cafwyd anerchiad gan y Parch. T. J. Wheldon, B.A., ar ran y Drysorfa Gynnorthwyol. Diolchwyd i Mr. Wheldon am ei anerchiad rhagorol.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn Nhrefnant, Tachwedd 22 a'r 23ain, diolchwyd yn gynhes i'r Parch. T. Gee am agor y mater penodedig:—"Dyledswydd rhieni a meistriaid i ofalu am addysg grefyddol eu plant a'u gwasanaethyddion ieuengaf." Gan y teimlid fod y mater hwn yn cyffwrdd âg achos yr anwybodaeth a'r anystyriaeth sydd ar led, penderfynwyd ymdrin âg ef ymhellach yn y Cyfarfod Misol nesaf. Datganwyd tristwch Dinbych â'r Cyfarfod Misol am ymadawiad gŵr mor alluog a gweithgar â'r Parch. T. M. Green, a phenderfynwyd rhoddi llythyr cyflwyniad iddo i Henaduriaeth Mynwy a Morganwg.

Yn Nghyfarfod Misol Llundain, a gynnaliwyd yn Jewin Newydd, nos Fercher, Tachwedd 28ain, coffäwyd yn barchus am farwolaeth y brawd anwyl Mr. David Lewis, yr hwn a fu yn aelod ffyddlawn a gweithgar, a blaenor llwyddiannus a dylanwadol iawn, yn Eglwys Jewin Newydd am lawer o flynyddoedd, ac amlygwyd hiraeth dwfn ar ei ol. Dygwyd tystiolaeth iddo fel dyn o feddwl craff, syniadau eang a chlir, barn addfed, a phenderfyniad dibetrus. Dygai fawr zel dros achos yr Arglwydd yn ei holl ranau, a bu yn nodedig o ffyddlawn i'r Ysgol Sabbothol. Dyoddefodd yn amyneddgar am amser maith, a rhoddodd dystiolaeth ei fod yn mwynhau presennoldeb yr Arglwydd Iesu yn ei gyfyngder olaf. Amlygwyd cydymdeimlad dwfn â'r weddw a'r amddifaid yn eu galar trwm, a phenderfynwyd ysgrifenu llythyr i gyflwyno y teimladau hyn at Mrs. Lewis, yr hon a gollodd hefyd ei mab hynaf—bachgen ieuanc prydferth ac addawol, trwy gystudd byr o tuag wythnos—a hyny ond ychydig amser cyn marw ei phriod.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Conwy, a gynnaliwyd yn nghapel Sïon, Llanrwst, Rhagfyr 5ed a'r 6ed, caed ymdriniaeth helaeth a phwrpasol ar y mater a benodasid—"Ffyddlondeb i egwyddorion Ymneillduaeth."

Yn Nghyfarfod Misol Gogledd Aberteifi, a gynnaliwyd yn Penllwyn, Rhagfyr 6ed a'r 7fed, dygwyd ger bron achos y ddwy Drysorfa, ac wedi gwneyd llawer o sylwadau canmoliaethol, pasiwyd—"Ein bod yn rhoddi annogaeth daer i arolygwyr ein Hysgolion Sabbothol ddwyn achos ein cyhoeddiadau cyfundebol ger bron yr ysgolion; ac hefyd i'n swyddogion eglwysig eu dwyn ger bron ein cynnulleidfaoedd, i'r dyben o helaethu eu cylchrediad."

[Y mae lliaws o Gyfarfodydd Misol eraill yn garedig iawn wedi datgan cymeradwyaeth uchel a rhoddi annogaethau gwresog, gyda golwg ar helaethu cylchrediad y Drysorfa am y flwyddyn 1889. A gawn ni ofyn i'r Cyfarfodydd Misol sydd heb wneyd hyn, fod mor garedig a

galw sylw arbenig ato, mor fuan ag y byddo yn bosibl?—GOL.]

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Uchaf, a gynnaliwyd yn Machynlleth, Rhagfyr 6ed a'r 7fed, hysbysodd y brodyr a fu yn ymweled â'r Parch. Joseph Thomas, Carno, ar gais y Cyfarfod Misol, ei fod yn parhau yn hynod o siriol o ran ei feddwl, a'i fod yn anfon ei gofion caredig at y cyfarfod, ac mai anallu hollol oedd yn ei attal i fod yn bresennol. Pasiwyd fod y cyfarfod yn anfon ei gofion cynhes ato a'i gydymdeimlad âg ef.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

BU farw y Parch. WILLIAM PRYTHERCH, *Ferry Side*, Sir Gaerfyrddin, nos Fawrth, Tachwedd yr 21ain, wedi cyrhaedd i henaint teg, yn bump a phedwar ugain mlwydd oed. Y mae yn debyg nad oedd neb yn fyw wedi teithio cymaint a Mr. Prytherch, nac wedi parhau i deithio am dymmor mor faith. Ac yr oedd ganddo lawer o gymhwysderau i'r gwaith —dawn naturiol helaeth a pharod, arabedd cyflym, tymher nodedig o siriol a hapus, corff cryf a meddwl penderfynol. Bu yn bregethwr poblogaidd am dymmor hir, adnabyddus trwy holl Gymru, a chynnaliwyd ef mewn defnyddioldeb a chymeradwyaeth hyd ddiwedd ei yrfa faith. Gobeithiwn gael Cofiant o hono cyn hir.

AMRYWION.

CYNNALIWYD Cyfarfod Pregethu blynyddol yn Hendre, Sir Gaerfyrddin, Sabboth, Hydref 28ain. Gwasanaethwyd gan y Parchn. William Richards, Llanfynydd, a L. Rhystyd Davies, Cwmbach.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu, Sabboth a nos Lun, Tachwedd 25 a'r 26ain, yn Glandwr, Abertawe. Pregethwyd gan y Parchn. Dr. Saunders, Abertawe; Thomas Rees, Cefn, Merthyr; a Robert Thomas, gweinidog yr Annibynwyr.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Sabboth a Llun, Tachwedd 11eg a'r 12fed, yn Bryncethin. Y gweinidogion a wasanaethent oeddynt y Parchn. J. Morgan, Abercynffig; W. Daniel, Penmark; a W. John, Penybont.

GALWADAU BUGEILIAID.

YN ystod y misoedd diweddaf rhoddwyd galwadau i'r gweinidogion canlynol i'r gwahanol eglwysi a enwir isod. Credwn eu bod oll wedi eu derbyn. Y mae amryw o honynt eisoes wedi symud i faes eu llafur, a'r galwadau wedi eu cadarnhau gan y gwahanol Gyfarfodydd Misol. Y Parchedigion Hopkin Howe, i Abergwynfi, Gorllewin Morganwg; Lodwig Lewis, Sciwen, i Fforest, Aberdulais; William Benjamin, Aberystwyth, i eglwysi Adfa a Llanwyddelen; David Hoskins, M.A., Llanrhaiadr, i Bethania, Corris; Pierce O. Pierce, Jerusalem, Arfon, i Benucheldref, Môn; John Robert Evans, Wigan, i Tyldesley a Warrington; J. Puleston Jones, B.A., Bala, i eglwys Seisonig Princes' Road, Bangor; E. C. Evans, Trefforest, i Carmel, Sir Frycheiniog; E. J. Williams, Llanwyddyn, i Llandrillo; O. Parry Owen, Abermaw, i Tregynon; John Roberts, Rhuallt, i Corris ac Esgairgeiliog; Robert Roberts, Tyldesley, i Gorphwysfa a Minfordd; Thomas Thomas, Dolgellau, i Eglwys Seisonig Towyn Meirionydd; E. J. Evans, Llanbedr, i Nazareth, Penrhyndeudraeth.

Nodiadau Misol.

COFEB YR ESGOB MORGAN.

Y MAE Pwyllgor yr uchod yn alluog i gynnyg gwobr o £100 am Draethawd ar "Esgob Morgan a'i Amserau." Am fanylion anfoner at y Parch. Dr. Dickens Lewis, Shrewsbury.

Y FYDDIN IACHAWDWRIAETH.

BETH bynag a feddylir am waith y "Fyddin," rhaid addef fod "*General* BOOTH," fel y gelwir ef, yn ddyn annghyffredin iawn. Y mae milwyr ei Fyddin yn filoedd a myrddiynau, bron yn mhob parth o'r byd. Gwneir parotöadau ganddo yn awr i ymosod ar China. Fel y canwriad, ni raid iddo ond dyweyd wrth y swyddog hwn "Cerdda, ac efe a ä," ac wrth y llall "Tyred, ac efe a ddaw," ac wrth y trydydd "Gwna hyn, ac efe a'i gwna." Llywodraetha holl ysgogiadau y gyfundrefn anferth hon, yn ngwahanol wledydd y byd, bron gyda manyldeb milwraidd. Gellid meddwl ei fod wedi ei eni i deyrnasu. Deil yr holl awenau mewn llaw ddigryn. Rhaid fod ganddo lygad craff a gweledïad eang, ewyllys gref, a llawer iawn o synwyr a medr ymarferol fel gweinyddwr.

Credwn y buasai Carlyle yn ei edmygu fel "gwron," ar gyfrif y *nerth* a amlyga. Bron na ddywedem ei fod yn engraifft o fanteision llywodraeth unbenaethol, ond i'r unbenaeth fod yn ddyn ddigon cryf a da i'r sefyllfa.

Y mae y Cadfridog yn awr wedi cael gafael ar un o'r pethau mwyaf prin—drychfeddwl newydd. Ac y mae, mewn gwiricnedd, yn ddrychfeddwl ardderchog. Yr ydym bron meddwl mai yn awr y mae y Cadfridog wedi adnabod ei ddawn a'i waith. Ymddengys ei fod wedi credu yn y gwirionedd yr athrawiaethodd Charles Kingsley gymaint arno—er nad yw teyrnas Dduw *yn* "fwyd a diod," eto fod ei dyfodiad yn sicr o ddwyn i'w ganlyn ymborth i'r newynog, dillad i'r noeth, glanweithdra ac iechyd yn lle budreddi a chlefydau, ymgeledd a chysuron tymmorol—pob peth sydd yn rhoddi gloywder i fywyd, ac yn dyrchafu bywyd i *level* uwch. O! y mae ein calonau yn gwaedu wrth feddwl am *drueni Llundain*—ysbrydol a thymmorol! Ac os dywedir fod y naill yn achos o'r llall, yr hyn sydd wir am filoedd, rhaid cofio fod miloedd eraill yn byw yn onest a rhinweddol, nad yw bywyd yn golygu dim iddynt ond anadlu (a'r rhan fwyaf o'r anadliadau yn ocheneidiau), pryderu, wylo, gweithio ddydd a nos pan y cânt, ac er y cwbl prin yn gallu dal corff ac enaid ryw lun wrth eu gilydd, a lluaws yn llythyrenol yn marw o newyn. Meddylier am y gwragedd a'r plant bychain diniwed sydd yn ymddybynu arnynt, a'u gwynebau gwelw yn dalgos eu bod yn hanner newynu! Dyma un o *broblems* mwyaf difrifol ein hamser, a da genym weled ei bod yn ennill sylw cynnyddol Eglwys Crist—Trueni Llundain. Hi fyn sylw yn y naill fordd neu y llall.

Y mae y Cadfridog Booth, fel pen y Fyddin Iachawdwriaeth, wedi gwneyd cynnygiad beiddgar i'r Llywodraeth, gyda golwg ar galedi a thrueni, yn gystal a drygioni, Llundain. Anfonodd Gofeb at yr Ysgrifenydd Cartrefol yn gofyn am i'r Llywodraeth roddi *grant* o £15,000 i'r Fyddin i'w chynnorthwyo yn y gwaith o waredu y rhai a lusgir i angeu, ac o ddarparu Ystorfeydd *(Depots)* i roddi ymborth a lletty i drueiniaid, er nad am ddim, eto am y nesaf peth i ddim. Y mae y Fyddin eisoes wedi dechreu yn llwyddiannus ar y gwaith. Yn y ffurfiau isaf o eisieu sydd yn gyru dynion i droseddau a benywod i fywyd o warth, y mae y Fyddin yn ceisio neidio i'r cyfwng a sefyll rhwng y temtiedig a'r demtasiwn, trwy roddi anghenrheidiau bywyd iddynt am ddim ond enw o bris. Y mae ganddynt ystafell lân a chynhes yn y *West India Dock Shelter*, lle y gall crwydriaid newynog a digartref gael llety am geiniog y noson, a chael rhywbeth i'w fwyta am o ffyrling i geiniog. Bwriedir agor cyffelyb ystafelloedd mewn rhanau eraill o'r Brifddinas, ac mewn dinasoedd eraill. Cedwir mewn golwg yn neillduol waredu trueiniaid rhag myned i'r tai cyffredin ac isel o lettyau sydd yn Llundain, y rhai sydd, filoedd o honynt, yn ffauau o anfoesoldeb. Dywedir fod Mr. Matthews wedi rhoddi sicrwydd boddhaol y caiff y cynnygiad "sylw goreu" y Llywodraeth. Gobeithio fod hyn yn golygu mwy na'r atebiad ystrydebol. Nid ydym yn cytuno â'r rhai sydd yn galw y cynllun hwn yn "Eglwys Sefydledig Newydd." Ac os dyna ydyw, pob llwyddiant iddi, meddwn ni!

TYSTEB I DR. ANDREW BONAR.

Anrhegwyd Dr. Bonar yn ddiweddar, ar Jiwbili ei weinidogaeth, â dysgl arian *(silver salver)*, ac â'r rhodd ardderchog o *Bedair Mil* o bunnau. Darllenwyd cyfarchiad iddo yn y cyfarfod oddiwrth Henaduriaeth Glasgow. Y mae Dr. Bonar yn weinidog yn Glasgow, mewn capel ardderchog, a'r eglwys yn rhifo tua mil o aelodau. Yr ydym yn deall fod ei ysbryd addfwyn ac efengylaidd yn ei wneyd yn gymeriad tra hoffus. Dywedir fod ynddo wreichionen o athrylith ddiammheuol, a bod ei bregethau yn fynych yn îrlawn o farddoniaeth. Ymlyna yn ffyddlawn wrth dduwinyddiaeth y Cyffes Ffydd Henaduriaethol.

Y PARCH. JOHN MC NEILL.

Bu y pregethwr poblogaidd hwn yn pregethu yn Llundain ddwywaith, ar ol cael yr alwad o Eglwys Regent Square. Sabboth oedd un o'r ddau dro, boreu a hwyr, a hyny yn nghapel anferth Mr. Spurgeon, yr hwn sydd wedi gorfod myned eto i Mentone am ychydig, o herwydd ei iechyd. Boreu Sabboth, Rhagfyr 9fed, gosodwyd ar *Claudius Clear*—un o ysgrifenwyr mwyaf talentog y *British Weekly*, a beirniad rhagorol, dybygem, ar yr hyn a ddarllena ac a wrandawa—i fyned yn un pwrpas (fel beirniad, y mae'n debyg) i'r *Tabernacle* i wrando arno. Rhydd adroddiad dyddorol iawn o'r odfa. Ni oddef ein terfynau i ni ond rhoddi swm ei feirniadaeth mewn ychydig o'i eiriau ef ei hun. Dyma a ddywed:—"Yr oedd y boreu yn un oer a digalon, o ran y tywydd. . . .

Hefyd, yr oeddwn wedi clywed Mr. Mc Neill amser yn ol yn rhoddi araeth fer, yr hon nad oeddwn yn ei hedmygu. Yr oedd efe heddyw i sefyll yn lle uchel un o areithwyr blaenaf yr oes hon ac unrhyw oes. Nis gellid dychymygu am faen-prawf mwy llym. Ond nid wyf yn credu fod yn ddrwg gan neb fod wedi dyfod yno, wrth fyned allan o'r capel—nid oedd yn ddrwg genyf fi, beth bynag. Nis gallaf gredu y gallasai yr un dyn o ddeall cyffredin wrando ar hyawdledd ardderchog a chynneuol y pregethwr heb weled, os gall ddal i fyny ei safle bresennol, y bydd raid iddo fod yn un o *pulpit forces* blaenaf y genedlaeth hon, os nad *y* blaenaf."

PRINCIPAL EDWARDS YN LLUNDAIN.

O DAN y penawd uchod rhydd Gohebydd yn y *British Weekly* adroddiad o'i ymweliad â'r capel newydd yn Charing Cross Road, yr hwn a adeiladwyd yn lle Capel Nassau Street, Llundain, i wrando yr unig bregeth Seisonig a draddodwyd yn ystod y cyfarfodydd agoriadol, y rhai a estynent dros ddau neu dri o Sabbothau. Pregethwyd gan y Parchn. Dr. Thomas, y Prifathraw D. C. Davies, M.A., a Dr. Hughes. Boreu Sabboth, Tachwedd y 25ain, traddodwyd pregeth Seisonig gan y Prifathraw Edwards, D.D., Aberystwyth, oddiar Heb. xii. 1. Dywed y gohebydd hwn fod y capel yn orlawn o bobl, gwŷr ieuainc Cymreig luaws mawr, meddai, "y rhai a hongient wrth wefusau eu cydwladwr enwog." Yna rhydd ddesgrifiad dyddorol o'r gwasanaeth dechreuol, a chrynodeb da o brif feddyliau y bregeth. Diwedda ei adroddiad gyda'r geiriau hyn:—"Nid yw hyn yn rhoddi ond syniad anmherffaith iawn o un o'r pregethau mwyaf *impressive* a wrandewais I erioed; ac ni wnai hyd yn nod adroddiad cyflawn o bob gair ond methu mewn rhoddi syniad cywir am Dr. Edwards fel pregethwr. Digon yw dyweyd fod y bregeth wedi ei llenwi yn dŷn o feddyliau newydd a tharawiadol, wedi eu gwisgo mewn Saesoneg cryf a phrydferth, rhanau o honi yn cael eu traddodi â holl glirder esboniwr coethwych, a rhanau eraill â holl wresogrwydd angerddol prophwyd. Y mae yn amlwg mai Cymru eto yw gwlad pregethwyr." [Cyhoeddwyd y bregeth yn gyflawn yn y Rhifyn am Tachwedd 30 o'r *British Weekly Pulpit*.]

Y GYNNADLEDD AR ADDYSG.

DECHREUODD y Gynnadledd hon ei chyfarfodydd, boreu Mawrth, Tachwedd 19eg, yn *Lower Exeter Hall*. Siaradwyd gyda grymusder mawr yn erbyn Adroddiad y mwyafrif o'r Dirprwywyr ar Addysg, a'u hymgais i yru deddfwriaeth yn ei hol ar y pwnc o addysg anenwadol. Dywedir fod Dr. Dale wedi rhagori ar bawb. Derbyniwyd ef a'i areithiau gyda brwdfrydedd dirfawr. Siaradwyd hefyd yn rhagorol gan Dr. Bruce a Dr. Crosskey. Cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn *Exeter Hall* yn yr hwyr. Penderfynodd y Gynnadledd gyhoeddi Adroddiad o'r gweithrediadau, ac hefyd ffurfio Cyfeisteddfod i'r dyben o ddwyn ymlaen amcanion addysg rydd ac anenwadol, ac i fod bob amser ar wyliadwriaeth rhag pob ymgais i wrthweithio yr amcanion hyn.

Y GYNNADLEDD AR BREGETHU.

ENW Dr. Parker, fel y mae yn hysbys, sydd wedi bod ynglŷn â'r Gynnadledd hon o'r dechreu, fel ei chynllunydd cyntaf, neu o leiaf un o'i phrif gynllunwyr. Yn ei gapel ef, y *City Temple*, y cynnaliwyd hi gan mwyaf. Prif destynau yr areithiau a'r papyrau oeddynt:—Ennill eneidiau ac nid pregethu dadleuol—fod yn bosibl llenwi capelau heb ddychwelyd pechaduriaid—pregethu efengylaidd—yn erbyn pregethu i foddio y cri am gynhyrfiad y teimladau—pregethu byr—Anwybyddiaeth. Siaradodd Dr. Stevenson yn gryf o blaid pregethu byr. Atebodd Dr. Fairbairn hyn trwy bregethu nos Fawrth i gynnulleidfa fawr yn y *City Temple*, am dros awr, a hyny meddir heb flino ei wrandawyr.

Byrnodion Amrywiaethol.

SONIR llawer am ddyfnder y môr. Beth yw ei ddyfnder? Y dyfnder mwyaf a ddarganfyddwyd sydd yn Môr y Werydd (deheuol), rhwng Rio de Janeiro â Penrhyn Gobaith Da, yr hwn a fesura yn agos i naw milldir.

Costiodd rhyfel y Crimea i'r deyrnas hon hanner can' miliwn o bunnau.

Ardreth tir llafur yn Lloegr, bum' can' mlynedd yn ol, oedd chwe' cheiniog yr acer.

Dywedir fod yr haul yn rhoddi cymaint o wres allan ar bob eiliad, ag a fyddai yn gyfartal i losgiad yn agos i ddeuddeng miliwn o filiynau o dunelli o lô.

Yr oedd y ddiweddar Dduces Sutherland yn ddirwest-wraig zelog, a phob amser yn gwisgo y ruban glas.

Yr oedd y cyllid y flwyddyn ddiweddaf oddiwrth werthiant tê, coffi, a *cocoa* yn £169,383 fwy nag a allesid ei gyfrif oddiwrth gynnydd y boblogaeth. Priodolir hyn mewn rhan fawr i'r cyfnewidiad sydd wedi cymeryd lle yn marn y cyhoedd am ddiodydd meddwol.

Dywedai Dr. W. B. Richardson, mewn darlith yn ddiweddar, fod dirwest yn fantais fawr tuag at hirhoedledd. Sylwai fod pob math o annghymedroldeb—mewn geiriau, gweithredoedd, tymher, ac hyd yn nod meddwl, yn milwrio yn erbyn yr hyn a elwir yn awr yn *storage of life*—neu fyw i fyned yn hen.

Elfen neillduol o fawredd yn nghymeriad Duc Wellington oedd ei onestrwydd trwyadl, a'i ffyddlondeb i wirionedd. Yn ei sylwadau ar bersonau mewn cyfeillach neu yn swyddogol, dywedai yn hollol yr hyn a farnai efe oedd y gwirionedd. Nis gallai edrych ar ddim ond yr hyn oedd yn *ffaith*. Ni chât ei deimlad o blaid neu yn erbyn dyn wyro trwch blewyn ar ei farn. Ac yr oedd llymder y cymeriad milwraidd wedi ei uno ynddo ef â chalon dyner. Pan oedd swyddog meddygol y fyddin yn darllen iddo, ar ol brwydr Waterloo, restr hir o'r lladdedigion o fyddin Lloegr,—wedi bod yn darllen am awr o amser, dygwyddodd edrych ar y Duc, a gwelai ef â'i ddwylaw yn mhleth yn cael eu gwasgu yn dyn, a'r dagrau yn llifo dros ei ruddiau. Meddai hefyd gryn fesur o arabedd miniog a digrifol. Pan oedd esgobaeth unwaith wedi myned yn wag, anfonodd rhyw glerigwr ato a fyddai yn arfer gofyn ffafrau, ac un nad oedd yn uchel yn nghyfrif y Duc. Ysgrifenodd fel hyn:—*My Dear Duke: A word from you, and I am a Bishop. I remain, &c.*—Atebodd y Duc ef yn fyrach fyth, ond yn ddiamwys:—*My Dear Sir: Not a Word. Yours, &c.*

Cofnodau Cymanfaol.

CYMDEITHASFA Y DYFFRYN,

Rhagfyr 11, 12, a'r 13eg, 1888.

Llywydd,—Y Parch. William James, B.A., Manchester.

Dydd Mawrth, Rhagfyr 11eg.

Am 2 o'r gloch, Cyfeisteddfod Cyffredinol y Gymdeithasfa.

I. Galwyd enwau y Cynnrychiolwyr.

II. Derbyniwyd Cenadwriaethau.

III. *Ethol Llywydd.*—Etholwyd fel Llywydd am y flwyddyn nesaf y Parch. John Pritchard, Amlwch.

IV. *Ymddiriedolwyr Newyddion.*—Rhoddwyd rhybudd, yn ol cenadwri o Gyfarfod Misol Arfon, y byddis yn y Gymdeithasfa nesaf yn penodi ymddiriedolwyr newyddion ar eiddo y Cyfundeb yn Llanrug. Rhoddir y rhybudd hwn yn y Gymdeithasfa er mwyn gwneyd y penodiad yn rheolaidd dan ddeddf Peto. Ceir sylw ar y mater yma yn y Gymdeithasfa nesaf, er gweled a ydyw hyn yn anghenrheidiol.

V. *Ysgolion Gwrth-Babyddol Sir Fflint.*—Darllenwyd Adroddiad gan Gyfarfod Misol Sir Fflint ar yr Ysgolion Gwrth-Babyddol. Ar ol ymddyddan hir, penderfynwyd,—Ein bod yn annog yr holl Gyfarfodydd Misol i roddi ar hyn o bryd yn ol y rhaniad a wnaethpwyd rai blynyddau yn ol, ynghyd ag annog Sir Fflint a Dinbych i barhau ac i gynnyddu yn eu zel o blaid yr ysgolion hyn. Hefyd fod y Gymdeithasfa yn anfon y Parchn. Daniel Rowlands, M.A., a T. J. Wheldon, B.A., i ymweled dros y Gymdeithasfa â'r ysgolion hyn, ac i ddwyn adroddiad arnynt ymhen blwyddyn.

VI. *Model Deeds.*—Galwyd sylw at y cyfnewidiadau sydd yn anghenrheidiol yn *Model Deeds* y Cyfundeb i gyfarfod â'r ddeddf yn ei ffurf bresennol. Gobiriwyd sylw pellach ar y pwnc hyd drannoeth.

VII. *Cynnygion y Mwyafrif ar Ddirprwyaeth Addysg.*—Nodwyd y Parchn. Daniel Rowlands, M.A.; Griffith Ellis, M.A.; Hugh Williams, M.A.; T. J. Wheldon, B.A., a David Evans, M.A., Abermaw, i dynu i fyny benderfyniad ar y pwnc i'w gynnyg yn y cyfarfod nesaf. (Gwel Penderfyniad XXIX.)

VIII. *Hanes yr Hen Bregethwyr.*—Cymeradwywyd cenadwri o Orllewin Meirionydd, yr hon a gefnogwyd gan Gyfarfodydd Misol Dwyrain Meirionydd, Sir Fflint, a Threfaldwyn Isaf. Hysbyswyd fod Dr. Owen Thomas wedi dadgan ei foddlonrwydd i gyhoeddiad y gyfran o Gofiant y Parch. John Jones, Talysarn, a nodir yn y penderfyniad; ac hefyd fod Mri. Hughes, Wrexham, yn foddlawn i ymgymeryd â'r gwaith, ac i'w gyhoeddi oddiar *stereotyped plates* yr argraffiad presennol am swllt mewn amlen, a deunaw mewn llïan; neu, os gellir sicrhau gwerthiant o filoedd, maent yn barod i ddwyn allan y llyfr am chwe' cheiniog mewn amlen, a swllt mewn llïan. Penodwyd y Llywydd presennol a'r Llywydd etholedig, y Trysorydd, a'r Ysgrifenydd, i fod yn Bwyllgor i drefnu ar gyfer cyhoeddiad y llyfr.

IX. *Llyfr Tonau Cynnulleidfäol.*—Wedi ychydig ymddyddan ar genadwri o Drefaldwyn Isaf mewn perthynas â chyhoeddi Llyfr Tonau Cynnulleidfäol, penderfynwyd,—Fod y mater hwn yn cael ei anfon i'r gwahan ol Gyfarfodydd Misol i ofyn am eu llais ar y priodoldeb o gael llyfr tonau newydd, neu argraffiad newydd a rhatach o'r hen lyfr.

X. *Pwnc Cyfarfod y Pregethwyr.*—Penodwyd y Llywydd a'r Parch J. Hughes, D.D., i drefnu testyn Cyfarfod y Pregethwyr drannoeth.

XI. *Achos Enlli.*—Gosodwyd yr achos hwn ger bron gan Mr. R. Rowland, U.H., Pwllheli; sef cais ar ran Cyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd am i Mr. William Jones, Gweinidog Enlli, gael ei ordeinio fel cenadwr yn yr ynys anghyfannedd hono. Cafwyd ymddyddan helaeth ar y pwnc, ond gohiriwyd dyfod i benderfyniad terfynol arno. (Gweler Penderfyniad rhif XVII.)

Terfynwyd gan y Llywydd trwy weddi.

Am 6 o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.

Dechreuwyd gan y Parch. D. Jones, Gwyddelwern.

XII. *Arholiad Cymdeithasfäol.*—Darllenwyd yr Adroddiad dilynol o'r Arholiad Cymdeithasfäol am eleni :—

Cynnaliwyd yr Arholiad hwn eleni fel arferol, ar yr un amser yn Ngogledd a Deheudir Cymru, yn Wrexham ac Abertawe, Hydref 15, 16, a 17. Caed pedwar eisteddiad —o dair awr yr un, yn dechreu nos Lun, Hydref 15fed, am 6 o'r gloch; yna boreu Mawrth, nos Fawrth, a boreu Mercher. Testynau y pedwar papyr oeddynt :—1. Gwybodaeth Gyffredinol ynghylch yr Ysgrythyrau; 2. *Esboniadaeth:* 1 Cor. xv.; 3. *Duwinyddiaeth:* Athrawiaeth y Drindod; 4. *Hanesiaeth Eglwysig:* Anselm—ei Fywyd, ei Amseroedd, a'i Olygiadau. Yr oedd eleni gynifer a 38 o ymgeiswyr—25 o'r Deheudir, a 13 o'r Gogledd —y nifer mwyaf fe allai a fu yn sefyll Arholiad unedig y ddwy dalaeth. Er fod rhai o'r papyrau o bosibl ychydig yn galetach nag arferol (o herwydd fod rhai o'r materion yn dygwydd bod yn fwy anhawdd), yr oedd yn dda genym weled fod nifer mawr o'r ymgeiswyr wedi llafurio yn y gwahanol faterion gydag ymroddiad tra chanmoladwy, Yr oedd papyrau rhai o honynt yn profi fod eu gwybodaeth, o ran eangder a manylrwydd, yn fwy na'r hyn oedd yn anghenrheidiol i roddi atebion cywir i'r cwestiynau. Parhasant hefyd yn y gwaith llafurus o ysgrifenu eu hatebion, trwy bedwar eisteddiad o dair awr yr un, yn ymroddgar a siriol hyd y diwedd. Gobeithiwn y bydd y llafur hwn, nid yn beth i fyned trosodd gyda'r achlysur, ond yn symbyliad iddynt i barhau a myned ymlaen yn yr un cyfeiriad gydag ymroddiad mwy fyw. Da genym hysbysu fod 31 wedi pasio yr Arholiad yn llwyddianus, sef y rhai canlynol, y rhai a roddir yma yn nhrefn eu teilyngdod :—1. Hugh Ellis, Pennal; 2. M. J. Mills, Mountain Ash, a J. O. Thomas, M.A., Liverpool; 4. P. D. Morse, Pendine; 5 John Roberts, Llanfaethlu; 6. J. Daniel Evans, Tabernacl; 7. Abraham Oliver, Taliesin, ac Owen M. Jones, Talsarn; 9. John T. Evans, Llandyssul; 10. Evan Rowland, Varteg; 11. J. R. Evans, Prestatyn; 12. Daniel Davies, Defynog; 13. J. J. Hughes, Llidiardau; 14. John Morgan, Abercynffig; 15. Walter Daniel, Cowbridge; 16. J. E. Jones, Cynfal; 17. David Morgan, Ystrad Rhondda; 18. John Williams, Minlom; 19. Lewis Lewis, Ystrad Rhondda; 20. T. W. Jones, Beaufort, a William Jones, Nazareth, Llwynhendy; 22. Morgan Davies, Mothrey; 23. D. Ll. Owen, Gwyddelwern; 24. Thomas Evans, Tanygroes; 25. W. P. Jones, Llanddeusant; 26. David Lloyd, Salem; 27. W. P. Jones, Pandy Tudur; 28. Alfred Williams, Haverfordwest, a B. Ceitho Davies, Llanpumsaint; 30. Edward Cooper, Connah's Quay; 31. John Jenkins, Llechryd. Felly, gwelir fod *saith* o'r ymgeiswyr wedi bod yn aflwyddiannus y tro hwn. Credwn ein bod yn cydymdeimlo â'r cyfeillion hyn lawn cymaint, os nad mwy, na neb arall. Tra yr oeddym yn ymgadw rhag pob llymder afreidiol, ac yn dymuno arfer pob tynerwch y gallasem yn gydwybodol ei arfer, eto yr ydym dan rwymau i dystio nas gallasem weithredu yn wahanol, os yw yr Arholiad i fod yn sylwedd ac nid yn ffug. Ac os bydd i'r methiant hwn gael ei effaith briodol ar ein brodyr ieuainc, try allan i fod yn fwy o les iddynt yn y pen draw na phe buasent wedi pasio.—Arwyddwyd,—G. Parry, D.D., John Jones, D. Charles Davies, M.A., a Joseph Evans, *Arholwyr.*

Penderfynwyd fod y Parch. Griffith Ellis, M.A., Bootle, yn cael ei benodi yn Arholwr am y ddwy flynedd nesaf.—Darllenwyd llythyr oddiwrth y Parch. D. Charles Davies, M.A., Prifathraw Coleg Trefecca, yn ymddiswyddo fel Arholwr, oblegid fod nifer o fyfyrwyr Trefecca yn ymgeiswyr yn yr Arholiad Cymdeithasfäol bob blwyddyn. Penodwyd y Parch. John Hughes, D.D., i fod yn Arholwr y flwyddyn nesaf yn lle y Parch. D. C. Davies.—Diolchwyd yn gynhes i'r Parchn. D. Charles Davies, M.A., a John Jones, F.R.G.S., am eu gwasanaeth ffyddlawn fel Arholwyr.—Diolchwyd hefyd i gyfeillion Wrexham, ac yn arbenig i'r Parch. H. Barrow Williams, am eu caredigrwydd tuag at, a'u gofal am yr ymgeiswyr a'r Arholwyr.

Pynciau yr Arholiad nesaf :—1. Gwybodaeth gyffredinol am yr Ysgrythyrau, yr hyn sydd yn cynnwys eu dilysrwydd, eu hawduriaeth, eu canoniaeth, a'u hysbrydoliaeth. Yr Arholwr, y Parch. Griffith Ellis, M.A.—2. Un llyfr neu ran o lyfr o'r Hen Destament neu y Newydd. Gen. xi. 27 i Gen. xxv. 10. Darllener Mozley's *Lectures on the Old Testament*, Dr. Dykes' *Abraham*, Deane's *Abraham, his life and times*, ynghyd ag unrhyw esboniad da ar Genesis. Arholwr, y Parch. Joseph Evans, Abertawe.—3. Rhyw bwnc neilldiol mewn Duwinyddiaeth, yn athrawiaethol a hanesyddol. Darostyngiad Crist. Darllener *The Humiliation of Christ*, by Bruce, Martensen's *Christian Dogmatics*, Hodge's *Systematic Theology*, y *Geiriadur Ysgrythyrol.* Arholwr, y Parch. John Hughes, D.D. —4. Rhyw gyfran o Hanesiaeth Eglwysig a benoder. Luther a'r Diwygiad Protestanaidd. Darllener y pedwar llyfr cyntaf o D'Aubigne's *History of the Reformation*, neu unrhyw lyfr llai ei faint ag sydd yn cynnwys yr hanes. Arholwr, y Parch. William Jenkins, M.A., Tyddewi.

XIII. *Y Gymdeithasfa nesaf.*—Hysbyswyd fod y Gymdeithasfa nesaf i gael ei chynal yn Mhont Menai, Ebrill 9, 10, a'r 11eg, sef dydd Mawrth, Mercher, ac Iau. Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa i gyfarfod am ddau o'r gloch dydd Mawrth y 9fed.

XIV. *Llywydd Etholedig.*—Hysbyswyd mai y Parch. John Pritchard, Amlwch, yw y Llywydd etholedig am y flwyddyn nesaf. Cadarnhawyd y dewisiad.

XV. Cadarnhäwyd penderfyniadau rhif III. hyd X. o weithrediadau Cyfeisteddfod Cyffredinol y Gymdeithasfa.

XVI. *Model Deed.*—Awdurdodwyd John Bryn Roberts, Ysw., A.S., Bangor, i wneyd y cyfnewidiadau anghenrheidiol yn *Model Deeds* y Cyfundeb fel ag i'w cyfaddasu at ofynion y ddeddf fel y mae yn bresennol.

XVII. *Achos Enlli.*—Ar ol i amryw gynnygion, gyda golwg ar yr achos hwn, gael eu gwneuthur, cydolygwyd yn unfrydol ar y penderfyniad canlynol :—Fod y Gymdeithasfa, yn herwydd amgylchiadau cwbl eithriadol yr achos yn Ynys Enlli, yn gystal ag o herwydd y gymeradwyaeth a roddir i lafur y Cenadwr yno er's llawer o flynyddoedd, yn barnu mai doeth fyddai rhoddi awdurdod i Gyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd, os bydd y Cyfarfod Misol yn gweled yn briodol i'w ordeinio ef.—Penderfynwyd hefyd,—Fod cydymdeimlad y Gymdeithasfa yn caei eiddadgan tuag at yr Anrhydeddus Frederick G. Wynn, Glynllifon Park, ar farwolaeth ei dad, y diweddar Arglwydd Newborough.

XVIII. *Coffadwriaeth Esgob Morgan.*—Galwyd sylw drachefn at y mater hwn, a dymunwyd yn daer ar i'r Cyfarfod Misol gymeryd y pwnc dan sylw, rhag i ni fel Ymneilduwyr a Methodistiaid syrthio yn fyr o gyflawni ein rhan gyda'r achos teilwng hwn.

XIX. *Achos Addysg yn Nghynwyd.*—Rhoddwyd Adroddiad cryno am orthrwm a thrais yr Eglwyswyr yn ardal Cynwyd, ynglŷn âg Addysg yn y gymydogaeth. Mewn canlyniad penderfynwyd,—Ein bod yn dwys gydymdeimlo â chyfeillion addysg anenwadol yn Nghynwyd, y rhai wedi cyfranu yn ol eu gallu at adeiladu ysgol yn eu cymydogaeth, a gawsant ei bod, yn ddiarwybod iddynt, wedi ei throsglwyddo i fod yn Ysgol Eglwys Loegr, ac er talu treth wirfoddol at ei chynnal, ac fod eu plant yn 16C o'r 193 oedd yn yr ardal o oedran myned i ysgol, eto na chaent unrhyw lais yn ei llywodraethiad; a phan ddangosent anfoddlonrwydd i barhau dan y fath amgylchiadau i dalu y dreth, cauwyd yr ysgol rhag eu plant, heb iddynt dalu 3c. yr wythnos am eu haddysg, tra na chodid ond 2c. ar blant eraill. Deallwn i'r plwyfolion, trwy fwyafrif mawr, benderfynu cael Bwrdd Ysgol, ac iddynt hefyd ethol Bwrdd Ysgol, ond i awdurdodau y Cynghor Addysg ommedd *grant* i'w hysgol am na ystyrient yr ystafell yn gymhwys, a gommedd iddynt hefyd gael codi arian ar y trethi i adeiladu ysgol dan y Bwrdd, er nad oedd lle yn ysgol yr Eglwys ond i 135 o'r 193 o blant o oedran myned i'r ysgol oedd yn y gymydogaeth. Yr ydym yn gwrthdystio yn erbyn y gorthrwm hwn o eiddo y *Rector*, ac hefyd yn erbyn ymddygiad annheg y Cynghor Addysg; yr ydym hefyd yn mawr lawenhau fod ein cyfeillion yn Nghynwyd yn myned ymlaen yn galonog i adeiladu ysgoldy cyfleus, yr hwn a fwriadant gyflwyno yn ddiddyled i'r Bwrdd, a diammeu genym y bydd yn dda gan lawer o gyfeillion addysg rydd eu cynnorthwyo yn eu hymdrech glodwiw.

(I barhâu.)

Bywgraffiaeth.

Y DIWEDDAR BARCH. ABIAH DAVIES, LLWYNHENDY, LLANELLI.

Gan y Parch. WILLIAM LEWIS, *Cwmpark.*

ANFYNYCH y daw i ran neb gofnodi marwolaeth ac adolygu bywyd âg ynddynt gymaint o ddyddordeb llon a phruddaidd ag eiddo ein cyfaill anwyl uchod. Gyda'r eithriad, fe allai, o'r seren ddysglaer hono, ein cyd-efrydydd a'n cyfaill mynwesol, y diweddar Barch. David Morgan, Cefn, Merthyr, nid ydym yn gwybod am neb o'n gweinidogion ieuainc, yn ystod y deng mlynedd diweddaf, gododd fwy ar ddysgwyliadau, ac y parodd ei farwolaeth fwy o siomedigaeth i'n Cyfundeb, nag Abiah Davies. Ac yn awr, pan newydd ddychwelyd oddiwrth ei fedd megys, mewn hiraeth calon ar ei ol, a phrin wedi cael hamdden i sychu ymaith ddeigryn oddiar ein grudd iau, priodol ydyw talu y deyrnged hon o barch diffuant i'w goffadwriaeth, a'i rhoi i gadw yn y DRYSORFA, er mantais, fe allai, i'r oesoedd a ddeuant ar ol.

Fel y rhan fwyaf o feibion athrylith, dechreuodd Abiah yrfa bywyd yn dra isel, iselach na'r cyffredin, fe allai, o honynt hwy. Oblegid wedi ei eni o rieni tlawd, o'r enwau Richard a Rachel Davies, yn Ffair-fach, Llandeilo, collodd y ddau drwy angeu ymhen pedair blynedd. Gan nad oedd ganddo gâr na chyfaill a allasai, neu a ewyllysiai, ofalu am dano yn yr oedran tyner o bedair oed, cawn Abiah fychan yn ngofal y plwyf ac yn Nhlotty Llandeilo. Clywsom fod y Tlotty hwnw wedi cael y fraint cyn hyny o fagu bachgen athrylithgar arall—y diweddar Barch. T. Penry Evans, Pontardulais. Cofiwn yn dda y tro cyntaf y cawsom ymgom âg Abiah, iddo grybwyll wrthym am Dlotty Llandeilo fel y lle y cofiai ei hun gyntaf bron yn y byd. Nid cywilydd ganddo byth "y graig ei naddwyd, a cheudod y ffos y cloddiwyd ef o honi." Nis gallasai fod yn ddiraddiad iddo, ac yr oedd yntau mor unplyg.

Gwedi saith mlynedd o addysg o'r fath ag a geid yn y Tlotty, ac efe eto ond 11 oed, cawn ef yn egwyddorwas i âf gerllaw; ac ymhen tair blynedd symudodd i Cwmaman, at un Morgan Richard, gôf arall, ac yno y bu hyd 1880, gyda'r eithriad o flwyddyn. Yn ei ddyddlyfr canmola "Morgan a'i wraig" am eu caredigrwydd tuag ato, "yn neilduol yr olaf," meddai. Clywsom ef yn dyweyd fod ganddo fel gôf "well llygad na llaw." Yn y gorchwyl o hoelio esgidiau yn unig yr oedd ei law a'i lygad yn cydfyned—fod ei *ideal* am bob gorchwyl arall, perthynol i grefft gôf,

ymhell uwchlaw ei gyrhaedd, i'w foddhau ei hun. Diolch i awdurdodau Tlotty Llandeilo, ac yn neillduol i "Morgan a'i wraig" garedig, am wneyd eu goreu i gymhwyso ein cyfaill hoff i ennill yn onest ei ymborth a'i ddillad. Mynent hwy iddo fod yn ôf da. Ac o ran a wyddai eraill, i'r cyfeiriad hwnw yr oedd nodwydd cwmpawd ei fywyd ef yn cyfeirio. Gyda'i alluoedd ef, a'r yni a'r ymroddiad ddangosodd mewn cyfeiriad arall wedi hyn, pwy a ŵyr na allasai yn y cyfeiriad hwn hefyd enwogi ei hun? Ond nid yn ôf ei galwyd. Deallodd hyny ei hun mewn pryd, a daeth eraill i ddeall hyny yn ddiweddarach. Mae yr ysfa ddarllen yn ei feddiannu yn llwyr yn "efail Morgan." Y mae dan ddylanwad y *fever* hono, heb lawer o farn i lywodraethu ei achosion wrthi. Darllena bobpeth Cymreig y daw o hyd iddo bron—newyddiaduraeth, barddoniaeth, a duwinyddiaeth, heb reol na threfn. Anghofir y grefft erbyn hyn, ac esgeulusir hi. Y mae "Eisteddfod Fawreddog," (?) neu gyfarfod cystadleuol, yn y gymydogaeth y pryd a'r pryd. Y mae Abiah yn reddfol bron yn gwybod y manylion oll am danynt. Sisiala rhywbeth wrtho y gall wneyd bardd go lew, os nad cadeiriol. Y mae yntau yn syml yn hanner credu hyny. Rhyw dro gwelwn ef âg un llaw yn ymaflyd yn nghorn y fegin yn yr efail, ac yn y llaw arall y mae *Gweithiau Barddonol Dewi Wyn o Eifion*, fe allai. Chwytha, darllena, myfyria, a rhyngddynt llosga yr haiarn. Yn sydyn ac mewn brys mawr daw Morgan, y meistr, i fewn. A druan o Abiah yn awr! Dyna ddiwedd am dro ar y darllen a'r nyddu englyn. Dyna ddiwedd hefyd ar heddwch y fro, oblegid y mae yr haiarn wedi llosgi yn ulw, Morgan yn taranu, ac Abiah yntau yn crymu yn fud, fel dafad mewn ystorm. Dan amgylchiad cyffelyb y cyfansoddodd yr englyn canlynol, buddugol ar "Jonah yn mol y morfil:"—

"Yno yn wael mae Jonah 'n wylo,—ingoedd
Angeu wasgant arno;
Ei gwyn gyrhaedda y nef, ac O!
Gwawr rhyddid egyr iddo.

Ap Vulcan."

Ond er meddu chwaeth gref at ddarllen a chyfansoddi barddoniaeth, areithio yn fyrfyfyr, ac ysgrifenu ambell draethawd, ac er bod ei lwyddiant gyda hyn yn symbyliad iddo fyned rhagddo, deallodd mai nid ar lwyfan yr eisteddfod a'r cyrddau cystadleuol yr oedd ei le ychwaith. Yr oedd heb broffes grefyddol hyd y flwyddyn 1878, er o hyd yn llange moesol a dichlynaidd. Yn gynnar y flwyddyn hono ymuna â'r eglwys Fethodistaidd yn y Tabernacl, Cwmaman. Nis gallasai nodi dydd ei dröedigaeth, ac ni theimlodd ddim o "nerthoedd" y byd a ddaw. "Teimlwn yn ofnadwy," meddai, "wrth weled yr elfenau yn myned heibio i mi bob mis, a minnau yn gwrthod y wledd. Yr wyf yn credu hefyd ddarfod i weddïau taerion a chwynfanus D. Lodwick gael cymaint o effaith â dim ar fy meddwl, i'w dueddu i gymeryd proffes o grefydd."

Nid oedd ei fod "yn newyddian yn y ffydd," yn un rhwystr i'n cyfeillion yn y Tabernacle i'w gymhell at ddyledswyddau cyhoeddus crefydd, oblegid y mae yn ymddangos, fel y dywedwyd, ei fod yn ŵr ieuanc bucheddol o'r blaen. Yr oedd ei alluoedd naturiol cryfion wedi cael cryn wrtaith ar faes llenyddiaeth Gymreig, a'i glod fel gŵr ieuanc galluog yn hysbys yn y gymydogaeth. Cymhellir ef yn fuan, gan hyny, i holi yr ysgol, i weddïo yn gyhoeddus, yn y capel ac yn annedd-dai yr ardal.

Oddeutu yr amser hwn—ychydig cyn hyn—dechreuodd tri chyfaill mynwesol iddo gyda'r Annibynwyr bregethu. Yr oedd wedi bod yn cyd-ddarllen, dadleu, ac areithio â'r rhai hyn "lawer gwaith a llawer modd," weithiau yn y gwersyll yn gyhoeddus, pryd arall yn "nhir neillduaeth" heb neb ond hwy ill pedwar. Yn syn y mae tri o'r pedwar wedi croesi yr Iorddonen, a'r pedwerydd "yn rhodio ar hyd glyn cysgod angeu!" Wrth weled y "tri wŷr hyn" yn ymaflyd yn ngwaith pwysig y weinidogaeth, sibrydid gan y cymydogion "fod hwn hefyd yn un o honynt;" ac y rhaid fod yn "Abiah beth daioni tuag at Arglwydd Dduw Israel," o ran y weinidogaeth. Ei ateb yn ei ddyddlyfr i hyn yw, "Ef allai yn wir, amser a ddengys." Yn fuan daeth ei gyfarch ar bwnc y pregethu yn foddhaus iawn ganddo, oblegid yr oedd ar ymddryllio gan awydd i hyny. A mawr ei lawenydd pan y ceisiwyd ganddo ddechre! Nodwyd iddo y noson, "Nos Fawrth, Gorphenaf 15, 1879," meddai, "bum yn siarad gyntaf yn y seiat; y testyn—'Canys y rhai a arweinir gan Ysbryd Duw, y rhai hyn sydd blant i Dduw.' Y pwnc:—Dyogelwch, breintiau, a hawliau plant Duw." Ennillodd gymeradwyaeth yr eglwys y noson gyntaf. Aeth drwy y dosbarth hefyd ar brawf yn llwyddiannus iawn. Yr ydym yn cofio yn dda y modd y byddai pobl yn dadgan eu barn am dano—"Dyn od," "bachgen gwreiddiol," "Thomas John, Cilgeran, yr ail," &c. Am rai misoedd wedi dechre pregethu, bu raid iddo, fel Edward Coslett, Casbach, wneyd "llawer pregeth boeth rhwng yr eingion a'r tân." Ac er mai duwinyddiaeth yn fwy na barddoniaeth, y bregeth ac nid yr englyn, a phregethu o ddifrif ac nid areithio ar lwyfan yr eisteddfod am arian ac enw, lyncai ei fryd yn awr, yr oedd y grefft yn llai fyth ar ei hennill o hyny, ac amynedd prin Morgan y meistr yn cael mwy o waith. Dechreu gofidiau oedd i'r meistr a'r gwas. Y mae yn gyfyng neilldnol ar Abiah o'r ddeutu. Y mae ei enaid yn dyheu am lyfrau, am arian i'w prynu, ac amser i'w darllen; ac nid oes ganddo yntau y naill na'r llall. Pryna amser yn ddrud iawn yr adeg hon. Yn wir lladrata lawer o hono oddiar gwsg, oblegid y dyddiau a'r misoedd hyn sydd ddrwg yn wir iddo ef. Bachgen amddifad yw, heb dad na mam, car na chyfaill, fedr gynnorthwyo nemawr, os dim, arno yn yr ysgol. Teimla y rhaid cael addysg i'r weinidogaeth. Y mae ei syniad mor uchel

am dani fel yr haedda yn ei olwg yr addysg oreu. Pa beth i wneyd? "Dim ond mentro ar Ragluniaeth fawr y nef," chwedl y diweddar Barch. William Pierce, Penllwyn. Os wedi ei alw i'r gwaith, ei ddyledswydd ydyw ufuddhau ac ymgymhwyso iddo, gan adael ei "ymborth a'i ddillad" yn llaw yr Hwn a'i galwodd. Mai 5, 1880, daeth dydd ei ryddhad—gedy am byth y diwrnod hwnw yr efail am yr ysgol yn Llandeilo. Ac yno y bu am flwyddyn gron yn ymgodymu â chewri llenyddol Groeg a Rhufain. Fel hyn y dadgan ei brofiad ar y cychwyn:—

"Dirywio y der awen—wna Lladin,
A llwydo ei pherchen;
A gyru gŵr wna 'r Groeg hen
Bron mor waned a brwynen."

Yr oeddym ar y pryd o fewn saith milldir i'w Athen ef, ac mewn mantais i wybod hanes "Bechgyn yr Academy." Clywsom yn fuan am ymroddiad Abiah i'w wersi, a'i daerineb am gyhoeddiad Sabbath. Ymhen ychydig esgynodd yn ddigon uchel i fod yn nod i saethau cenfigen ambell un gwanach ei aden nag ef. Ond heb i'r drwg hwnw gyffwrdd cymaint âg ef, i fyny yr esgynai fel ysgolaig, a gweithiai ei hun i gymeradwyaeth yr eglwysi, a theimlai erbyn hyn fod ei fara a'i ddwfr yn sicr, a gobeithiai weled Trefecca ymhen y flwyddyn. Ac felly y bu. Yn Mehefin, 1881, cafodd fynediad helaeth i fewn yno—y blaenaf ond un, os ydym yn cofio yn iawn. Bu yno am bedair blynedd llawn, a gweithiodd yno yn ddifefl. Yr oedd yno ddysgyblion cryfion a heinyf ar y pryd—yn rhedegwyr da; ond "y dysgybl arall" hwn "a redodd o'r blaen yn gynt" na hwy, ac a "ddaeth yn gyntaf" am y wobr, ar bob pwnc, a phob blwyddyn, gydag ychydig iawn o eithriadau. Gwelsom ein hunain yno rai yn dylyn eu "*hobbies*" hwy, ac nid *cwrs* addysg y coleg am flwyddyn; gan gymeryd felly fantais annheg ar efrydwyr mwy cydwybodol, ond nid oes fawr gredyd byth am "*hobby-prize*." Ond nid un felly oedd ein cyfaill Abiah. Na, gweithiwr teg, gweithiwr caled, a gweithiwr llwyddiannus. Am y tair blynedd ar hugain diweddaf, ni bu yn Nhrefecca efrydydd mwy llwyddiannus nag ef; ac y mae nifer y rhai a fuont mor llwyddiannus yn fychan iawn. Yn y flwyddyn 1885 dybenai ei addysg golegawl. Gwelwn ef yn bur welw ei wedd, a churiedig, yn sefyll â'i gryman gloew, dysglaer, ar ei fraich, megys, gan edrych ar faes eang sydd yn wyn eisoes i'r cynauaf, ac yn barod i waith. Clyw lais o wahanol gyrau y maes yn dywedyd wrtho—"Bwrw i mewn dy gryman a meda, Abiah." Etyb yntau: a phan ar fedr myned i gwr pwysig o'r maes yn Nghwm-Rhondda i fedi, daeth cenad ato gan ddywedyd—"Nid yn awr, y mae yn rhaid i ti gymeryd ychydig seibiant." Bu raid gwrando ar y genad hon, oblegid yr oedd o'r nef. Aeth am y seibiant gofynol i Bryn Glas, Llangadock, ac wedi hyny i Llwyn Hendy, Llanelli. Cafodd yn Mrs. Mary Davies, merch yr anwyl ddiweddar "Barch. D. Hughes, Nantcaredig," fammaeth o'r fath fwyaf gofalus a thyner. Ni bu arno eisieu dim ar aelwyd glyd Mrs. Davies, galar yr hon ar ei ol sydd fel un yn galaru am ei chyntaf-anedig. Rhwng ofn a gobaith y bu byw am flynyddoedd olaf ei fywyd. Yn gobeithio cael byw, ac yn llawn awydd am ei gyflawn urddau, darparodd mewn gwendid ar gyfer, a llwyddodd i basio yr Arholiad Cymdeithasfaol yn Hydref 1887. Gobeithiai yn erbyn gobaith am gael bod yn bresennol yn Rhymney yn Awst diweddaf i'w ordeinio. Un o'r pethau mwyaf *touching* i ni yn y gwasanaeth ordeinio oedd clywed galw enw "Abiah Davies" ymhlith y llu, ac yntau ar ei wely yn prysur farw. Tyner iawn oedd cyfeiriad ein hysgrifenydd ato, a hynod effeithiol gweddi y Dr. Hughes drosto. Gommeddwyd iddo, er ei awydd cryf, ddyfod i Gymanfa Rhymney eleni i dderbyn coron ei eneiniad l gyflawn waith y weinidogaeth. Ond ymhen ychydig wythnosau yr oedd wedi myned i "gymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig," i dderbyn "anniflanedig goron y gogoniant."

"Efe a fu farw," do, ac yn rhy gynnar o lawer. Siomodd dy farw cynnar di dy hun, anwyl gyfaill, a llawer eraill. "I ba beth y bu y golled hon?" Dyma y cwestiwn a adseinir heddyw ymhob man y buost yn gloewi dy arfau, ac mewn eglwysi fwynhasant dy wasanaeth gwerthfawr. *I ba beth? I ba beth y bu y golled hon?* O bob man ar y ddaear nid oes ond yr adsain "I ba beth?" yn dychwelyd, ond ar y llawr yr ydym. Ac fel y dywed y bardd—

"Nid wyf 'n awr ar y llawr,
Ddim yn gwel'd na deall fawr."

Y mae yn rhaid ymgodi a chymeryd ein safle ar un o fryniau tragywyddoldeb, uwchlaw y niwl a'r cymylau, a cheir gweled yno nad "*colled*" dim yn hanes Abiah. Ond fel y dywed yr anfarwol Henry Rees yn ei bregeth ar y testyn—"Paham y creaist holl blant dynion yn ofer?" "Acw," gan bwyntio â'i fys i'r nef, "yr oedd o i weithio." Do, anwyl Abiah, ti wnest dy oreu yma. Gweithiaist yn galed, gweithiaist nes marw. Cei weithio eto. Gweithio mwy mewn iechyd pur, mewn hoewder bythol. Cydweithio âg ysgoleigion mawr y nef, ac yn eu plith dy anwyl athraw, y Dr. Jones, a chydymsuddo fyth i ddyfnderoedd—

"Duwdod yn y dyn, a chofio angeu loes."

Amser a gofod a ballai i ni ymdroi gydag oriau olaf ein cyfaill. Bu farw "mewn tangnefedd heddychol." Tystiolaeth ei feddyg yr hwn a alwyd ato ychydig oriau cyn ei farw oedd—"Fod enaid gwyn ar ymadael." Ymadawodd Medi 19, 1888. Cafodd angladd tywysog y Sadwrn dylynol. Gorwedd ei lwch yn mynwent Capel Newydd Llanelli, gyda llwch yr enwogion Parchn. John Bowen, Rees Havard, William Morris, a David Hughes, "mewn gwir ddiogel obaith am adgyfodiad i fuchedd dragywyddol."

Cloffion.

DUW A PHETHAU DWYFOL UWCHLAW RHESYMEG.

Dywedai un ysgrifenydd:—Nid yw yr Anfeidrol yn fwy i mi, ond yn anfeidrol lai, am eich bod chwi wedi ei osod yn daclus o fewn eich darnodiad. Y mae perygl yn y profion

"That prove
God's being so definitely that man's doubt
Grows self-defined the other side the line,
Made atheist by suggestion."

Gallwn yn briodol ammeu a ellir profi unrhyw beth, oddieithr yn wir osodiad yn Euclid, yr hwn nad yw yn ddim ond tasg ddyrys wedi ei gosod wrth eu gilydd i'r pwrpas hwnw. Nid yw gosodiadau yn Euclid yn byw nac yn symud nac yn bod. Y mae *bywyd* wedi myned pan y dechreuwch ei ddifynu *(dissect)*. Y mae y blodeuyn wedi ei ddyfetha pan y dechreuwch wneyd elfeniad llysieuol arno. Nid yw gwirionedd yn wirionedd mwyach, ond yn osodiad yn unig, pan y dechreuwch ei brofi—yn beth sydd yn dibynu ar eich medrusrwydd rhesymegyddol chwi ac ar eich dawn o ymadroddi. Peth ofnadwy yn sicr yw gwneuthur Duw, nefoedd, uffern, tragywyddoldeb, i hongian ar eich prawf chwi!

DYNOLIAETH CRIST A'R GREFYDD GRISTIONOGOL YN RHWYM WRTH EU GILYDD.

Cyfaddefir ardderchawgrwydd dynoliaeth Crist, ond gwrthodir ei grefydd. Gan hyny, y cwestiwn yw, a all anffyddiaeth roddi i'r byd ddynoliaeth o'r fath fawrhydi a moesoldeb mor ardderchog, wedi eu tori ymaith oddiwrth dduwinyddiaeth yr Iesu? Nid yw yn anhawdd rhagfwrw y canlyniad. Pan y gall natur yn nghanol rhew ac eira y pegynau gynnyrchu tyfiant gorwych a thoreithiog gwledydd y trofanau, heb belydrau addfedol haul y cyhydedd, yna a dim yn gynt y gall dynion obeithio am greu daear newydd Crist heb nefoedd newydd Crist.—*Professor* Elmslie.

DUW YN BOB PETH YMHOB PETH.

Gwr duwiol unwaith a ddarostyngwyd o gyfoeth mawr i amgylchiadau isel. Ond yr oedd yr un mor ddedwydd a siriol mewn tlodi ag ydoedd pan yn nghanol cyfoeth. Pan ofynodd cyfaill iddo reswm am hyn, dyna oedd ei ateb:—"Pan mewn llawnder, yr oeddwn yn mwynhau Duw *ymhob peth*; yn awr, pan heb ddim, yr wyf yn mwynhau *pob peth yn* Nuw."

GEIRIAU Y DOETHION.

Y mae gan bob cenedl *ryw* iaith. Profa hyn undod dynolryw; er nas gall ieithwyr benderfynu pa un oedd iaith wreiddiol y teulu dynol.

Ni ddysg y ffol ddoethineb oddiwrth unpeth; dysg y doeth ddoethineb oddiwrth bobpeth.

Rhaid i chwi roddi i fyny gyda llawer o bethau os mynwch roddi llawer o bethau i lawr.

Cronicl Cenadol.

DOSBARTH SHILLONG.

TAITH I KYNDIAR.

Llythyr oddiwrth y Parch. T. Jerman Jones, dyddiedig Hydref 20fed, 1888.

Yr oedd gwyliau y *Doorga Pooja* yn dechreu y 6ed o'r mis hwn, pryd y mae holl swyddfeydd y Llywodraeth yn cau am bythefnos; a chymerodd Mrs. Jones a minnau afael yn y cyfleusdra hwn i ymweled â Kyndiar, a daeth un o swyddogion y Llywodraeth gyda ni yr holl daith—Mr. Dobbie, *Comptroller* Talaeth Assam, yr hwn sydd yn foneddwr Cristionogol, ac yn ŵr syml, caredig, ac yn cymeryd dyddordeb dwfn mewn gwaith Cenadol, ac yn nyrchafiad a llwyddiant brodorion y wlad hon. Ac yr oedd yn dda iawn ganddo gael cyfle i weled y bobl, yr ysgolion, a'r gwaith Cenadol ymhell o Shillong. Ymddengys iddo gael ei foddhau yn fawr yn yr hyn a welodd. Yr oedd ganddo babell liau gydag ef, yn yr hon yr oedd yn gosod ei wely yn y nos, ac yr oedd y bobl yn cymeryd dyddordeb mawr yn y gŵr dyeithr oedd gyda ni, ac yn neilldiol yn ngosod y babell i fyny gerllaw yr ysgoldy, a holent yn fynych pwy oedd, a beth oedd ei neges. Gan nad oedd yn deall Khasi, casglent yn fuan nad oedd yn Genadwr; ond yr oedd ei wedd radlawn, ei wyneb siriol, a'i ymddangosiad diymhongar, yn eu tynu ato yn fuan, ac ysgydwent law âg ef heb ddim petrusder; yr oedd yntau yn mwynhau hyn yn rhagorol.

Nos Lun, yr 8fed, cyrhaeddasom hyd Laitlyngkot, a phrydnawn dydd Mawrth hyd Lyngkyrdem; ac ar ol cerdded dygn a disgyn ar hyd dydd Mercher, ni a ddaethom i Pynter. Yr oedd cryn lawer o amser er pan ymwelsom â'r lleoedd hyn ddiweddaf. Bob tro y byddem yn arfaethu myned i'r parthau hyn, yr oedd rhywbeth yn rhwystro, ond y tro hwn fe ddaeth yr arfaeth i ben. Yr oedd yn dda iawn genym eu gweled oll, a chael cydgyfarfod â hwynt i addoli Duw. Er yn flin, ni a gawsom gyfarfod yn yr hwyr yn yr awyr agored—y merched un ochr a'r meibion yr ochr arall, a thân coed mawr yn y canol. Yr oedd y rhan fwyaf o lawer o drigolion y pentref yn bresennol, ac yr oedd eu hymddygiad yn well nag y gwelais hwynt o'r blaen, a gwrandawent yn hynod astud. Yr oedd yma un teulu yn cynnyg am dderbyniad i'r eglwys yn Nonglynter, ac un neu ddau o ddynion ieuainc, y rhai oeddent yn dysgu yn yr ysgol. Wedi i ddau neu dri siarad, gofynwyd i'r ymgeiswyr hyn sefyll i fyny a dyweyd yn gyhoeddus paham yr oeddent yn gadael eu hen grefydd a throi

yn Gristionogion. Safodd y gŵr i fyny. Mae ef yn frawd i benaeth y pentrefi hyn, ac wedi dysgu darllen ac ysgrifenu, a dywedodd fod ganddo dri gair i'w ddyweyd paham yr oedd yn troi yn Gristion: 1. Mai i'r byd hwn yn unig yr oedd y grefydd Gasi, ond fod ganddo ef enaid i fyw byth, ac fod yn rhaid iddo ef gael crefydd oedd yn cyrhaedd i fyd arall. 2. Nad oedd iawn dros bechod na maddeuant yn y grefydd Gasi; ei fod ef yn bechadur, ac fod y Llyfr yn dangos fod maddeuant pechod yn nghrefydd yr Iesu. 3. Mai ceiliog iâr oedd gwaredwr, a sail cyfammod ac eiriolwr yn y grefydd Gasi, ac fod yn amlwg a hollol sior nas gallai wneyd yr un o honynt; ond fod Iesu Grist yn Waredwr ac Eiriolwr gwirioneddol, ac Arweinydd i ogoniant; ei fod Ef yn gwybod y ffordd, a'i fod wedi dyfod o'r nefoedd i'r ddaear a myned yno yn ol ar ol gorphen ei waith. Yna gofynwyd i'r gynnulleidfa a oedd efe yn ddirwestwr, ac atebasant ei fod. Yna gofynwyd a oedd ganddynt rywbeth yn ei erbyn, ac atebasant nad oedd ganddynt ddim, ei fod yn ddyn da iawn, ac yn gwella o hyd. Mae y gŵr hwn wedi bod yn cadw y Sabbath er ys dros dair blynedd, ac yn yr ysgol fore a hwyr, mor fynych ag y gallai, yn eistedd yn nghanol y plant i ddysgu darllen ac ysgrifenu. Ac yn yr arholiad bore drannoeth, mewn darllen ac ysgrifenu, ac ateb cwestiynau o Efengyl Matthew, y pennodau cyntaf, efe oedd y goreu. Tra yr oeddem yn holi yr ysgol, yr oedd Mrs. Jones mewn cŵr arall gyda nifer lïosog o enethod a gwragedd, yn ymdrechu egluro iddynt, gyda help darluniau, fywyd a gweithredoedd Iesu Grist. Mae yr efengyl yn dechreu gwneyd ei gwaith ar drigolion y pentref hwn; maent yn fwy gwâr nag oeddent dair blynedd yn ol, ac yn holi ynghylch crefydd Iesu Grist, yr hyn sydd yn arwydd er daioni.

Canasom yn iach iddynt am hanner dydd drannoeth, ac ar ol teithio caled trwy y gwres poeth cyrhaeddasom Nonglynter pan oedd yn tywyllu, ac yr oedd ein dillad mor wlyb gan chwys a phe buasem wedi cerdded trwy yr afon, a bu raid newid y cyfan ar unwaith. Dydd Gwener aethom trwy bentrefi Nohwet a Riwai, a chynnaliwyd cyfarfod yn y ddau le, a dychwelwyd i Nonglynter i gynnal cyfarfod yn yr hwyr. Dydd Sadwrn cyfarfod yn y bore, ac am ddau yn y prydnawn priodi dau gwpl. Dau athraw oedd y gŵyr ieuainc, rhai o'r Bryniau, un o Mawphlang a'r llall o Cherra; a'r gwragedd ieuainc yn rhai o bentrefi Kyndiar, genethod dymunol, wedi eu magu yn yr eglwys, y ddwy o deuluoedd crefyddol, yn gallu darllen ac ysgrifenu, ac yr wyf yn credu y gwnant lawer o help i ddysgu y gwragedd yn y pentrefi. Bydd un yn sefydlu gyda'i gŵr yn mhentref Kyndiar, a'r llall yn Ringer. Yr oedd yr ysgoldy yn llawn ar yr achlysur, a chafwyd cyfle rhagorol i egluro iddynt natur a rhwymedigaethau priodas Gristionogol. Ar ol i bawb gael eu digoni â chig moch a *rice*, aethom yn fintai wrth oleu y lleuad i gynnal cyfarfod i Riwai, ac yn lled hwyr daethom yn ol i Nonglynter.

Y Sabboth, cyfarfod gweddi am 7 y bore, Ysgol Sul am 10, ac am 1 pregethodd U Joel, is-arolygwr yr ysgolion yn Jaintia, a minnau, ac am 4 pregethodd U Assiam o Shillong. Yn yr hwyr ymwasgarwyd, rhai yma a rhai acw, i gynnal cyfarfodydd yn y pentrefi cyfagos.

Am 9 bore Llun daeth yr holl frawdoliaeth at eu gilydd yn gryno, a chafwyd ymddyddan am amryw faterion:—A oeddent oll fel eglwys, yn feibion a merched, mewn heddwch â'u gilydd; a oeddent oll yn cydweithredu, a oeddent yn gofalu am y rhai cystuddiol, y tlawd a'r anghenus; a oeddent yn myned i chwilio am y rhai oeddent wedi myned ar gyfeiliorn; pa fodd yr oeddent yn cario y gwaith ymlaen; a oeddent yn ffyddlawn i ddyfod i'r cyfarfodydd; cytuno hefyd ar lecyn priodol i adeiladu capel arno. Maent yn hwylio am gapel, ac wedi addaw ato dros 200 *rupees*. Yna bedyddiwyd dau mewn oed, a phedwar o blant, a chyfranogwyd o Swper yr Arglwydd. Yr oedd hwn yn gyfarfod buddiol. Mae yr achos yn y parth hwn yn myned yn ei flaen yn raddol; mae yr eglwys yn awr yn rhifo tua 100. Mae y Cristionogion yn gwella, ac yn cynnyddu mewn gwybodaeth a phrofiad, ac y mae y bobl yn y pentrefi yn agosâu at Gristionogaeth, yn dyfod i'r cyfarfodydd ac yn gwrando yn astud. Deng mlynedd i fis Rhagfyr nesaf oedd yr adeg y bum yn y rhan hon gyntaf: y pryd hyny nid oedd yma yr un ysgol, neb yn gallu darllen, na'r un Cristion o fewn y terfynau hyn. Wrth gofio hyn mae y llwyddiant a'r cyfnewidiad wedi bod yn fawr, ac i Dduw y byddo yr holl glod a'r gogoniant. Mae yma rai dynion da ragorol a gwragedd hefyd: un wraig yn Riwai o'r enw Ka Nora, a chanddi dri o blant, a arferai fyned i dai yn y pentrefi i edrych am y rhai cleifion, ac yr oedd, gyda gwahanol ddail, yn gwneyd meddyginiaeth, yr hon oedd yn llesol iddynt; ac er ei bod yn hollol dlawd ni chymerai ddim gan neb, ond cymerai 5 *pice* (tuag un geiniog a dimai) gan bob un a ewyllysai roddi y swm hwn iddi yn wirfoddol, gan addaw rhoddi y cyfan at achos yr Arglwydd Iesu. A phan oeddwn yn Riwai daeth â 5. 3. 6 *rupees* (tua 10 swllt), gan ofyn i mi eu cymeryd i'w defnyddio at wasanaeth yr Arglwydd. Yr oedd yn anhawdd peidio teimlo wrth wrando arni yn adrodd yr hanes, ac mor dda yr oedd yr Iesu wedi bod wrthi. Yr un yw ffrwyth yr efengyl ymhob man lle y derbynir hi i'r galon.—y wraig hono gynt a'r ddwy hatling, a dyma chwaer iddi yn Riwai ar Fryniau Khasia. Wrth yr holl wragedd y dywedwn, Ewch a gwnewch yr un modd.

Cysgasom nos Lun yn Kyndiar. Y maent wedi gwneyd ysgoldy newydd yma, un o'r rhai taclusaf a welais yn unman, ac yr oedd yn llawn o bobl y noswaith hono, a chafwyd yno gyfarfod da iawn. Cychwynwyd yn fore drannoeth, gan fod genym ddringo a dringo i gyrhaedd Lyngkyrdem,

y noswaith. Cawsom gyfarfod am awr yn Ringer, pentref ar fin y ffordd, a chyfle i bregethu yr Iesu i nifer dda o bobl. Pan oedd yr haul yn machlud yr oeddem yn cyrhaedd top Lyngkyrdem, a drannoeth daethom yr holl ffordd i Shillong, a chyrhaeddasom enyd ar ol iddi dywyllu. Cadarnhäwyd ein ffydd a llonwyd ein calon gan yr olwg ar waith yr Arglwydd yn Kyndiar.

DOSBARTH MAWPHLANG.

Rhan o Lythyr oddiwrth y Parch. Dr. Griffiths.

Mawphlang,
Hydref 19eg, 1888.

Er pan ysgrifenais o'r blaen yr ydym wedi cael profedigaeth chwerw. Ar y 5ed o'r mis hwn bu ein geneth fach farw pan o fewn ychydig ddyddiau i fod yn flwydd oed. Yr oedd wedi gwneyd lle mawr a phwysig iddi ei hun yn y tŷ ac yn ein cynlluniau gyda golwg ar y dyfodol, ond yr oedd cynllun mawr ac anfeidrol ddoeth ein Tad nefol fel arall, a lle wedi ei barotoi iddi gydag Ef, a rhaid oedd i'n darpariadau *ni* roi ffordd. Caled iawn oedd ymadael â hi, ac y mae ein haelwyd yn wag ac oer hebddi yn awr! Ond, teimlwn yn ddiolchgar iawn am dani, a'r pleser a gawsom gyda hi, a'r adgofion melus, er yn hiraethlawn, sydd yn aros. Daeth Mrs. Stephens, Mr. Jerman Jones a Mr. Roberts yma trwy y gwlaw mwyaf a gawsom o un adeg yn ystod yr haf diweddaf, ac yr oedd yn dda iawn genym eu gweled, a bu eu presennoldeb yn gysur mawr iawn i ni.

Heddyw dyma ddeng mlynedd wedi myned heibio er pan gychwynasom o Liverpool. Y mae llawer o gyfnewidiadau wedi cymeryd lle yma ac yna er hyny. Flynyddoedd yn ol, fel yr edrychwn ymlaen at *ddechre* gwaith Cenadwr! Ond dyma fi heddyw wedi *gorphen* deng mlynedd o hono. Wrth edrych yn ol, y mae llawer o brofedigaethau a llawer o bleser a gafwyd gyda'r gwaith yn d'od i fy meddwl; llawer o gamgymeriadau hefyd yn peri i mi gondemnio llawer arnaf fy hun. Ond er y cyfan, yr wyf yn teimlo fod yr eneidiau ag y bum yn foddion i'w dwyn o dan ddylanwad yr efengyl ac i gredu yn Ngheidwad dynolryw, yn ddigon o ddangoseg fy mod lle y dylwn fod, ac y mae genyf y cysur o feddwl fy mod yn dechreu y deng mlynedd nesaf yn fwy profedig nag oeddwn yn dechreu y deng mlynedd diweddaf.

CYFARFOD YR HENADURIAETH YN JIWAI.

Gan y Parch. T. Jerman Jones.

Shillong,
Tachwedd 14eg, 1888.

Dyma gyfarfod Henaduriaeth Hydref y flwyddyn hon wedi myned heibio. Cynnaliwyd ef yn Jiwai, y 27—29ain o'r mis, ac yr oedd yn gyfarfod lliosog, bywiog a heddychol o'r dechreu i'r diwedd. Dechreuwyd y cyfarfod cyntaf am 7 boreu Sadwrn, y 27ain.

Cenadwriaethau o'r eglwysi; Dosbarth Cherra; cais am gael ychwaneg o flaenoriaid.—Penderfynwyd i Mr. Williams, Shella, a blaenor o'r eglwys hono, fyned yno i'w cynnorthwyo yn y dewisiad. Hefyd cynnyg U Rohinroy, U Sahonroy ac U Sorkin i fod yn efengylwyr, a rhoddi caniatad iddynt i sefyll yr arholiad nesaf. Dosbarth Shillong: rhoddi caniatad i eglwys Kyndiar i adeiladu capel newydd. Dosbarth Khadsawphra: rhoddi caniatad i eglwys Nongrymai i ddewis blaenoriaid, a bod Mr. Jerman Jones, ac U Ngorsing i fyned yno i'w cynnorthwyo. Dosbarth Jiwai; cais am gael rhagor o flaenoriaid yn Jiwai. Penderfynwyd fod Mr. Robert Evans ac U Kypa U Simon i'w cynnorthwyo yn hyn. Cais cyffelyb o eglwys Nongbah, a Mr. Robert Evans ac U Kypa U John i'w cynnorthwyo. Cais o'r un natur o eglwysi Padw a Nongtalang, a bod Dr. Hughes ac U Kypa Ka Lahun i gynnorthwyo y ddwy eglwys yn y dewisiad. Dosbarth Shangpoong; cynnyg U Siangblah i fod yn efengylydd, ei gymeradwyo i sefyll yr arholiad nesaf. Derbyn tri o flaenoriaid; dau o Mawmluh ac un o Nyrtiang. Holwyd hwy am eu gwybodaeth gan Mr. Robert Evans, ac am eu profiad genyf finnau, a rhoddwyd cynghor iddynt gan Mr. Stephens ac U Ngorsing. Coffâd am U Borsing Siim: ar ol darllen penderfyniad y Cyfarwyddwr yn amlygu eu hedmygedd o hono fel Cristion, a'u diolchgarwch i Dduw am ei achub a'i gynnal yn ffordd y bywyd hyd y diwedd, a hyny yn nghanol llawer o brofedigaethau; a'u gweddi am i'r teulu gael eu cysuro ac am i'r plant gael nerth i rodio yn llwybrau eu tad, gwnaed cyfeiriad teimladol at ei farwolaeth gan y Llywydd, Mr. John Roberts, U Jura, Mr. Jerman Jones, Mr. Robert Evans ac eraill. Dygent oll dystiolaeth i'w gymeriad pur a didwyll fel Cristion, fel un wedi gwneyd aberth mawr a gwirioneddol er mwyn bod yn ddilynwr i Iesu Grist, fel un wedi dangos yn ei fywyd a'i weithredoedd ei fod yn caru ac yn gwerthfawrogi y Gwaredwr mawr a'r efengyl yn fwy na'r byd a'i ogoniant. Cododd ei groes a dilynodd Ef hyd y diwedd; a diau iddo gael coron y bywyd.

Cyfarfod yr Efengylwyr a'r Blaenoriaid am hanner dydd: y mater ganddynt oedd, gwaith efengylydd, gyda chyfeiriad arbenig at y rhai y bwriedir eu hordeinio i'r gwaith hwn cyn hir, yn seiliedig ar 2 Tim. ii. 15. Chwi gewch y papyr a'r manylion gan Dr. Griffiths, yr ysgrifenydd.

Cyfarfod am dri. Amlygodd y cyfarfod gydymdeimlad âg U Kypa U Salait, blaenor o Shangpoong, ar farwolaeth sydyn ei wraig, a'i afiechyd yntau ar ol hyny.

Y Sefydliad Duwinyddol yn Cherra.—Rhoddodd Mr. Roberts i'r cyfarfod eglurhad cyflawn ar y mater hwn,—amcan y

Sefydliad—yr hyn yr amcenir ei gyrhaedd trwy addysgu y dynion ieuainc yn ngair Duw, sef parotoi a chymhwyso dysgawdwyr cymhwys i'r eglwysi yn yr holl wlad. Ceisiais innau ddangos yr anghenrheidrwydd am y cyfryw Sefydliad—fod nifer yr eglwysi, lliosogiad y Cristionogion, llwyddiant y Genadaeth, a lledaeniad addysg, yn galw am dano, ac y byddai yr Ysgol Dduwinyddol hon yn sicr o fod o fendith fawr i'r Khasiaid, fel yr oedd Colegau y Bala a Threfecca wedi bod ac yn parhau i fod o ddaioni anmhrisiadwy i Gymru. Yna cynnygiwyd penderfyniad o ddiolchgarwch i'r Cyfarwyddwyr, i'r Gymanfa Gyffredinol, ac i'r holl eglwysi gartref, am feddwl ac am sefydlu Ysgol fel hon ar Fryniau Khasia; ac er fod ei dechreuad yn fychan, eto credwn y bydd i'w diwedd gynnyddu yn ddirfawr.

Yn nesaf, daeth hanes yr Achos yn Nosbarth Jiwai. Ymddangosai oddiwrth yr adroddiad fod yno gynnydd mawr wedi cymeryd lle yn yr Henaduriaeth o'r blaen yn Jiwai, ac fod cydweithrediad a chariad a heddwch yn ffynu yn Jiwai ei hun, ac yn yr holl Ddosbarth. Yr oeddent wedi rhoi oriel ar y capel yn Jiwai—y gyntaf yn yr holl Fryniau, a gosod *ceiling* coed i fyny, ac yr oedd y capel yn edrych yn rhagorol, a golwg ieuanc, bywiog, cryf a heinyf ar yr achos a'r gynnulleidfa; ac ymddangosent oll yn falch fod Dr. Hughes wedi ymsefydlu yno, eu bod wedi llwyddo yn eu cais—wedi cael meddyg i fyw i Jaintia.

Y mater nesaf oedd yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Siaradwyd arno gan Mr. Stephens, U Jura, U Mohonroy, U Ksan, a Dr. Griffiths. Ar ol y cyfarfod hwn cyfarfu Cyfeisteddfod Ordeinio y Pregethwyr, am 8 o'r gloch, a bu amryw bethau ynglŷn â'r mater hwn dan ystyriaeth, a chaed ymddyddan hefyd â thri o'r pregethwyr.

Y Sabbath. Dechreuwyd y cyfarfod am 10 y bore, gan U Ksan, Cherra, a phregethodd Mr. Williams, Shella (Heb. ii. 3), a Mr. Stephens (Phil. ii. 12, 13). Dechreuwyd y cyfarfod am un gan U Jura, a phregethodd U Ramjan (Luc xix. 10), a Dr. Griffiths (Deut. xxxii. 47). Yn y cyfarfod nesaf dechreuodd U Myngor, Shillong, a phregethodd Mr. Pengwern Jones, Sylhet, yn Saesoneg (Jer. ii. 13), a Mr. Ceredig Evans, Cherra (1 Petr iii. 18). Yr oedd yno gynnulleidfaoedd lliosog ar hyd y dydd; barnem fod 900 neu fwy yn y cyfarfod canol, ac yr oeddent oll yn gwrando yn astud ac yn ymddwyn yn dreftnus. Bendith Duw fyddo ar y cyfan. Nis gallem beidio cymharu yr olygfa y diwrnod hwn—y capel mawr yn llawn o bobl—â'r olygfa oedd yn yr un llecyn yn gymhwys 18 mlynedd yn ol—y dyrnaid bychan oedd yn ymgynnull i addoli yr adeg hono mewn hen *mess-house*. Mor gadarn y cynnyddodd gair yr Arglwydd!

> "Cerdd ymlaen, nefol dân,
> Cymer yma feddiant glân."

Cafwyd seiat dda nos Sabboth. Y mater, Addysg plant gartref.

Cyfarfod am 7 bore Llun: Darllen y Papyr o Gyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid, ei gymeradwyo i'w anfon i'r eglwysi. Yna caed peth ymddyddan a siarad ac annogaethau ar bregethu—yr anghenrheidrwydd o ymroddi ati ac ymdaflu i'r gwaith â'r holl enaid, heb ymofyn am hyn ac arall, ond ymddiried yn yr Arglwydd Iesu, yr hwn a'n carodd ac a'n prynodd â'i werthfawr waed i fod yn eiddo iddo a'i wasanaethu; fod eisieu i ni fod nid yn ddiog mewn diwydrwydd, ond yn wresog yn yr ysbryd yn gwasanaethu yr Arglwydd. Wedi gwneyd sylw ar rai materion eraill, a thalu diolchgarwch i'r cyfeillion yn Jiwai am eu caredigrwydd, diweddwyd y cyfarfod trwy weddi. Hysbyswyd y bydd yr Henaduriaeth nesaf yn cael ei chynnal yn Cherra, y 3ydd Sabbath yn Mawrth, 1889.

Wrth ddychwelyd o Jiwai, darfu i Mr. Roberts a minnau dreulio diwrnod yn Mawlyngkyneng—hanner y ffordd rhwng Jiwai a Shillong, a darfu i ni ddefnyddio y diwrnod i fyned o amgylch y wlad i weled y pentrefi, nifer y tai, &c., a daethom i'r penderfyniad fod yno le rhagorol i sefydlu un o'r pregethwyr i lafurio, gan fod yno tua 400 o dai mewn tri neu bedwar o bentrefi, heb fod ymhell oddiwrth eu gilydd, yr hyn a olygai boblogaeth o yn agos i 2000 o eneidiau.

Yr ydym yn cydymdeimlo yn ddwys iawn â Dr. a Mrs. Griffiths yn marwolaeth eu geneth fach, yr hon oedd agos yn flwydd oed; cymerwyd hi ymaith at yr Iesu ar ol ychydig ddyddiau o waeledd. Bydded i'r Iesu â'i bresennoldeb ac â'i ras lenwi y gwagle a adawodd yn y teulu, a nerth a gaffont i'w rhoddi i fyny i fod yn eiddo byth i'r Hwn a ddywedodd, "Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi, ac na waherddwch iddynt, canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd."

Mae U Borsing Siim hefyd wedi myned i ogoniant, ac mae yn sicr y bydd yn ddrwg gan filoedd o Gymry glywed am ei farwolaeth. Ysgrifenodd Sir Charles Elliott, diweddar Brif-Lywodraethwr Talaeth Assam, mai Borsing Siim oedd yr unig un y gwyddai ef am dano oedd yn yr oes hon wedi colli teyrnas oblegid troi yn Gristion, ac yn dal yn Gristion er colli y deyrnas; ac fe ddaliodd hefyd hyd y diwedd. Cafodd lawer o brofedigaethau a siomedigaethau, a phethau chwerwon, ond dan y cyfan fe ddaliodd ei broffes yn ffyddlon hyd y diwedd. Yr oedd ganddo ei feïau a'i ffaeleddau, ac yr oedd llawer yn ei feïo am ymddwyn fel y gwnaeth; ond nid oes ammheuaeth nad gweithred ardderchog oedd ei waith yn gwrthod teyrnas yn hytrach na gwadu a gwerthu Iesu Grist, gweithred yn gofyn penderfyniad a gwroldeb mawr, ac nad yw yn dygwydd ond unwaith mewn oes. Troes yn Gristion, ac ymunodd ef a'i deulu â'r eglwys yn Cherra pan ydoedd yr achos cenadol yn isel a digefn; ac os nad wyf yn camgymeryd, un rheswm a ddylanwadodd arno i wneyd hyny yr adeg hono oedd sefyllfa isel yr

achos ar y pryd, a chredai y gallai wneyd daioni i achos yr Arglwydd trwy fwrw ei goelbren i fysg ei bobl pan oeddent yn isel a digymhorth; yr hyn sydd yn dangos ei gydwybodolrwydd, a'i gariad at yr Iesu, a'i waith a'i bobl, a hyny pan yr oedd pawb o'r mawrion yn edrych arnynt gyda dirmyg. Moses yn unig allai wneyd y weithred fawr hono—gwrthod cymeryd ei alw yn fab merch Pharaoh, ac arddel ei berthynas â phobl Dduw yn eu sefyllfa isel a gorthrymedig—a barnu yn fwy golud ddirmyg Crist na thrysorau yr Aipht. Trwy ffydd y gwnaeth hyn, gan bwyso y cyfan yn ol pwysau y byd a ddaw; a chredaf y gellir dyweyd mor gywir a gwirioneddol am Borsing Siim, iddo wneyd hyny oll trwy ffydd, a phe deuai ail epistol at yr Hebreaid y byddai adnod yndd o, "trwy ffydd, Borsing Siim," &c. Bu farw fel y bu byw, yn dawel, gan bwyso ei enaid ar y Cyfryngwr, a chredwn ei fod yn awr yn frenin ac offeiriad i Dduw, ac yn mwynhau tangnefedd yr Iesu yn y breswylfa lonydd; yr holl helynt a'r swn a'r golled wedi troi yn ennill a gogoniant tragywyddol. Bydd yr un weithred hon yn dylanwadu yn ddaionus ar y Khasiaid am amser maith, ac nid yw yn annhebyg y bydd ei ddylanwad yn gryfach arnynt ymhen hanner can' mlynedd nag ydyw yn awr. Yr oedd ei ymddangosiad yn dywysogaidd; efe oedd y tebycaf i frenin o neb a welais ymysg y Khasiaid, a chafodd gladdedigaeth tywysog. Yr oedd yn dda iawn genym weled Captain Maxwell, Llywodraethwr y Bryniau, yn anrhydeddu ei goffadwriaeth trwy ddyfod i'r capel ac i'r fonwent ar yr amgylchiad. Coded Duw ddynion yn yr eglwysi yn caru crefydd yr Iesu ac yn meddu ymlyniad calon wrthi yn fwy nag wrth aur ac arian, ac yn fwy na sefyllfaoedd pwysig ac anrhydeddus yn y byd; rhai yn ceisio yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod ei fod wedi derbyn y symiau canlynol er pan wnaed yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
O Stanley Road, Bootle	38	2	0
O Leyn ac Eifionydd, trwy law Mr. R. Jones, U.H., *Bank*, Pwllheli	265	0	0
O Chatham Street, Liverpool (ychwanegol)	14	17	8
O Rock Ferry	7	16	5
O Sir Fôn	415	0	0
Mr. T. Edwards, Ucheldre, Llansadwrn, Sir Fôn	5	0	0
Mr. Griffith Williams, Bodlondeb, Aberystwyth	5	0	0
Rhan o gasgliad Dyffryn Clwyd, trwy law Mr. Peter Roberts, Llanelwy	50	0	0
Rhan o gasgliad Gogledd Aberteifi, trwy law Mr. John Jones Williams, Bank, Aberystwyth	75	0	0
Oddiwrth Robert Davies, Ysw., U.H., Bodlondeb, Bangor, Tanysgrifiad am 1887	500	0	0
Ete am 1888	500	0	0
Tocyn Miss A. M. Lewis	0	10	0
Oddiwrth y Parch. Edward Parry, M.A., Y Drefnewydd, tuag at Ysbytty yn Jiwai	5	0	0
Eto tuag at y gwaith Cenadol yn Llydaw, dan ofal y Parch. W. Jenkyn Jones a Mr. E. Jones	5	0	0
Y Parch. A. Oliver, Cwmystwyth, tuag at yr Ysbytty yn Jiwai, trwy law y Parch. John Jones	1	0	0
Blychau Cenhadol y plant, trwy law Misses Roberts, London House, Llandudno	3	13	9½
Aberfan, Merthyr Vale	6	4	7
Blwch Miss A. Anwyl	0	6	0
E. M. tuag at gael llestri Cymundeb i Mawphlang, neu os bydd rhai wedi eu cael, i'w defnyddio fel y gwelo y Parch. Dr. Griffiths yn oreu	2	0	0
"Un â'i galon yn llwyddiant yr Efengyl," tuag at gael llestri cymundeb i Mawphlang (neu at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon)	0	10	0
Matthew vi. 20, tuag at Ysbytty Jiwai	1	0	0
Elizabeth	0	10	0
Tuag at Ysbytty Jiwai, trwy law y Parch. T. Hughes, Kenchester:—			
Mr. W. Jones	0 5 0		
Mr. Walter David Watkins	0 5 0		
Mr. John Davies	0 5 0		
Mr. Henry Davies	0 10 0		
Mr. John Jones	0 10 0		
	1	15	0
Oddiwrth Un o Abergele sydd yn caru yr achos Cenadol, i'w anfon i Dr. Griffiths £5, a Dr. Hughes £5	10	0	0

Mae Miss S. Williams, Ensor House, Llanrhaiadr, Sir Drefaldwyn, wedi bod mor garedig ag addaw llestri Cymundeb i Eglwys Mawphlang, a dysgwyliwn y byddant wedi eu hanfon allan cyn y daw y rhifyn hwn o'r wasg.

Rhagfyr 14*eg*, 1888.

Taer erfynir ar i enwau y plant fyddont wedi casglu 5s. ac uchod at y Genadaeth, gael eu hanfon trwy yr Ysgrifenyddion Sirol i law yr Ysgrifenydd Cyffredinol erbyn diwedd Ionawr, yna gofelir am anfon y gwobrwyon yr wythnos gyntaf yn Chwefror.

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street*, *Liverpool*.

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank*, *to the credit of Mr. David Hughes*, *Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society*.

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., *Central Buildings*, *North John Street*, *Liverpool*.

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road Scuth*, *Liverpool*.

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.